

S4C

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22

Ar gyfer y cyfnod 01 Ebrill 2021
tan 31 Mawrth 2022
HC 389





Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon S4C 2021-22

Cyflwynir i'r Senedd yn sgil paragraffau 13(1) a 13(2) i atodlen 6 Deddf Darlledu 1990.

Gosodir gebron Senedd Cymru yn unol â phenderfyniad gan y Senedd o dan Reol Sefydlog 15.1(v).

HC 389

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar Ddydd Mercher, 20 Gorffennaf 2022.

Paratowyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Ariannol hwn ar ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chymeradwyaeth y Trysorlys.

Cynnwys

06	Cyflwyno S4C
08	Y Prif Ffeithiau
10	Cyflwyniad y Cadeirydd
12	Cyflwyniad y Prif Weithredwr
16	Cyfraniad Cymdeithasol S4C
30	Cynnwys 2021–22
54	Mesur Perfformiad 2021–22
76	Adroddiadau Gweithredol
77	Partneriaeth S4C gyda'r BBC
78	Adroddiad ar Gynadwyedd
80	Ystâd S4C
81	Gweithgareddau Masnachol S4C
82	Adolygiad Annibynnol o S4C
85	Adroddiad Llywodraethiant
96	Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol
98	Swyddogaethau a Systemau Cyllid
101	Adroddiad Polisi Cyflogaeth S4C
104	Datganiadau Ariannol
106	Oriau a ddarllledwyd a chyfartaledd cost yr awr
108	Datganiad o Gyfrifoldebau
110	Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Fwrdd Sianel Pedwar Cymru (S4C) sy'n cydnabod bod dau Dŷ'r Senedd hwythau'n dibynnu ar Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol S4C
112	Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr
113	Mantolen Gyfun
114	Mantolen S4C
115	Datganiad Cyfun o newidiadau mewn Ecwiti
116	Datganiad Llif Arian Cyfun
117	Nodiadau i'r cyfrifon
136	Sut i wyllo a chysylltu gydag S4C

© S4C 2022

Caniateir atgynhyrchu testun y ddogfen hon yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng yn amodol ar gywirdeb yr atgynhyrchu ac nad yw'n cael ei wneud mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod hawlfraint S4C a nodi teitl y ddogfen.

Gellir lawrlwytho'r ddogfen hon o s4c.cymru

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at s4c@s4c.cymru

ISBN 978-1-5286-3507-3
E02762333 07/22

Cyflwyno S4C

Mae S4C yn gwasanaethu'r gynulleidfa gyda chynnwys sydd yn diddanu, yn cyffroi ac yn adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth.

Fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus mae gennym ddyletswydd i greu y platfform ac ecosystem i sbarduno'r diwydiannau creadigol yng Nghymru i greu cynnwys uchelgeisiol ac unigryw sy'n apelio at bob oedran, cefndir a gallu ieithyddol.

Nod S4C yw bod yn gyrchfan ar gyfer cynnwys Cymraeg creadigol, gafaelgar a deniadol sydd ar gael i'w fwynhau ar amryw o lwyfannau yng Nghymru a thu hwnt.

Hanes S4C

Cyn sefydlu S4C, roedd rhai rhaglenni Cymraeg yn cael eu darlledu ar BBC 1 ac ITV.

Yn ystod y 1970au, fe benderfynodd llywodraeth Prydain y byddai pedwaredd sianel deledu yn cael ei sefydlu, i ymuno â BBC 1, BBC 2 ac ITV. Roedd y sianel newydd hon yn cael ei hystyried gan nifer yn gyfle ar gyfer dechreuad newydd ym maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Yn dilyn ymgyrchu dwys, sefydlwyd S4C gan Ddeddfau Darlledu 1980/1981.

Fe ddechreuodd S4C ddarlledu am 18:00 nos Lun, 01 Tachwedd 1982. I ddechrau, 22 awr o raglenni Cymraeg oedd yn cael eu darlledu bob wythnos, ochr yn ochr â rhaglenni Saesneg o wasanaeth Channel 4.

Heddiw, mae S4C yn sianel gyfan gwbl Gymraeg yn darlledu dros 115 awr o raglenni bob wythnos.

Mae prif swyddfa S4C yng Nghanolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin, ac mae gan S4C swyddfeydd yng Nghaernarfon, Gwynedd, ac yn Sgwâr Canolog, Caerdydd.

Prif Ffeithiau 2021-22



5.5 miliwn

Nifer y sesiynau gwyllo ar gyfrifon Hansh (ar draws Facebook, Twitter a YouTube)

17,400

oedd cynulleidfa S4C ar gyfartaledd yn yr oriau brig



8.4 miliwn

Nifer y sesiynau gwyllo ar draws holl sianeli YouTube S4C



300,000

o bobl yng Nghymru wedi gwyllo S4C ar deledu bob wythnos



366,300

Nifer yr oriau gwyllo ar draws holl sianeli YouTube S4C

9,800

o oriau gwyllo ar gyfer cynnwys mwyaf poblogaidd ar sianeli YouTube S4C: Cymru o'r Awyr

602,000

o bobl wedi gwyllo S4C ar deledu bob wythnos drwy'r DU



575,000

Nifer cyfartalog o weithiau bob dydd y gwelwyd cynnwys S4C (Facebook, Twitter ac Instagram)

271,935

o gofrestrwyr Clic erbyn diwedd 2021-22



21.3 miliwn

Nifer y sesiynau gwyllo ar draws holl gyfrifon Facebook S4C



688,100

o sesiynau gwyllo ar gyfer y cynnwys mwyaf poblogaidd ar gyfrifon Facebook S4C: 'Phil Mills & Viking Motorsports' Howard Davies yn y Garej



11.3 miliwn

o sesiynau gwyllo ar S4C Clic a BBC iPlayer

2.98 miliwn

o oriau gwyllo ar S4C Clic a BBC iPlayer

Rhodri Williams

Cyflwyniad y Cadeirydd



“
Mae disgwyliadau a sut mae'r gynulleidfa yn ymwneud â chynnwys darlledwyr yn sicr wedi newid yn sgil y pandemig, ac rydym yn S4C wedi gweld y newid hwn drwy'r cynnydd yn y gwyllo ar ystod o blatfformau dros y flwyddyn ddiwethaf.
”

Roedd 2021–22 yn gyfnod o newid unwaith eto i S4C. Fe barhaodd y pandemig i effeithio ar ein gweithgareddau ni a'r sector yn ehangach wrth i ni ymateb i newidiadau yng nghyfyngiadau Covid yn ystod y flwyddyn. Arweiniodd hyn wrth reswm at gynydd mewn costau cynhyrchu, ond rwy'n hynod ddiolchgar i'r sector am barhau i ymateb yn gyflym a chynnig ffyrdd amgen o gynhyrchu cynnwys o'r safon mae gwylwyr S4C yn ei ddisgwyl.

Mae disgwyliadau a sut mae'r gynulleidfa yn ymwneud â chynnwys darlledwyr yn sicr wedi newid yn sgil y pandemig, ac rydym yn S4C wedi gweld y newid hwn drwy'r cynnydd yn y gwyllo ar ystod o blatfformau dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae dros 271,000 bellach wedi cofrestru i wyllo ar S4C Clic, ac mae sesiynau gwyllo ar gyfer ein cynnwys ar Clic ac iPlayer yn tyfu tua 11.6% y flwyddyn rhyngdynt, gyda rhaglenni plant, chwaraeon a drama yn arwain y ffordd. Mae'n dda nodi bod 60% o'r gwyllo ar Clic ac iPlayer gan rai dan 55, a 35% o dan 35 oed. Mae'r platfformau hyn felly'n apelio at wylwyr sy'n iau na fyddai'n gwyllo S4C fel arall.

Mae'r defnydd o blatfformau gwyllo eraill hefyd yn cynyddu. Yn ystod 2021–22, gwylwyd 366,300 awr o gynnwys ar draws sianeli S4C ar YouTube – cynnydd o 13.5% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol – tra bu 688,100 o sesiynau gwyllo ar fideo Phil Mills a Viking Motorsport (Yn Y Garej gyda Howard Davies) ar Facebook. Parhau i gynyddu'r defnydd o'n cynnwys ar amrywiaeth o lwyfannau bydd y nod dros y blynyddoedd nesaf, a daw hyn yn fesur gwell o'n llwyddiant na'r defnydd o'n sianel llinol yn unig.

Roedd yr angen i esblygu, i gwrdd ag anghenion y gynulleidfa ar y platfform o'u dewis, yn greiddiol i gais S4C i'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) fel rhan o drafodaethau ffi'r drwydded ar gyfer y cyfnod o Ebrill 2022 ymlaen. O'r pwynt hwnnw, bydd S4C yn cael ei chyllido'n llwyr drwy ffi'r drwydded, ac rwy'n arbennig o falch i'r Ysgrifennydd Gwladol gadarnhau yn ystod Ionawr 2022 y bydd S4C yn derbyn £7.5m yn ychwanegol y flwyddyn fel rhan o'r setliad ffi'r drwydded newydd hwnnw tuag at ddatblygu ein harlwy ddigidol.

Mae'r setliad yma'n adlewyrchu ffydd y DCMS a'r Ysgrifennydd Gwladol yng ngweledigaeth S4C ar gyfer cyfnod y setliad ffi'r drwydded newydd. O ystyried yr hinsawdd economaidd mae'r setliad ariannol hwn yn rhoi sylfaen dda i S4C gynllunio ar gyfer y cyfnod nesaf. Rydym yn diolch i'r Ysgrifennydd Gwladol a'i swyddogion am broses adeiladol a phositif sydd wedi dangos cefnogaeth i uchelgais S4C. Rwy'n gweld yr arian ychwanegol fel buddsoddiad yn S4C a'r iaith Gymraeg a'r her i ni nawr yw dangos gwerth y buddsoddiad hwnnw.

Rwyf i a'r Bwrdd hefyd yn arbennig o ddiolchgar i Owen Evans am ei gyfraniad fel Prif Weithredwr S4C wrth arwain y trafodaethau gyda'r DCMS a gwneud yr achos dros fuddsoddi yn S4C i'r dyfodol. Arweiniodd Owen hefyd ar gytuno Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda Chymru Greadigol ddiwedd 2021, sy'n cynnig weledigaeth ar gyfer sector greadigol gynaliadwy ac arloesol yng Nghymru. Bydd S4C a Llywodraeth Cymru yn cyfrannu hyd at £1m y flwyddyn yr un tuag at ddatblygu ffilmiau yn y Gymraeg, ynghyd â chydweithio ar ddatblygu talent a sgiliau'n ehangach.

Ers Ionawr 2022, rydym yn falch i groesawu Siân Doyle fel Prif Weithredwr newydd S4C. Mae Siân yn arweinydd sydd â chyfoeth o brofiad mewn llunio a gweithredu strategaethau uchelgeisiol a llwyddiannus ac o ddeall a bodloni anghenion defnyddwyr. Rwyf i a'r Bwrdd yn ymddiried yn gyfan gwbl yng ngallu Siân i ddatblygu ar y seiliau cryfion a adawodd Owen, a manteisio ar y cyfleoedd y mae'r byd digidol yn creu.

Mae'r sicrwydd ariannol ar gyfer y cyfnod nesaf wedi cynnig cyfle i'r Bwrdd weithio gyda Siân a'r Tîm Rheoli i ddatblygu Strategaeth newydd ar gyfer y cyfnod o Ebrill 2022 ymlaen. Mae Siân yn crybwyll prif flaenoriaethau'r Strategaeth yn ei chyflwyniad i'r Adroddiad Blynyddol hwn. Dros y misoedd nesaf, byddwn yn cytuno ar fesur ychydig addas ar gyfer mesur cyflawniad y Strategaeth, a dyma fyddwn ni'n adrodd yn eu herbyn yn yr Adroddiadau Blynyddol ar gyfer 2022–23 ymlaen.

Mae Bwrdd Unedol S4C yn parhau i weithredu fel un cysgodol tra ein bod yn aros am gyfle i'r DCMS gyflwyno deddfwriaeth er mwyn ffurfioli'r ffordd newydd o weithio. Ein gobaith yw y bydd y ddeddfwriaeth pan ddaw hefyd yn ein galluogi i gwblhau cyflawni nifer o'r argymhellion eraill wnaeth y diweddar Ewryng O'gwen Williams yn ei Adolygiad Annibynnol o S4C ym Mawrth 2018.

O ran aelodaeth y Bwrdd Unedol, fe ffarwelion ni gyda Hugh Hesketh-Evans a Siân Lewis fel aelodau anweithredol yn ystod 2021–22. Rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am eu cyfraniadau i S4C dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i staff S4C am yr holl waith yn ystod y flwyddyn. Mae'r Bwrdd yn gwerthfawrogi eu hymdrechion parhaol i sicrhau bod S4C yn gwasanaethau'r gynulleidfa yn ystod y cyfnod hwn.

Siân Doyle

Cyflwyniad y Prif Weithredwr

Mae'n fraint arbennig cael ymuno â tîm S4C ar gyfnod mor allweddol yn hanes y darlledwr. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn holl bwysig i osod sylfeini ar gyfer y dyfodol wrth i ni ddod allan o'r pandemig. Mae'r dirwedd wedi newid mor gyflym gydag arferion gwyllo ein cynulleidfa wedi esblygu i gofleidio twf gwasanaethau fideo ffrydio, ac mae'r gystadleuaeth ar gyfer amser y gwylwyr mor ffyrnig ag erioed.

Mae'r cynnwys oedd yn draddodiadol i'w weld ar wasanaeth llinol ar y set deledu bellach wedi esblygu i blatfformau amrywiol. Ein her yw denu a chadw gwylwyr ymysg y cenedlaethau iau, sydd wedi eu magu i fod yn gyfarwydd â ffonau clyfar, cyfryngau cymdeithasol, a gemau fideo, sydd i gyd yn cynnig profiadau sydd yn gymdeithasol, yn rhyngweithiol ac yn cynnig cyfle i ymgolli.

Ond hyd yn oed gyda'r dirwedd gwyllo yn newid o flaen ein llygaid, mae ein cynulleidfa helaeth yn dal i wyllo darlledu byw yn ystod ein horiau brig rhwng 7yh a 10yh. Er bod nifer y gwylwyr ar gyfer teledu llinol byw yn lleihau bob blwyddyn – yn enwedig ymysg gwylwyr iau – mae awch am ddarpariaeth cynnwys uchelgeisiol a safonol yn dal i fodoli.

Ond dydy tueddiadau cynulleidfaoedd S4C ddim yn wahanol i ddarlledwyr y DU ac yn wir y byd – mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gyd wedi cyhoeddi gostyngiad yn eu cynulleidfa sydd yn gwyllo yn fyw, ac yn gweld gwyllo yn mudo tuag at lwyfannau ar alw a digidol.

Wrth edrych ar y flwyddyn a fu, hoffwn longyfarch a dweud diolch diffuant i'r tîm yn S4C ac i'r sector gynhyrchu am eu hymroddiad i barhau i ddarparu gwasanaeth i gynulleidfa Cymru drwy'r pandemig. Wrth i ni symud ymlaen o'r cyfnod hwn, ac wrth i'r byd darlledu newid mor gyflym, rydym yn S4C yn gyffrous fel tîm i wynebu'r heriau gyda'n strategaeth newydd ar gyfer 2022-27.

Daeth cadarnhad ddechrau'r flwyddyn o'r setliad ariannol y bydd S4C yn ei dderbyn trwy ffi'r drwydded ar gyfer y cyfnod 2022-28. Rwy'n hynod o ddiolchgar i'm rhagflaenydd, Owen Evans, am wneud yr achos dros gynyddu cyllideb S4C ac i'r DCMS am eu cefnogaeth. Gyda'r setliad nawr yn ei le, rydym yn medru gweithio gyda'n gilydd a'n partneriaid i wireddu ein strategaeth newydd – ac rydym wedi paratoi cynllun gwaith i drawsnewid ein gweithgareddau i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni anghenion ein cynulleidfa yn y dyfodol.

Mae ein pwrpas fel darlledwr yng Nghymru mor bwysig ag erioed. Mae S4C yn hanfodol i lwyddiant yr iaith Gymraeg, i helpu'r Gymraeg a diwylliant Cymru i ffynnu; ac fel darlledwr, mae'n rhan annatod o lwyddiant yr iaith.

Wrth gymeradwyo ein setliad ariannol, rwy'n hynod o ddiolchgar i'r Ysgrifennydd Gwladol am gadarnhau bod gan S4C ddyletswydd i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i gyfrannu at gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a dyblu'r niferoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg yn fwy cyffredinol. Byddwn yn cefnogi 'cynlluniau addysg' a 'siaradwyr newydd' drwy ein cynnwys dros y cyfnod nesaf, ac mae ein cyfraniad yn ganolog i uchelgais Llywodraeth Cymru. Mae'n bwysig felly ein bod yn sicrhau bod ein gwasanaeth yn amrywiol a hygyrch, er mwyn adlewyrchu poblogaeth Cymru, a chyrraedd aelwydydd sy'n llai cyfarwydd â'r iaith.

Bydd gennym strategaethau allweddol ar waith i ganolbwyntio ar gynnwys a darpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg newydd a byddwn yn gweithio'n ddifflino gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i ddatblygu'r agenda i gynorthwyo siaradwyr Cymraeg newydd. Mae llwyddiannau allweddol rhaglenni fel iaith ar Daith, lle mae seleds yn mynd ar daith car i ddysgu'r iaith, a Hei Hanes! yn enghreifftiau o gynnwys wedi'u targedu at oedolion a phlant fel cymorth ac adnodd i siaradwyr newydd i'r iaith Gymraeg.

Mae'n rhaid i S4C wneud yn siŵr ein bod yn cynnig cartref i bawb – waeth pwy ydy'r unigolion a'u gallu ieithyddol yn y Gymraeg. Mae S4C yn cynrychioli Cymru lle mae'r iaith yn perthyn i bob un ohonom, ac yn uno ein cenedl trwy ein cynnwys.

Ers 40 mlynedd, mae S4C wedi darparu cartref ar gyfer adloniant Cymraeg ac rydym yn falch iawn ein bod wedi parhau i ddod â digwyddiadau allweddol i gynulleidfaoedd Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf, a bod ein cynnwys o safon sy'n ennill gwobrau rhyngwladol.

Mae nifer o raglenni gwreiddiol a newydd, a ddatblygwyd yma yng Nghymru ar gyfer S4C, wedi ennill gwobrwyon ac wedi cael eu hallforio ledled y byd dros y flwyddyn ddiwethaf:

- Am Dro, sef fformat poblogaidd gyda phedwar o unigolion sy'n hoff o gefn gwlad yn darganfod llwybrau a lleoliadau gorau Cymru ac yn cystadlu i arddangos eu hoff lecynnau lleol, sydd wedi ei werthu i dros chwe gwlad yn Ewrop yn ogystal â BBC Two.

- Gwesty Aduniad, sef rhaglen lle mae pobl yn dod yn ôl at ei gilydd mewn gwesty, gan uno unigolion â'u gorffennol, sydd bellach yn cael ei gynhyrchu ar gyfer darlledu ar rwydwaith y BBC.

- Tŷ am Ddim, cyfres sy'n rhoi tŷ am ddim i ddau berson i'w adnewyddu am 6 mis, sy'n gyd-gynhyrchiad gyda Channel 4 a enillodd dair gwobr yn ystod 2021-22 gan gynnwys y 'Rhoglen Ddydd Orau' yng ngwobrau Broadcast, RTS, a BAFTA yn erbyn cyfresi fel This Morning.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu ein gwasanaeth newyddion ac ein Ap Newyddion digidol, yn cwrdd ag anghenion cynulleidfa Cymru drwy ddarparu gwybodaeth amserol a herio barn. Gwelsom ddogfennau arloesol oedd yn cynnig mewnwelediad arbennig wrth i ni ddilyn Prif Weinidog a Gweinidog Iechyd Cymru yn arwain ymateb Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig. Enillodd y rhaglen ddogfen Prif Weinidog mewn Pandemig wobwr yng Ngŵyl y Cyfryngau Celtaidd 2022.

Mae drama yn genre hanfodol i S4C, ac mae gennym draddodiad o greu drama sydd gyda'r gorau yn y byd. Rydym yn llwyddo i ddenu cynulleidfaoedd newydd o bob cwr o'r byd i S4C trwy'n cyfresi drama, ac roedd hi felly'n dda gweld cynnydd yn yr oriau drama a ddarlledwyd yn ystod 2021-22. Bu cynhyrchiad Boom o'r Amgueddfa yn arbennig o lwyddiannus, ac fe gafod ei werthu i BritBox yn yr Unol Daleithiau a Chanada, a sianel AXN yn Siapan.

Mae ein cynnwys i blant yn rhan annatod o'n harlwy. Roedd y ffilm Nadolig Mabinogi-ogi, a Deian a Loli – Dygwyl y Meirw dros ŵyl Calan Gaeaf yn uchafbwyntiau amlwg. Mae cynnwys Cyw yn rhan bwysig o gwricwlwm addysg plant bach ac roeddem yn falch iawn o gymryd rhan mewn peilot arloesol gyda Chyngor Sir Gâr a Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynlluniau ar sut gall ein cynnwys plant gefnogi'r iaith Gymraeg mewn ysgolion.

Enwebwyd ffilm fer a ddarlledwyd ar S4C dros gyfnod y Nadolig 2021, Y Cythraul Celf, am Oscar yng nghategori'r Ffilm Fer Animeiddiedig Orau. Enillodd hefyd yn y categori animeiddio yn yr Ŵyl Cyfryngau Celtaidd 2022. Wedi ei chyfarwyddo gan Joanna Quinn mae'r ffilm eisoes wedi ennill amryw o wobrau led-led y byd. Bydd ffilm yn rhan bwysig o'n cynlluniau yn y blynyddoedd nesaf gyda phartneriaeth werthfawr gyda Cymru Greadigol i greu S4C:Ffilm, a fydd yn canolbwyntio ar ddatblygu ffilm bob blwyddyn a meithrin talent newydd.

Un o gonglfeini S4C yw ein harlwy chwaraeon, ac rydym yn falch iawn ein bod wedi sicrhau hawliau arbennig i ddarlledu ystod eang o wahanol chwaraeon ar S4C dros y blynyddoedd diwethaf. Darlledwyd 437 awr o chwaraeon ar S4C yn ystod 2021-22, gyda phob un o'r gemau rygbi chwe gwlad a ddarlledwyd â chyrhaeddiad o dros 100,000 yr un, gyda dros 10,000 o sesiynau gwyllo yr un ar Clic a'r iPlayer.

Bu cynhyrchu'r cynnwys a welom yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn heriol yn sgil y pandemig, a hoffwn ddiolch i'n holl bartneriaid a gefnogodd S4C a'r gynulleidfa yn ystod y cyfnod hwn drwy barhau i greu a chynhyrchu rhaglenni a chynnwys unigryw yng Nghymru. Edrychwn ymlaen at weithio gyda'n partneriaid arloesol a chefnogol i greu cynnwys beiddgar a chyffrous dros y cyfnod nesaf.

Mae dod i adnabod ein cynulleidfaoedd yn well drwy gwrdd a gwrandao armynt, a defnyddio data'n well, yn un o'n blaenoriaethau pennaf dros y blynyddoedd nesaf. Ein bwriad yw darparu cynnwys i bawb ar ba bynnag lwyfan a ddewisir ganddynt, ac sy'n fwyaf addas i'w hanghenion.

Yn ystod 2021-22 fe welwyd dirywiad o 5% yn y gynulleidfa a wylodd S4C trwy'r teledu, wrth fesur yn ôl ein dull traddodiadol o gyrhaeddiad wythnosol. Mae hyn yn cymharu â gostyngiad o 10% mewn cyrhaeddiad wythnosol ar gyfartaledd ar draws y pum darlledwr gwasanaeth cyhoeddus arall yn y DU. O ran gwylwyr rhwng 25 a 44 oed, profodd S4C ostyngiad mewn cyrhaeddiad wythnosol o 10%, o'i gymharu â gostyngiad o 22% ar gyfartaledd ar draws y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill.

Fodd bynnag, rydym wedi gweld cynnydd cyffredinol yn ein cynulleidfaoedd sy'n defnyddio ein gwasanaethau dal i fyny, gyda chynnydd o ryw 11.6% y flwyddyn yn y sesiynau gwyllo ar Clic ac iPlayer. Wrth i ni gynyddu ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol, gwelsom y twf o 13% yn yr oriau a wylwyd ar draws sianeli S4C ar YouTube yn ystod 2021-22. Byddwn yn cynyddu ein buddsoddiad yn y llwyfannau gwyllo newydd, ac yn cyflwyno dulliau newydd o fesur y niferodd sy'n troi at S4C ar y llwyfannau hynny.

Wrth i ni barhau i symud tuag at gyhoeddi ar wahanol lwyfannau a gwasanaethau gwyllo newydd, byddwn yn adolygu ein mesuryddion i sicrhau ein bod yn deall y tueddiadau gwyllo diweddaraf, er mwyn caniatáu i ni dargedu a phersonoli ein cynnwys i'r gynulleidfa briodol. Mae ein gwasanaeth ar gyfer pobl ifanc 16 i 24 oed, Hansh, yn enghraifft o sut mae'r trywydd hwn eisoes yn llwyddo gan i ni gyhoeddi 37 awr o gynnwys yn ystod 2021-22, gyda chynnydd cyson yn y nifer sy'n gwyllo cynnwys Hansh o flwyddyn i flwyddyn.

Yn ogystal â hyn, llwyddodd prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol S4C ar draws Facebook, Twitter a YouTube sicrhau eu horiau gwyllo uchaf erioed yn 2021-22, gan gofnodi cynnydd o 42% blwyddyn ar flwyddyn.

Tra bod ein gwasanaeth llinol yn dal i fod yn bwysig, mae ond yn un llwyfan o blith nifer y mae cynulleidfa S4C yn eu defnyddio. Mae'r gyfres Pen Petrol (a gynhyrchwyd gan Rondo) yn esiampl o gynnwys aml-lwyfan a gyhoeddwyd yn wreiddiol ar ein llwyfan YouTube, ac a ail-gyhoeddwyd yn llinol, gan gyrraedd cynulleidfaoedd gwahanol ar y ddau lwyfan.

Mae ein cynulleidfa wrth wraidd pob penderfyniad a wnawn, ac rydym am fod mewn cyswllt rheolaidd â'n cynulleidfa fel y gallwn greu, comisiynu a churadu ein cynnwys i gwrdd ag anghenion y gynulleidfa.

Dros y blynyddoedd nesaf, wrth wireddu ein strategaeth newydd i'r dyfodol. Byddwn yn sicrhau bod S4C yn gartref i bawb, waeth pwy ydyn nhw neu a ydyn nhw'n siarad yr iaith Gymraeg neu beidio; ac yn hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant ar draws pob math o aelwydydd. Mae S4C yn cynrychioli Cymru lle mae'r iaith yn perthyn i bob un ohonom. Bydd ein rhaglenni yn cynnig rhywbeth i bawb, ac yn eu gwneud ar gael i bawb drwy ddefnyddio dulliau megis is-deitlo sy'n ei gwneud hi'n haws i wylwyr newydd yng Nghymru a thu hwnt fwynhau ein cynnwys. Byddwn yn canolbwyntio ar gynyddu is-deitlau Cymraeg a Saesneg ar draws S4C, fel gall unrhyw un fwynhau ein cynnwys, beth bynnag eu cefndir.

Wrth inni edrych at y dyfodol, byddwn yn parhau i ddod â chynnwys beiddgar i Gymru ac adlewyrchu prif ddigwyddiadau o Gymru i boblogaeth Cymru a thu hwnt. Rydym am i S4C fod yn gartref i brofiadau cenedlaethol Cymru, gyda'n cynnwys yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol, gan helpu'r Gymraeg i ffynnu yng Nghymru, y DU a'r farchnad fyd-eang.

Mae'n sicr yn gyfnod cyffrous i S4C – yn enwedig wrth i ni baratoi i ddathlu 40 mlynedd ers ein sefydlu fel unig sianel genedlaethol Cymru. Rwy'n edych ymlaen yn fawr at weithio gyda fy nghydweithwyr, Bwrdd Unedol S4C, a'n partneriaid allweddol, i arwain S4C i'r cyfnod nesaf yn ei hanes.

“
Mae ein cynulleidfa wrth wraidd pob penderfyniad a wnawn, ac rydym am fod mewn cyswllt rheolaidd â'n cynulleidfa fel y gallwn greu, comisiynu a churadu ein cynnwys i gwrdd ag anghenion y gynulleidfa.
”

Cyfraniad Cymdeithasol S4C

Ers ei sefydlu yn 1982, mae S4C wedi bod yn ymwybodol iawn o'i chyfraniad i Gymru ac yn ehangach.

Fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, mae gennym gyfrifoldeb a swyddogaeth bwysig fel hwylusydd a galluogwr, gan ddefnyddio ein hadnoddau i ddod â'r budd mwyaf i'n gwylwyr a'r gymdeithas yn ehangach.

Drwy weithio gydag amryw o bartneriaid, rydym yn gweithio'n galed i gyfrannu at ddyfodol iaith, diwylliant, amgylchedd ac economi Cymru.

Partneriaid allweddol

Fel darlledwr cenedlaethol Cymru, mae gweithio mewn partneriaeth gydag eraill yn bwysig i S4C. Yn ystod y cyfnod, rydym wedi parhau i weithio gyda sefydliadau eraill yng Nghymru i sicrhau gwerth cymdeithasol i Gymru a'r gynulleidfa wrth i ni gyflawni ein dyletswyddau fel darlledwr.

Rydym yn arbennig o falch o'n partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru ar draws nifer o feysydd.

Fis Rhagfyr 2021, cyhoeddwyd memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda Cymru Greadigol, corff mewnol Llywodraeth Cymru i gefnogi'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Mae'r memorandwm yn amlinellu sut bydd y ddau barti yn cydweithio'n strategol i sicrhau gwerth ychwanegol ar gyfer y sector sgrin Cymraeg ar draws meysydd fel twf economaidd, datblygu talent, gwella proffil a phortread Cymru a hyrwyddo'r Gymraeg. Un o'r prif elfennau yw cynllun i gefnogi ffilmiau Cymraeg ac mae hwn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Rydym hefyd wedi cydweithio gyda Llywodraeth Cymru o gwmpas yr amcan o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gan gynnwys trwy Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg sydd yn dod â sefydliadau Cymraeg at ei gilydd i weithio'n strategol. Mae hyn wedi cynnwys bwydo i'r gwaith o gefnogi a gwella cynrychiolaeth yn y Gymraeg, gyda S4C yn arwain ar elfennau o'r gwaith drwy ei Swyddog Amrywiaeth a Chynhwysiant – swydd a grëwyd gan S4C yn 2020 fel rhan o ymrwymiad y darlledwr i adlewyrchu Cymru heddiw ar y sgrin a thu ôl i'r camera.

Mae ein partneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd yn un bwysig iawn i S4C, ac yn ffordd glir i ni weithio i gyflawni un o amcanion setliad ffi'r drwydded Ionawr 2022 o gefnogi'r nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Unwaith eto yn 2021-22, fe gefnogwyd Clwb Cwtsh, cynllun Mudiad Meithrin i gyflwyno'r Gymraeg i rieni neu gofalwyr plant bach a hynny drwy ein cynnwys Cyw. Bu partneriaeth yn greiddiol i lwyddiant cynllun peilot Croeso Cyw yn Sir Gaerfyrddin, gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Gâr ac eraill yn cydweithio am y tro cyntaf i gefnogi trosglwyddiad iaith. Ein gobaith yw y bydd hwn yn fodel y gellir ei dyfu a'i ddefnyddio eto.

Ac mae partneriaethau ehangach, gan gynnwys BAFTA Cymru a'r Royal Television Society, wedi dod â chynnwys S4C i gynulleidfaedd eang hefyd.


Mae S4C yn parhau yn aelod o'r Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol (Creative Diversity Network neu'r CDN) gyda'r nod o gydweithio i gynyddu a sicrhau amrywiaeth a chynrychiolaeth yn y sector a'n cynnwys.

Mae gwneud y defnydd gorau o'n cynnwys hanesyddol hefyd yn bwysig i ni. Ym mis Medi 2021, cyhoeddwyd cytundeb rhwng S4C a Llyfrgell Genedlaethol Cymru i drosglwyddo rhaglenni'r sianel i'r Archif Ddarlledu Genedlaethol. Mae'r archif hon yn gofnod pwysig o hanes y genedl ac yn ffynhonnell sydd yn dangos datblygiad yr iaith Gymraeg a darlledu yng Nghymru. Dyma'r Archif Ddarlledu Genedlaethol gyntaf o'i bath ym Mhrydain ac rydym yn falch y bydd rhaglenni S4C a ddarlledwyd ers lansio'r sianel 1982 yn cael eu diogelu, a'u mwynhau, fel rhan ohoni.

S4C a'r Amgylchedd

Rydym:

- Wedi ffurfio partneriaeth gydag albert, ac yn gweithio gyda'r cwmnïoedd sy'n cynhyrchu cynnwys i ni i fod yn gynaliadwy a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.
- Wedi ymrwmo i'r Addewid Cynnwys Hinsawdd, i ddefnyddio ein cynnwys i ysbrydoli a llywio dewisiadau cynaliadwy ymysg ein cynulleidfa.
- Yn gweithio i leihau effeithiau amgylcheddol gweithgareddau mewnol S4C.



Byd o Wahaniaeth

Mae'n holl bwysig fod cynaliadwyedd amgylcheddol yn rhan annatod o'r ffordd y mae rhaglenni S4C yn cael eu cynhyrchu.

Mae gennym ddyletswydd i sicrhau ein bod yn cadw ein heffaith amgylcheddol mor isel â phosibl. Ein nod yw gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu ac annog y cynhyrchwyr rydym yn gweithio â nhw i roi blaenoriaeth i'r amgylchedd tra'n cynhyrchu rhaglenni.

BAFTA albert

Ers Medi 2021, mae gan S4C bartneriaeth gyda chonsortium BAFTA albert, sef cymdeithas o rai o gwmnïau cynhyrchu a darlledwyr mwyaf y DU er mwyn cyflawni hyn, ac ymgorffori cynaliadwyedd yn ein proses gynhyrchu drwy:

- Wneud cwblhau cyfrifiannell ôl troed carbon albert yn orfodol ar yr holl gynnwys a gomiysynir gennym; a
- Mynd ati i annog cynrychiadau i gwblhau proses ardystio albert ar gyfer eu cynrychiadau.

Daeth yn orfodol o 01 Ionawr 2022 i gwmnïoedd sy'n cynhyrchu cynnwys i S4C gydymffurfio gyda'r gofynion uchod (heblaw bod y cynhyrchiad yn gyfres dan 15 munud o hyd a / neu bod cyfanswm y gyllideb yn llai na £50,000).

Mae cynrychiadau sy'n gymwys yn cael defnyddio logo albert.

Mae'r consortium BAFTA albert hefyd yn cynnig hyfforddiant am ddim sy'n cwmpasu darlun mawr newid yn yr hinsawdd, ei oblygiadau i'r diwydiant teledu a'r hyn y gall unigolion ei wneud er mwyn gwneud gwahaniaeth.

Yr Addewid Cynnwys Hinsawdd

Roedd S4C yn un o 12 o ddarlledwyr a ffrydiwyr ddaeth ynghyd yn ystod Tachwedd 2021 i ymrwmo i'r Addewid Cynnwys Hinsawdd, oedd wedi ei drefnu gan albert. Dyma oedd y tro cyntaf i'r diwydiant weithio ar y cyd ar ddatganiad o'r fath.

Mae S4C a'r llofnodwyr eraill – sy'n cynnwys y BBC, BBC Studios, Britbox International, Channel 4, Channel 5 / ViacomCBS, Discovery UK and Eire, ITV, RTE, Sky, STV, ac UKTV – wedi ymrwmo i ddefnyddio ein cynnwys i helpu cynulleidfa oedd i ddeall beth allai mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ei olygu iddynt hwy, yn ogystal ag ysbrydoli a llywio dewisiadau cynaliadwy.

Gweithgareddau mewnol

Oddi ar y sgrîn, mae S4C yn gweithio i leihau effaith ein gweithgareddau corfforaethol ar yr amgylchedd.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cymryd camau i leihau teithio ble nad oes angen, a chynyddu'r defnydd o fideo-gynadleda. Anogir y defnydd o drafnidiaeth cyhoeddus cymaint â phosibl.

Yn ystod 2021-22, daeth 88% o'r trydan a ddefnyddiwyd gan S4C yn yr Egin o ffynonellau adnewyddadwy. Ymhellach, ailgylchwyd mwyafrif gwastraff ein swyddfeydd yn ystod yr un cyfnod.

Mae S4C wedi paratoi Adroddiad Cynaliadwyedd ar wahân, sy'n ymddangos yn adran 'Adroddiadau Gweithredol' yr Adroddiad Blynyddol hwn.

Mae grŵp o staff S4C sy'n cynrychioli trawstoriad o wahanol adrannau bellach yn arwain ar ddatblygu polisi i leihau effeithiau amgylcheddol gweithgareddau mewnol S4C.

S4C – Rhoi Llwyfan i'r Gymraeg

Rydym:

- Yn chwarae rôl flaengar yn nhwf yr iaith Gymraeg, ac yn cefnogi amcan Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Yn gweithio mewn partneriaeth strategol gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a phartneriaid eraill.



Ers 1982, mae'r iaith wedi bod yn greiddiol i fodolaeth S4C ac yn ganolbwynt allweddol i'w holl ddarpariaeth. Mae'r rôl hollbwysig y mae S4C yn ei chwarae o ran cynnal a hyrwyddo'r Gymraeg wrth galon ei diben cyhoeddus unigryw.

Mae S4C yn cynnig y cyfle i glywed a mwynhau'r Gymraeg ar draws pob genre gyda chynnwys sy'n amrywio o Cyw – ein ffrwd cyn-ysgol, i Stwnsh, a Hansh – ein brand ieuencid ar-lein, ynghyd â drama, chwaraeon, newyddion, adloniant, rhaglenni ffeithiol, ffydd a mwy. Nid oes darlledwr arall yn comisiynu ac yn creu cynnwys fel S4C ac mae ein bodolaeth yn sicrhau nad yw cynnwys Cymraeg yn cael ei alltudio i gorneli tywyll yr amserlen ddarledu.

Ym mis Ionawr 2022, daeth newyddion calonogol am ddyfodol y gwasanaeth gyda chyhoeddiad setliad ffi'r drwydded sy'n weithredol o Ebrill 2022. Mae'r setliad ariannol hwn yn caniatáu S4C i chwarae rôl fwy blaenllaw yn y nod o filiwn o siaradwyr, ac mae cefnogi'r gynulleidfa – lle bynnag maen nhw ar eu taith ieithyddol – yn greiddiol i'n strategaeth newydd ni. Mae cynnwys S4C, sy'n rhoi cyfle i glywed a mwynhau'r Gymraeg ar draws llwyfannau gwahanol yn hanfodol i ffyniant yr iaith.

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth strategol gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar ddatblygu cynnwys sydd yn addas ar gyfer dysgwyr. Mae ffrwyth y bartneriaeth yma i'w gweld ar y sgrin ac yn y stôr o adnoddau i gefnogi dysgwyr sydd ar gael ar-lein.

Un o'r uchafbwyntiau eleni eto oedd y gyfres hynod boblogaidd iaith ar Daith sydd yn cyflwyno'r Gymraeg i gynulleidfaoedd newydd a hybu'i defnydd. Bu nifer o'r seibs a'u mentoriaid – gan gynnwys Kate Bottley a Jason Mohammad, Richard Parks a Lowri Morgan – yn creu bwrlwm ynghylch y gyfres cyn i'r gyfres gychwyn darlledu fis Ebrill 2022.

Adlewyrchu Cymru – yn ei holl amrywiaeth

Rydym:

• Yn gweithio gyda'r sector i sicrhau ein bod yn adlewyrchu ein cymunedau yn eu holl amrywiaeth, gan annog cydraddoldeb a chynhwysiant.

• Yn datblygu targedau amrywiaeth a chynrychiolaeth clir, yn fewnol ac ar draws ein cynrychiadau.



Mae'n hanfodol bod S4C yn portreadu ac yn dathlu Cymru yn ei holl amrywiaeth ac mae gweithio tuag at hyn yn parhau yn flaenoriaeth i S4C. Mae'r gynulleidfa yn gweld hyn yn agwedd bwysig o waith S4C.

Mae 59% o wylwyr sy'n siarad Cymraeg o'r farn fod S4C yn sianel sy'n llwyddo i adlewyrchu amrywiaeth y bobl sy'n byw yng Nghymru o ran oed, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu ethnigrwydd ar draws ei raglenni yn ystod 2021–22 (Ffynhonnell: Arolwg Tracio Delwedd S4C o wylwyr sy'n siarad Cymraeg, Beaufort Research, 2022). Er fod y ffigur yma ychydig yn is na'r un ffigur y llynedd, rydym yn falch bod S4C yn parhau i sgorio'n uwch nag unrhyw ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus arall yng Nghymru ac rydym wedi ymrwmo i wella ein perfformiad yn erbyn y mesurydd hwn dros y flwyddyn nesaf.

Mae S4C yn ymrwmo i gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a chynrychiolaeth teg

Er mwyn i S4C barhau i wasanaethu a thyfu ei chynulleidfa, yn ogystal â chyfrannu at sector darlledu cryf, mae'r ymrwymiad hir-dymor i sicrhau fod cynrychiolaeth ar y sgrin a thu ôl i'r camerâu yn parhau ac yn holl bwysig.

Mae gan S4C nifer o strategaethau sy'n cyfrannu at y gwaith yma, gan gynnwys strategaeth amrywiaeth a strategaeth hyfforddiant, ac mae amrywiaeth a chynrychiolaeth yn gonglfaen hanfodol o Strategaeth 2022.

Yn ystod 2021–22, cymeradwywyd Adlewyrchu Cymru, strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant newydd S4C fydd yn cael ei gweithredu o 2022–23.

Yn ystod 2021–22:

• Bu gwaith parhaol yn fewnol i S4C yn sicrhau ei bod yn weithle cynhwysol, gan gynnwys: ymuno â chynlluniau cyflogwyr er mwyn cefnogi prosesau recriwtio a diweddarau polisïau; dechrau ar hysbysebu swyddi'n ehangach; a datblygu'r rhwydwaith staff Agored sy'n cynnal ddigwyddiadau misol a chyfathrebu mewnlol ar faterion cynhwysiant ac amrywiaeth.

• Mae ein partneriaeth hyfforddiant gyda Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) yn parhau ac yn pwysleisio'r angen i gynnig hyfforddiant ar faterion amrywiaeth a chynhwysiant i'r sector yn eang.

• Mae gwasanaeth Hansh yn parhau i gynnig plattform i bobl ifanc Cymru ac yn ystod 2021 cynhaliwyd y cynllun Medru Hansh er mwyn datblygu sgiliau a chynnig plattform i amryw o bobl ifanc anabl neu Fyddar. O'r cynllun daeth cynnwys penodol gan grewyr newydd, gan gynnwys sefydlu'r Probcast. Mae'r cynllun wedi derbyn sylw cadarnhaol ac yn cael ei ddatblygu i'r dyfodol.

• Mae'r gyfres ffeithiol Drych wedi parhau i adrodd straeon amrywiol am Gymru, gan gynnwys ffilm am geiswyr lloches yng Nghymru, a ffilm am brofiad person ifanc o anabledd a rhyw.

• Mae'r gyfres Curadur wedi rhoi sylw i'r amrywiaeth enfawr o gerddoriaeth sydd i'w gael yng Nghymru, a chyfresi adloniant wedi parhau i gynrychioli cyfranwyr o hyd a lled Cymru.

• Ymysg cynnwys cyffrous i blant mae cyfresi fel Oli Wyn a Pablo wedi rhoi sylw arbennig i niwroamrywiaeth drwy gynnig cynnwys sy'n gynhwysol o brofiadau plant ag awtistiaeth.

Mae S4C yn parhau i ymrwmo i symudedd cymdeithasol, ac mae nifer o bartneriaethau, gan gynnwys gyda Chynghrair Sgrin Cymru, Gyrfa Cymru, Llenyddiaeth Cymru, Theatr Genedlaethol Cymru, a'r Urdd yn cefnogi datblygiad sgiliau a chyfleoedd i unigolion o amryw gefndiroedd gan gynnwys rhai difreintiedig.

Cynnwys Addysgiadol

Rydym:

- Yn darparu cynnwys i gefnogi dysgwyr ar bob lefel.
- Yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i ddatblygu cynnwys addysgiadol i gefnogi'r cwricwlwm yng Nghymru.
- Yn bartneriaid gyda'r Ganolfan Dysgu Gymraeg Cenedlaethol, sy'n ein cyngori ar y defnydd iaith yn ein cynnwys fel bod y rhai sy'n dysgu yn cael y budd mwyaf ohonynt.



Mae pob darn o gynnwys S4C yn cefnogi gwahanol garfanau o'r gynulleidfa wrth reswm. Ond golyga swyddogaethau S4C fel y gwasanaeth cynnwys cyhoeddus Cymraeg y gallwn wneud gwaith penodol i gefnogi hefyd – yn enwedig cynnwys addysgiadol.

Yn ystod 2021-22, rydym wedi parhau i gynyddu'r nifer o raglenni S4C sydd ar gael ar HWB – llwyfan dysgu Llywodraeth Cymru – fel bod modd i ddisgyblion ac athrawon ddefnyddio'n cynnwys ni mewn gwersi ac wrth ddysgu. Bydd cynnwys S4C (Y Gwyll ac Y Weithred) hefyd yn rhan o'r fanyleb TGAU Cymraeg o eleni ymlaen a hynny yn deillio o bartneriaeth gyda Chyd-Bwyllgor Addysg Cymru.

Ddechrau 2021, gweithredwyd Croeso Cyw, cynllun peilot rhwng S4C, Cyngor Sir Caerfyrddin, Moilin, Say Something in Welsh, a Slam Media; gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru. Bwriad y cynllun oedd defnyddio brand Cyw i helpu caffael iaith plant oed sylfaen, gan ddefnyddio gweithgareddau ar wahanol lwyfannau a wyneb yn wyneb er mwyn cyrraedd rhieni/gofalwyr y plant. Gweithiodd dwy athrawes gydag S4C ar y cynllun, gan ymweld ag ysgolion yn rheolaidd i gefnogi'r athrawon i ddefnyddio a datblygu adnoddau Cyw a dulliau dysgu drwy chwarae. Bu'r peilot yn llwyddiannus ac rydym yn ei werthuso cyn penderfynu sut y gallwn weithredu'r model yn y dyfodol.

Ar gyfer dysgwyr hŷn, rydym wedi parhau i weithio gyda'r Ganolfan Dysgu Gymraeg Cenedlaethol, gyda'r Ganolfan yn parhau i gynghori ar y defnydd iaith yn ein rhaglenni fel bod y rhai sy'n dysgu yn cael y budd mwyaf ohonynt. Mae'r Ganolfan yn creu rhai adnoddau i gyd-fynd gyda chynnwys S4C, ac mae adran arbennig gennym ar Clic yn hafan i'r rhaglenni sydd yn benodol yn cefnogi dysgu. Rydym yn trafod gyda'r Ganolfan sut bydd y berthynas hon yn gweithio'n y dyfodol ac yn edrych i weithio'n fwy effeithiol i gefnogi siaradwyr newydd drwy gynnwys S4C.



Cefnogi'r economi ar draws Cymru

Rydym:

• Yn cefnogi cwmnïoedd cynhyrchu ar draws Cymru.

• Wrthi'n paratoi i ddatblygu strategaeth fasnachol newydd yn ystod 2022-23.

• Yn gweithio i adnabod marchnadoedd amgen.

Ochr yn ochr â'n heffaith ddiwylliannol, mae S4C yn cael effaith economaidd sylweddol ar economi Cymru.

Buddsoddir bron i 80% o gyllid cyhoeddus S4C mewn rhaglenni a chynnwys, sy'n cynrychioli buddsoddiad yn y gwasanaethau a ddarperir i'r gynulleidfa a buddsoddiad yn y sector cynhyrchu yng Nghymru. Rydym yn buddsoddi ac yn comisiynu ein cynnwys traws-lwyfan gan gwmnïau cynhyrchu ledled Cymru ac mae cwmnïau ein cadwyn gyflenwi yn eu tro yn chwarae rhan bwysig yn eu heconomiâu lleol.

Effaith Economaidd

Ym mis Rhagfyr 2020, comisiynodd S4C cwmni ymchwil Arad i adolygu gwariant S4C yn ystod 2019-20 a chynnal asesiad effaith economaidd ar gyfraniad S4C i economi'r DU a Chymru.

Yn ôl ymchwil Arad, yn 2019-20 fe greodd S4C effaith economaidd o £197.4m ar economi'r DU, ac £141.1m ar economi Cymru.

Mae hyn yn golygu, am bob £1 o incwm a dderbyniodd S4C yn 2019-20, fe greom yr effaith economaidd a ganlyn:

- £2.03 yn Economi'r DU
- £1.45 yn Economi Cymru
- £0.19 yn economi Sir Gaerfyrddin (ble mae pencadlys S4C wedi ei leoli)

Cefnogi cwmnïoedd cynhyrchu ar draws Cymru

Mae S4C yn falch iawn o'r bartneriaeth greadigol sy'n bodoli gyda'r sector gynhyrchu annibynnol.


Mae S4C yn buddsoddi ac yn comisiynu cynnwys gan gwmnïau cynhyrchu ar draws Cymru, gan gynnwys yng Nghaernarfon, Llanelli, Abertawe a Chaerdydd.

O ganlyniad, mae effaith economaidd S4C yn cael ei weld mewn cymunedau yng ngogledd, gorllewin a de ddwyrain Cymru. Mae cwmnïau cynhyrchu yn cael effaith sylweddol ar eu heconomiâu lleol a thu hwnt i'w dalgylch wrth i gynrychiadau deithio'r wlad i ffilmio cynnwys sy'n adlewyrchu Cymru.

Mae'r cwmnïau cynhyrchu hefyd yn cyfrannu at weithlu medrus iawn sy'n sail i sector gynhyrchu o'r radd flaenaf yng Nghymru ac sy'n denu cynrychiadau teledu, ffilm a chynnwys digidol o wledydd ledled y byd.

Gwariant Ranbarthol 2021/22

Gogledd Cymru (2020/21: 28%)	29%
De Cymru (2020/21: 49%)	51%
Gorllewin Cymru (2020/21: 22%)	19%
Tu allan i Gymru (2020/21: 1%)	1%
Cyfanswm	100%



(Mae'r data uchod yn berthnasol i leoliad swyddfeydd y cwmnïau cynhyrchu, ac nid yw'n adlewyrchu gweithgaredd cynhyrchu neu wariant mewn lleoliadau ar draws Cymru)

S4C Lleol

Yn ystod y flwyddyn adrodd 2021-22, fe gynhaliwyd cynllun peilot ar gyfer gwasanaeth S4C Lleol posib, gan weithio gyda chynhyrchwyr lleol mewn tair ardal benodol:

- TeliMôn, a sefydlwyd yn wreiddiol gydag arian Ewropeidd ac sydd â'i swyddfeydd yn Llangedfni;
- Shwmae Sir Gâr, oedd yn fenter cwbl newydd a phartneriaeth unigryw rhwng Yr Egin, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Menter Iaith Gorllewin Sir Gâr, a chwmi teledu ifanc Carlam; a
- Clwyd TiFi, a sefydlwyd o'r newydd i ymateb i her S4C Lleol gan gwmni Nerth dy Ben.

Pwrpas y peilot oedd cryfhau'r berthynas rhwng S4C a'r gynulleidfa ar lawr gwlad Cymru trwy alluogi creu cynnwys sydd yn berthnasol i'r cymunedau hynny.

Dros gyfnod y peilot, cafodd y gwasanaeth ei weld 670,000 o weithiau yng Nghymru a thros y byd gyda chynnwys sydd am bobl, straeon a chynefinoedd penodol iawn.

Mae'r rhwydwaith wedi bod yn ffordd effeithiol i S4C ddarganfod, adnabod, a chreu perthynas gyda chynulleidfa ac i'r gynulleidfa honno ddod i wybod fod lle iddyn nhw, a'u straeon nhw ar S4C.

Gyda'r peilot yn dod i ben erbyn Ebrill 2022, comisiynodd y Bwrdd Unedol adolygiad o'r cynllun peilot ystod gwanwyn 2022.

Wrth adolygu llwyddiant y cynllun peilot, roedd yn glir y bu'n arbrwf gwerthfawr gyda nifer o fanteision clir – gan gynnwys ehangu mynediad i'r diwydiant. Cytunwyd felly y dylid rhannu'r gwarsi a ddysgwyd gyda'r timoedd perthnasol oddi fewn i S4C a gyda rhanddeiliaid allanol fel bo'n briodol.

Mae S4C yn bwriadu parhau â'r perthnasau sydd eisoes wedi eu sefydlu gyda'r cynhyrchwyr lleol er mwyn adnabod cyfleoedd posib iddynt gynhyrchu cynnwys addas ar gyfer S4C.

Datblygu Sgiliau a Thalent

Rydym:

- Yn cefnogi'n partneriaid yn y sector i ddatblygu talent newydd yng Nghymru, drwy bartneriaethau ar draws y sector creadigol.



Ers y cychwyn cyntaf un, mae S4C wedi chwarae rôl greiddiol yn datblygu talent a sgiliau o fewn y sector yng Nghymru.

Mae natur comisiynu S4C fel cyhoeddwr ddarledwr nad yw'n creu cynnwys ei hun wedi galluogi ein partneriaid cynnwys i fuddsoddi yn natblygiad sgiliau eu staff dros y blynyddoedd. Ac mae S4C ei hun yn parhau i fuddsoddi ac arwain y ffordd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi adnewyddu ein partneriaeth hyfforddiant greiddiol gyda TAC, gan gynnig hyfforddiant datblygu'r gweithlu mewn meysydd sy'n cynnwys diogelu plant (mewn partneriaeth gyda'r NSPCC), creu troslais ffeithiol ac adloniant, rheoli risg cynrychiadau a gweithdy cytundebau cerddoriaeth gyda'r Performing Rights Society.

Rydym wedi parhau ein partneriaeth gyda BBC Cymru a Channel 4 i ddatblygu uwch-gynhyrchwyr ffeithiol drwy'r Cynllun Carlam Ffeithiol Cymru, gyda Cymru Greadigol Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu am y tro cyntaf. Mae hanner yr hyfforddeion yn y grŵp presennol naill ai'n siarad Cymraeg neu'n dysgu.

Mae cyswllt pendant rhwng ein gwaith sgiliau a thalent ag amcanion S4C i greu sector sy'n cynrychioli Cymru heddiw. Rydym wedi cefnogi peilot Cyswllt Diwylliant Cymru (CCW) sydd yn cefnogi talent amrywiol i ddod o hyd i gyfleoedd yn y sector ffilm a theledu yng Nghymru. Ac yn ystod 2021-22, lanswyd RAD Cymru Wales mewn partneriaeth gyda darlledwyr eraill, Cymru Greadigol a chwmni TRC i roi profiad gwaith wedi ei dalu a hyfforddiant i bobl o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector.

Rydym wedi parhau i weithio gyda Screen Alliance Wales a Gyrfya Cymru i sbarduno diddordeb pobl ifanc yn y sector. Ac mae partneriaethau gyda It's My Shout, Theatr Genedlaethol Cymru, Urdd Gobaith Cymru a Llenyddiaeth Cymru oll wedi rhoi hyfforddiant a chyfleoedd i ddatblygu i dalent newydd o bob cefndir.

Rydym hefyd wedi parhau i gynnig llwybr i'r diwydiant gyda chynllun hyfforddiant newyddiadurol Hansh Dim Sbin, gydag ITV Cymru, sydd â phwyslais ar ddenu talent o gymunedau sy'n cael eu tangynrychioli.

Uchafbwyntiau Cynnwys 2021-22



Roedd hi'n flwyddyn o newid a pharatoi at drawsnewid strategaeth gynnwys a chyhoeddi S4C. Un bennod yn gorffen, ac un arall yn dechrau. Ffarwelio ag un Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cynnwys, a chrosawu tîm newydd i arwain y sianel ar y siwrne nesaf a setliad ariannol sy'n rhoi sylfaen i'r dyfodol.

◀
Enid a Lucy

Yn ôl y disgwyl, parhau wnaeth y newid mewn arferion gwyllo, gyda'r shift o wyllo byw i lwyfannau S4C Clic ac iPlayer. Ac mewn ymateb i arferion ein gwylwyr lanswyd ap Newyddion S4C i ddod a'r straeon diweddaraf i chi yn eich poced.

Daeth diwedd ar gyfyngiadau Covid a dechrau rhyfel Wcráin. Unwaith eto, fe ddaeth S4C a straeon dirdynol sy'n diffinio'n hoes, ac fe gynhaliwyd cyngerdd arbennig Cymru Wcráin o Aberystwyth i godi arian.

Bu S4C hefyd yn gartref i brofiadau cenedlaethol o bwys gydag ymdrech tîm pêl-droed cenedlaethol i gyrraedd Cwpan y Byd yn uchafbwynt.

A bu cofio un o hoelion wyth y sianel a chefn gwlad Cymru, Dai Jones Llanilar. Cymeriad a oedd mor boblogaidd ar gyfryngau newydd ag y bu ar hyd ei yrfa ar deledu.



Gwobrau Ffilm a Theledu 2021-22

Mae rhaglenni S4C yn ennill gwobrau ac enwebiadau cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae ennill, neu dderbyn enwebiad ar gyfer gwobr mewn gŵyl ffilm neu deledu yn arwydd o werthfawrogiad o ansawdd y rhaglenni a gynhyrchir gan y cwmnïau cynhyrchu annibynnol ar gyfer S4C.

BAFTA Cymru 2021		Gŵyl Cyfryngau Celtaidd – Gwobrau Torc 2021	
Ennill	Enwebiadau	Ennill	Enwebiadau
Adloniant Dolig Ysgol Ni: Maesincla (Darlun)	Adloniant Am Dro! (Cardiff Productions)	Dogfen Chwaraeon 47 Copa (Cwmni Da)	Adloniant Ffeithiol Iaith ar Daith (Boom)
Plant Deian a Loli (Cwmni Da)	Adloniant Priodas Pum Mil (Boom)	Adloniant Côr Digidol Rhys Meirion (Cwmni Da)	Drama 35 Diwrnod (Boom)
Newyddion a Materion Cyfoes Pawb a'i Farn: Black Lives Matter (Tinopolis)	Adloniant Sgwrs Dan y Lloer: Kristoffer Hughes (Tinopolis)	Plant Nadolig Deian a Loli (Cwmni Da)	Drama Fer Cyswllt (Vox)
Breakthrough Michael Kendrick Williams: Tân ar y Bont (Rondo)	Cyflwynydd Elin Fflur (Sgwrs Dan y Lloer, Tinopolis)		Dogfen Unigol Ysbryd yr Ŵyl Eirlys, Dementia a Tim (Cwmni Da)
	Drama Un Bore Mercher (Vox)		Hanes Tân ar y Bont (Rondo)
	Plant Mabinogi-ogi (Boom)		Celfyddydau DRYCH Y Côr (Cwmni Da)
	Newyddion a Materion Cyfoes Llofruddiaeth Mike O'Leary (ITV Cymru)		Comedi Rybish (Cwmni Da)
	Awdur Barry Jones (Rybish, Cwmni Da)		Cerddoriaeth Fyw Sioe yr Eisteddfod Goll (Orchard)
	Cyfarwyddwr Ffeithiol Nia Dryhurst: DRYCH Chwaer Fach, Chwaer Fawr (Dogma)		Ffurf Fer Dilynwyd (ITV Cymru)
			Newyddion a Materion Cyfoes Pawb a'i Farn: Black Lives Matter (Tinopolis)

Gŵyl Teledu a Ffilm Efrog Newydd 2021	BAFTA DU 2021	Gwobrau Broadcast 2022
Ennill	Ennill (Channel 4)	Ennill (Channel 4)
Gwobr Efydd rhaglenni dogfen 'portreadau cymunedol' Bethesda: Pobol y Chwarel	Rhaglen Ddydd Orau The Great House Giveaway – Channel 4 (Tŷ am Ddim, Chwarel)	Rhaglen Ddydd Orau The Great House Giveaway – Channel 4 (Tŷ am Ddim, Chwarel)
Gwobrau Grierson 2021	Gwobrau Broadcast 2021	
Enwebiadau	Ennill	
Chwaer Fach, Chwaer Fawr (Dogma)	Rhaglen Cyfnod Clo Orau: Newyddion, Dogfen a Ffeithiol Dim Ysgol: Maesincla (Darlun)	



Drama

Er bod cyfyngiadau Covid yn dal i effeithio'r diwydiant yng Nghymru, fe lwyddodd S4C barhau i wasanaethu'r gynulleidfa gyda'n hoperau sebon, Pobol y Cwm a Rownd a Rownd, a dramâu o'r safon uchaf.

Fe gychwynnodd y ddrama newydd wreiddiol Yr Angueddfa ym mis Mai 2021, gan gynnig genre newydd sbon i wylwyr S4C wrth iddynt gael y cyfle i fwynhau 'thriller' trosedd celf am y tro cyntaf ar y gwasanaeth. Nid yn unig bu clod mawr gan y gynulleidfa a'r wasg Brydeinig (megis Radio Times a'r Sunday Times) fe werthwyd y ddrama i Brit Box yn yr Unol Daleithiau a Chanada, a sianel AXN yn Siapan.

Ym mis Medi, darlledwyd ffilm arbennig yn olrhain hanes un o arwyr rygbi Cymru, Ray Gravell. Roedd y ffilm deledu GRAV, a gyfarwyddwyd gan Marc Evans, yn un emosiynol iawn ac nid yn unig wedi taro deuddeg gyda'r gynulleidfa graidd ond wedi cyrraedd cynulleidfa newydd.

Wrth i'r dyddiau fynd yn fyrrach, a gydag ias hydrefol yn yr awyr, roedd hi'n amser perffaith i fwynhau'r drydedd gyfres o'r ddrama dditectif dywyll ac ysgytwol, Craith. Bu'r gyfres boblogaidd a threiddgar, sy'n adnabyddus am godi arswyd, unwaith eto yn llwyddiant yn llinol ac ar-lein gyda'r gwylwyr; ac roedd hi'n ysbrydoledig i weld ymddangosiad yr actor niwroamrywiol, Justin Melliush, yn y brif rôl.

Daeth Enid a Lucy nol ar ddechrau 2022. Roedd y gyfres egniol hon yn donic i'r gwylwyr ar ôl cyfnod caled o Covid. A thonic hefyd oedd cyfres newydd STAD. Ar ôl llwyddiant bocsets yr hen gyfresi Tîpyn o Stad dros y cyfnod clo, roedd hi'n gyfle i ail-gydio yn helyntion stad Maes Menai ddeng mlynedd yn ddiweddarach, gydag ambell

i wyneb newydd yn ymuno â'r cast. Cyhoeddwyd y gyfres fel bocset ar Clic, ac fe lwyddodd i apelio at gynulleidfa ifanc gyda 70% o'r gwylwyr hynny rhwng 16 a 44 oed.

Yn ein hymdrech i ddarganfod, meithrin a datblygu talent newydd cynhaliwyd y cynllun poblogaidd HER FILM FER am y trydydd tro, darlledwyd dwy ffilm trwy'r cynllun cynhwysol It's My Shout, ac fe lanswyd hefyd cynllun newydd PAIR ar y cyd gyda Theatr Genedlaethol Cymru. Mae PAIR yn gyfle newydd gwych i annog artistiaid sy'n weithwyr llawrydd yn y sector celfyddydol i ddod ynghyd i ddatblygu gwaith gwreiddiol ar draws llwyfannau.

Dan arweiniad S4C, Cyngor Celfyddydau Cymru, Ffilm Cymru Wales a Rhwydwaith BFI Cymru fe lanswyd trydydd cymal Y Labordy. Y tro hwn mae'r cynllun hyfforddiant arloesol yn canolbwyntio ar ddatblygu cynhyrchwyr ffilm, theatr a theledu.

Llofnodwyd Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth rhwng S4C a Chymru Greadigol ar ddiwedd 2021, er mwyn cefnogi datblygiad sector sgrin ddeinamig yn yr iaith Gymraeg. Un o brif nodau'r memorandwm yw creu ffilmiau sinematig sy'n tanlinellu ymrwymiad S4C i fod yn gartref i ddramâu o safon fydd yn mynd a thalentau Cymru i'r byd a'n dod a sylw'r byd i Gymru.



Chwaraeon

Roedd effeithiau'r pandemig wedi ymestyn i flwyddyn chwaraeon 2021-22. Ailddechreuodd tymor rygbi Pro14 gyda gemau a chystadlaethau a oedd wedi'u haildrefnu ac a oedd yn parhau hyd ddiwedd mis Gorffennaf i geisio adennill yr amser a gollwyd. Teithiodd camerâu S4C i Dde Affrica hefyd, ar gyfer uchafbwyntiau Taith Llewod Prydain. Daeth sgiliau addysgu disgrair y cyflwynydd Sarra Elgan i'r amlwg wrth i un o brif chwaraewyr rygbi De Affrica, Bryan Habana, gofleidio'r iaith Gymraeg.

Ym mis Gorffennaf, dychwelodd rygbi Cymru i Stadiwm Principality gydag ymweliad yr Ariannin. Darlledodd S4C ddwy o'r tair gêm brawf yn fyw. Roedd y ddwy gêm fyw wedi cyrraedd mwy na 215,000 o wylwyr yn y DU, ac wedi cael mwy na 50,000 o sesiynau Clic ac iPlayer.

Yn well hwyr na hwyrach, cafodd y Tour de France a'r Giro d'Italia eu gwasgu i mewn cyn diwedd y flwyddyn, ac yn ystod uchafbwyntiau Marathon Casnewydd gwelwyd miloedd o redwyr yn rhedeg gyda'i gilydd am y tro cyntaf mewn dwy flynedd.

Ym mis Tachwedd, lansiodd cyfres newydd o Rygbi'r Hydref. Gyda gemau byw Cymru y tu ôl i wal dalu, cynigiodd S4C uchafbwyntiau cynhwysfawr ar ddiwrnod pob gêm, gan gadw'r tîm cenedlaethol ar deledu am ddim. Mae'r Pro14 bellach wedi cael ei ailfrandio yn Bencampwriaeth Rygbi'r Cenedloedd Unedig, ac mae wedi dychwelyd i'r Clwb Rygbi gydag S4C yn sicrhau nifer ryfeddol o 27 o gemau byw bob tymor.

Dychwelodd y Chwe Gwlad gyda thorfeydd ym mis Chwefror, ynghyd â thair gêm yng nghystadleuaeth y Chwe Gwlad dan 20. Roedd pob gêm wedi cyrraedd dros 100,000, gyda dros 10,000 o sesiynau gwyllo ar S4C Clic ac iPlayer.

O ran byd clybiau Cymru, lansiodd S4C gyfres newydd gyda gêm fyw bob wythnos o Uwch Gynghrair Indigo. Mae'r gyfres yn rhan o bortffolio cynyddol o chwaraeon byw a gynigir ar ein llwyfannau cymdeithasol ac ar S4C Clic. Mae modd gweld rygbi a phêl-droed clybiau Cymru ar sianeli YouTube a Facebook S4C bob wythnos, gan gynnwys sêr y dyfodol gyda Rygbi Pawb, sy'n denu cynulleidfa ifanc (16-24) yn gyson i S4C Clic.

Mae ffrydio chwaraeon byw S4C yn dod yn fwyfwy poblogaidd gyda nifer sylweddol o wylwyr i'n darllediad o gêm bêl-droed Cymru C v Lloegr C ym mis Mawrth.

I'r rheini sy'n caru petrol, mae Ralio, sydd hefyd ar gael ar lwyfannau cymdeithasol S4C, yn denu cynulleidfa gynyddol. Mae dilyn hynt Elfyn Evans ym Mhencampwriaeth Rali'r Byd yn rhan fawr o'r gyfres, ond mae rhaglenni chwaraeon moduro ychwanegol, gan gynnwys Howard yn y Garej, yn rhy dda i'w colli ac yn hynod boblogaidd.

Mae chwaraeon cystadleuol menywod yn parhau i fod yn flaenoriaeth i S4C. Darlledwyd gêm agoriadol y tymor pêl-droed yn yr Adran Premier newydd sbon yn fyw ar S4C. Menywod oedd dros 70% o dim cyflwyno a sylwebu y cynhyrchiad, ac roedd amrywiaeth tu ôl i'r camerâu hefyd gyda chynhyrchiad benywaidd a chynhyrchiad gweithredol/cyfarwyddwr LHDT+. Roedd Gêm Gyfartal Laura MacAllister yn rhaglen ddogfen bwysig ac amserol a oedd yn edrych ar gêm y menywod yng Nghymru.

Darlledwyd dwy o'r bum gêm Chwe Gwlad Menywod yn fyw ar S4C, sef rhan o drefniant ar y cyd â BBC Sport, ac roedd podlediad o wersyll y Menywod, Y Sgarms Ddigidol, yn ffordd wych o ddod i adnabod sêr rygbi'r menywod ar gyfer y dyfodol.

Ar ôl dilyn Cymru i Baku, Rhufain ac Amsterdam ar gyfer Pencampwriaeth Ewro 2020 UEFA, daeth tîm Sgorio â'r flwyddyn i ben gyda darllediadau byw o lwyddiant Cymru yn y gêm ail-gyfle y rownd gyn-derfynol yng Nghwpan y Byd FIFA yn erbyn Awstria. Cyrhaeddwyd 391,000 yn y DU, sef y nifer uchaf ar gyfer unrhyw gêm bêl-droed a ddangoswyd ar S4C ers gêm cymhwysu Cwpan y Byd yn 2017 yn erbyn Gweriniaeth Iwerddon. Ar noson fythgofiadwy yn stadiwm Dinas Caerdydd, gyda'r dorf yn morio canu, dyma'r adegau perffaith ar gyfer darlledwr cenedlaethol sydd ar gael am ddim. Mewn byd lle mae hawliau darlledu yn newid yn gyflym, mae S4C wedi ymrwymo fwy nag erioed i ddangos yr adegau hyn.

Wedi cynnydd sylweddol yn y galw am newyddion a materion cyfoes ar bob llwyfan yn sgil y pandemig, lanswyd gwasanaeth digidol Newyddion S4C. Mae nifer y defnyddwyr wedi tyfu'n gyson dros y flwyddyn gydag wyth mil wedi lawrlwytho'r ap erbyn hyn. Dros chwech mis roedd nifer y sesiynau gwyllo i'r fideos ar gyfryngau cymdeithasol y gwasanaeth ar Facebook a Twitter yn 2.6 miliwn. Yn ogystal â churadu newyddion o bob cwr o'r byd drwy wahanol ffynonellau, mae'r tîm hefyd yn cynhyrchu straeon newyddion gwreiddiol ac yn ail-becynnu cynnwys o raglen Newyddion S4C.

Gydag Etholiad Senedd Cymru yn Mai 2021, cafwyd rhaglen ganlyniadau etholiad fywiog wedi ei llywio'n ddeheuig gan Bethan Rhys Roberts o gartref newydd y BBC yn Sgwâr Canolog, Caerdydd. Roedd hi'n farathon o raglen dros 9 awr o hyd, a bu'n rhaid dychwelyd y diwrnod canlynol i gael y canlyniadau olaf.

Bu'r Byd yn ei Le hefyd yn fforwm pwysig i ddal gwleidyddion i gyfri gyda dyfodol gwleidyddol Boris Johnson yn y fantol ar ôl y partion yn Downing Street yn ystod y cyfnod clo. Ac wrth i gyfyngiadau Covid lacio cafodd Pawb a'i Farn gyfle i deithio i blith y bobol ar lawr gwlad unwaith eto.

Gyda'r pwysau aruthrol yn parhau ar y gwasanaeth iechyd yn sgil Covid, fe wnaeth y rhaglen Gweinidog Iechyd mewn Pandemig roi golwg unigryw i ni ar y penderfyniadau anodd oedd yn wynebu Eluned Morgan a Llywodraeth Cymru. Cafwyd dogfennau materion cyfoes arbennig hefyd, Covid, y Jab a Ni a 9/11: Diwrnod wnaeth newid fy mywyd.

Wedi i'r pandemig barhau i ddenu gwylwyr yn gyson i brif raglen Newyddion S4C, fe wnaeth yr agenda newyddion newid cyfeiriad yn llwyr pan ddechreuodd y rhyfel yn Wcráin. Bu gohebwy'r Newyddion S4C a'r Byd ar Bedwar i'r ffin i adrodd hanes y bobol oedd yn ffoi, gyda rhai'n ceisio cyrraedd eu teuluoedd yng Nghymru am loches.





Ffeithiol

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn gyfnod o geisio ail gydio mewn cynrychiadau heb gyfyngiadau Covid. Gyda pheth sefydlogrwydd yn dychwelyd, daeth rhai o'n fformatau mwyaf poblogaidd – Tŷ Am Ddim, Gwesty Aduniad, Y Fets ac Am Dro - yn ôl i'r sgrin, ac arbrowyd hefyd gyda fformat ffotograffiaeth newydd Yn Y Ffrâm. Cafodd Am Dro ei addasu a'i werthu fel fformat i BBC Two, a bydd Gwesty Aduniad yn datblygu yn gyd-gynhyrchiad Cymraeg a Saesneg gyda'r BBC.

Bu sawl unigolyn a sefydliad yn dathlu eu penblwydd dros y flwyddyn ac yn Eryri: Pobol y Parc dathlwyd Parc Cenedlaethol Eryri yn 70 oed, tra roedd Cymru, HIV ac Aids yn cofnodi 40 mlynedd ers yr achos cyntaf o Aids.

Roedd 2021 yn flwyddyn fawr hefyd i Dechrau Canu Dechrau Canmol ac i Huw Edwards – y ddau yn 60 – ac fe wnaeth y ffilm ddogfen Huw Edwards yn 60 greu sgwrs fywiog ar y cyfryngau cymdeithasol a denu gwylwyr niferus.

Wrth i'n strand trosedd ddatblygu, cynhyrchwyd sawl dogfen bwerus – John Owen: Cadw Cyfrinach, Peter Moore: Y Dyn mewn Du, Bryn Fon: Chwilio Am Feibion Glyndŵr, ac Y Parchedig Emyr Ddrwg. O fewn y gyfres Drych aeth Jason Mohammad nôl i'w gynefin ar drywydd Terfysg Trelái 1991, cafwyd dogfennau gonest a phersonol yn Fi, Rhyw ac Anabledd a Frank Letch: Byw Heb Freichiau, tra bod Lloches wedi rhoi llais i ffoaduriaid sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru i adrodd eu stori. Roedd Cyfrinach y Bedd Celtaidd yn cofnodi hanes un o ddarganfyddiadau archeolegol mwyaf cyffrous Cymru, ac fe'i cynhyrchwyd ar y cyd gyda Smithsonian a Discovery Science. Ac fe enwebwyd Chwaer Fach Chwaer Fawr ar gyfer Gwobr Grierson.

Roedd parhad cyfyngiadau Covid yn golygu fod pobl yn dal i fynd ar wyliau yn agos at adre, a daeth sawl rhaglen â Chymru i'r gwyliwr – Cynefin, Nofio Adre gyda Gareth Jones yn nofio ar hyd Cymru, a Cymru Dad a Fi, lle aeth y tad a'r mab Wayne a Connagh Howard i archwilio ynysoedd Cymru.



Adloniant a Chomedi

Er heriau Covid, gwelwyd pwysigrwydd adloniant a chomedi o fewn yr arlwy gyda chomisiynau llawn amrywiaeth, creadigedd a diddanwch.

Gwnaed yn fawr o'n brandiau llwyddiannus yn ystod 'Wythnos y Traeth' ym mis Gorffennaf. Yn eu plith, Sgwrs Dan y Lloer gydag Elin Fflur yn holi'r perfformiwr poblogaidd Max Boyce o'i hoff draeth yn ardal y Gwyr. Uchafbwynt arlwy'r wythnos oedd y penderfyniad mentrus i gynnal Priodas Pum Mil yn fyw o draeth Trefor, ac yn ffodus, cynhaliwyd hi ar noswaith boetha'r flwyddyn.

Dychwelodd y gyfres Ysgol Ni, y tro hwn o Ysgol y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog. Dyma gynnwys a wnaeth yn sicr greu'r sgwrs gyda mynediad rhyfeddol i gymuned glos Blaenau Ffestiniog mewn cyfnod digynsail. Denodd y gyfres y cyfartaledd uchaf o wyllo ar draws y flwyddyn ar Clic ac iPlayer (y tu hwnt i gynnwys chwaraeon a drama).

Y gyfres adloniant a berfformiodd orau oedd Jonathan gyda bron hanner y gynulleidfa'n ddi-Gymraeg. Eto, gan blethu rygbi ac adloniant, cafwyd ymateb gwych i gyfres newydd 6 Gwlad Shane ac Ieuan. Yma bu'r ddau asgellwr rygbi chwedlonol yn ymweld â chwe dinas y Chwe Gwlad

gan hel atgofion a chwrdd â hen ffrindiau. Denodd y gyfres hon hefyd gynulleidfa wahanol ar draws y llwyfannau, gyda bron eu hanner naill ai'n llai rhugl neu'n ddi-Gymraeg.

Ym maes comedi cafodd y gyfres Rybush, ei henwebu am sawl gwobr, a chafwyd perfformiadau crafog a beiddgar gan Tudur Owen a Siân Harries yn O'r Diwedd. Apeliodd y comedi Jam, sy'n cyfuno byd drag a mabwysiadu at bobol o bob oedran a chynulleidfa o bob rhuglder.

Cerddoriaeth a Digwyddiadau

Eto eleni cafodd nifer o ddigwyddiadau pwysig ein harlwy eu heffeithio neu eu gohirio. Serch hyn, roedd modd addasu a mentro'n fwy creadigol fyth wrth gyd-weithio'n agos gyda'n partneriaid i adlewyrchu ysbryd y gwyliau.

Dychwelodd Eisteddfod T, ond y tro hwn plethwyd yr elfen ddigidol a pherfformio byw gan fanteisio ar leoliad arbennig Gwersyll yr Urdd Llangrannog i gynnal y digwyddiad mewn modd hybrid. Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Sgwâr Canolog, Caerdydd gan ddarparu seremonïau lliwgar yr Orsedd yn fyw fin nos i anrhydeddu'r enillwyr.

Er yr heriau, braf oedd croesawu mwy o gerddoriaeth byw eleni ar draws y llwyfannau. Dathlwyd Blwyddyn Cymru yn yr Ŵyl Cwlwm Celtaidd, Glasgow gyda rhaglen o uchafbwyntiau gwerinol dan law Gwilym Bowen Rhys ac Eve Goodman, mewn partneriaeth gyda Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru a Chroeso Cymru.

Rhoddodd Noson Lawen lwyfan i lu o artistiaid poblogaidd a newydd ar draws Cymru a dychwelodd y gynulleidfa deuluol i fwynhau achlysur poblogaidd Cân i Gymru. Eto eleni roedd y cyfryngau cymdeithasol yn brysur iawn wrth i'r gwylwyr ymateb yn fyw i'r gystadleuaeth.

Oherwydd heriau Covid a thair blynedd wedi mynd heibio ers y gystadleuaeth ddiwethaf, heb os, un o binaclau cerddorol y flwyddyn oedd croesawu Côr Cymru yn ôl i Ganolfan y Celfyddydau, Aberystwyth. Dyma frand pwysig i'r sianel, sy'n dathlu'r gorau o dalent gorawl Cymru. Roedd y ffeinal yn uchafbwynt, nid yn unig fel cystadleuaeth ragorol, ond o ran medru perfformio o flaen cynulleidfa unwaith eto. Yn ogystal, swynwyd pawb gan berfformiad arbennig Amelia Anisovych, merch saith mlwydd oed o Wcráin a deithiodd i Aberystwyth i ganu ar y noson a goleuo'r llwyfan. Daeth Amelia i sylw'r byd gyda fideo feiral ohoni'n canu mewn lloches bom yn Kiyv.

Yn sgil erchyllterau Wcráin, trefnwyd Cyngerdd Cymru ac Wcráin, i godi arian i apêl DEC Cymru. Gydag Elin Fflur yn llywio'r noson, cafwyd perfformiadau emosiynol gan lu o dalentau o Gymru ac Wcráin, yn cynnwys y bariton Yuriy Yurchuk a'r tenor Gwyn Hughes Jones.

Cafodd y sin cerddoriaeth gyfoes sylw blaenllaw ar draws y llwyfannau, a hynny dan ein brand cerddoriaeth LŴP. Bu'r gyfres Curadur yn gyfle i ddathlu cerddoriaeth a diwylliant Cymru wrth i artistiaid fel Lemfreck, Aleighcia Scott, Heledd Watkins a Cate Le Bon guradu a'n cyflwyno i amrywiaeth eang a chyffrous o berfformiadau.





Cynnwys ar-lein a phobl ifanc

Roedd eleni yn flwyddyn arwyddocaol i Hansh gan symud ymlaen gyda strategaeth newydd i gomisiynu cynnwys hirach ar gyfer cynulleidfaoedd rhwng 16–34 oed, a thyfu gwyllo ar lwyfannau fideo ar alw, yn ogystal â'u gwasanaethu ar y cyfryngau cymdeithasol.

Cyhoeddwyd cyfres gomedi sefyllfa Limbo, newyddiaduraeth 'gonzo' yn Pa Fath o Bobol..., diwylliant ceir aflafar gogledd orllewin Cymru yn Pen Petrol a dwy gyfres adloniant newydd sbon yn y gêm ddyfalu Celwyddgi a'r gyfres dêtio ddrygionus Tisio Fforc? Llwyddodd cyfresi fel Pen Petrol a Pa Fath o Bobl i ddarganfod cynulleidfa dda ar-lein, ac ar deledu llinol.

Stori o newidiadau tectonig oedd yn y tirlun cyfryngau cymdeithasol eleni gyda symudiadau aruthrol cynulleidfaoedd iau, yn arbennig rhwng 16–25, tuag at lwyfan Tik Tok, lle gwelwyd twf gwyllo mwyaf Hansh. Yno gwelwn fod talent cwbl newydd yn byrlymu drwodd. Mae Hansh am sicrhau ei fod yng nghanol y gornel bwysig hon o ddiwylliant Cymru drwy symud pwyslais yno yn gynyddol o ran creu a darganfod cynnwys.

O ran materion cyfoes a newyddion, daeth cyfres GRID yn ôl gyda sawl portread dyfnach o bobol ifanc Cymru, gyda'r uchafbwynt yn ffilm ddogfen deimladwy a gonest SOBRI am brofiad dyn ifanc o Wunedd gyda dibyniaeth alcohol. Clywyd barn pobl ifanc Cymru adeg etholiadau Senedd Cymru yn y rhaglen Taswn i'n Brif Weinidog Cymru a bu cynllun hyfforddi newyddiadurwyr ifanc Hansh Dim Sbin yn rhoi ffocws ar yr amgylchedd ym mlwyddyn COP26.

Parhaodd ein hymroddiad at amrywiaeth a chynhwysiant gan barhau gyda chynllun crewyr anabl a Byddar Medru. Cynhyrchwyd 10 fideo byr gyda thalent anabl newydd a chynnig hyfforddiant i lawer mwy. Cyhoeddwyd cyfres newydd podlediad Probcast a roddodd lwyfan i bedair merch ifanc ffraeth sydd digwydd bod ag anabledau i roi'r byd yn ei le. Ar ôl llwyddiant y cynllun, bydd MEDRU yn cael ei brif-ffrydio mewn i waith blynyddol Hansh gan sicrhau bod talent anabl a Byddar yn cael cyfleoedd cyson, nid dim ond cynllun achlysurol.

Cefnogodd S4C y sin gerddoriaeth wrth iddyn nhw ddod allan o ddiffyg gigiau a digwyddiadau'r pandemig drwy gynnal cyfresi ar-lein.

Plant

Mewn blwyddyn heriol arall i bawb wrth i ganllawiau Covid gael eu llacio a'u tynhau bob yn ail, mae cynnwys plant a phobol ifanc S4C wedi ymateb unwaith eto yn chwim er mwyn diddanu ac addysgu ieuencid Cymru.

Gydag ysgolion yn ôl, gwelwyd awch i gynnwys plant mewn cyfresi yn yr awyr agored a hyn yn cael ei adlewyrchu mewn cyfresi fel Awyr Iach i Cyw a Gwrach y Rhibyn i Stwnsh. Roedd canolfannau cymunedol ac addoldai yn gallu agor ar gyfer ffilio'r gyfres Dathlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau a'r dathliadau oddi mewn iddyn nhw. Ac fe lwyddwyd i ffilio'r gyfres Efaciwis dros Haf 2021 trwy ddod ag wyth plentyn o ddinasoedd Lloegr i mewn i gymuned Llanuwchllyn am dair wythnos i fyw bywyd fel efaciwis yr ail ryfel byd.

Cafwyd y ffilm Nadolig Mabinogi-ogi ac ar ôl cyfnod mor hir heb fedru cynnal digwyddiadau roedd hi'n hyfryd medru trefnu taith sinemâu lwyddiannus i ddangos Deian a Loli - Dygwyl y Meirw dros wyl Calan Gaeaf.

Erbyn diwedd y flwyddyn roedd canllawiau yn caniatáu dod a grwpiau o ysgolion gwahanol i stiwdio at ei gilydd a ffilmwyd Ahoi gyda Ben Dant ar ôl cyfnod hir o ohirio.

Doedd canllawiau ddim yn caniatáu i bob dim fynd yn ôl i normal ac felly cafwyd cynllun hybrid i Stwnsh Sadwrn a chynhyrchu'r gyfres yn ystod y cyfnod clo wedi dangos bod Zoom yn galluogi llawer mwy o ymwneud.

Datblygwyd ar lwyddiant Eisteddfod T gyda chynllun hybrid ar gyfer 2021 oedd yn cyfuno cystadlu adre gyda seremonïau byw yn Llangrannog a pherfformiadau o Glan-llyn, gydag Eisteddfod T unwaith eto yn llwyddiant aruthrol.

Yn ystod y cyfnod clo buddsoddodd Boom Plant mewn datblygu sgriptwyr newydd ac yn 2021-22 gwelwyd ffrwyth llafur y gwaith yn y gyfres gomedi boblogaidd Chwarter Call, a'r gyfres ddrama zombies Itopia - cyfres a'n galluogodd ni i gynnig ein bocset cyntaf i blant ar Clic sydd wedi bod yn llwyddiant gan sefydlu patrwm ar gyfer y dyfodol.

Mae S4C wedi elwa yn fawr o gronfa'r YACF (Young Audience Content Fund) ac yn 2021-22 darlledodd Hei Hanes!, Bex - sef cyfres yn ymwneud a phroblemau iechyd meddwl plant,

Byd Tad-cu - sy'n gyd-gynhyrchiad gyda Channel 5, ac Y Gyfrinach a PersonA - sef cynnwys trawslwyfannol beiddgar i bobl ifanc 13+.

Eleni mae'r gyfres ddrama sci-fi Y Goleudy hefyd wedi dechrau cael ei chynhyrchu, sef cyfres gyda chefnogaeth yr YACF gafodd ei gohirio oherwydd Covid llynedd ond fydd eto yn uchelgeisiol a chyffrous.

Yn ystod y flwyddyn daliodd yr awch am gynnwys S4C fel adnodd addysg i dyfu. Bu creu sianel S4C ar HWB (sef platfform addysg Llywodraeth Cymru sydd ar gael i bob disgybl yng Nghymru) ar ddechrau 2021 yn gam hynod o bwysig ac yn gychwyn partneriaeth hir dymor. Mae 2021-22 wedi gweld trosglwyddo mwy o gynnwys i'r platfform wrth i ysgolion baratoi ar gyfer cwricwlwm newydd a Llywodraeth Cymru yn edrych ar y potensial o gynhyrchu adnoddau addysgol i gyd-fynd â chynnwys S4C.

Ar ddechrau 2022 fe fu S4C yn rhan o gynllun addysg Croeso Cyw, sef cynllun rhwng S4C a Sir Gâr wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Daeth dwy athrawes o Sir Gâr i S4C ar secondiad er mwyn gweithio gyda phum ysgol yn y sir dros gyfnod o dri mis. Bwriad y peilot oedd defnyddio brand Cyw i helpu caffael iaith plant oed sylfaen, a defnyddio gweithgareddau, apiau, cystadlaethau, digwyddiadau a Facebook er mwyn cyrraedd rhieni / gofalwyr y plant. Trwy'r cynllun, byddai modd felly estyn Croeso i holl gymuned yr ysgol sydd, yn ei dro, yn codi proffil ac ymwybyddiaeth o gynnwys S4C. Bu'r peilot yn llwyddiant a'r canfyddiad o Cyw o'i herwydd wedi cynyddu yn yr ysgolion hynny.

Gan adeiladu ar gaffael iaith mae Cyw yn ehangu i gynnwys Cywion Bach ar gyfer babis 0-2 oed a'u rhieni. Y gobaith yw y bydd y cynnwys sy'n cael ei rannu ar sawl platfform yn cynyddu ymwybyddiaeth o Cyw ac S4C, gyda'r plant yn eu tro yn derbyn addysg Gymraeg.

Ar draws y llwyfannau digidol mae twf aruthrol wedi bod eleni eto mewn gwyllo cynnwys S4C. Ar YouTube mae Caru Canu, cyfres animeiddiedig o rigymau doniol, yn dal i ddenu a diddanu'r plant iau ac yn ystod y flwyddyn ehangodd yr arlwy i Caru Canu a Stori. Mae plant hefyd yn heidio i wefan Cyw er mwyn chwarae gemau.





Siaradwyr Newydd

Mae hon yn gynulleidfa bwysig i S4C, a braf gweld eu bod nhw mor gefnogol a mor barod i ymwneud gyda'r cynnwys.

Mae arlwy S4C ar gyfer siaradwyr newydd mewn sawl ffurf, ac ar sawl llwyfan – o gyfresi penodol wedi eu cynhyrchu gan gwmni Boom Cymru, i newyddion Yr Wythnos gan BBC Cymru, i gynnwys amrywiol a chynhwysfawr drwy wefan S4C Dysgu Cymraeg sy'n arwain at y cynnwys ar YouTube, Instagram, a Facebook.

Mae ein gwasanaeth i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol a Say Something in Welsh, a'r partneriaid hyn sy'n arwain ar y lefel ieithyddol.

Trwy grwpiau ffocws y Ganolfan, daeth yn amlwg fod Clic yn boblogaidd fel llwyfan gwyllo am fod posib cael is-deitlau Cymraeg a Saesneg er mwyn helpu dealltwriaeth.

Gwelodd 2021-22 gyfle i ddatblygu ar yr arlwy i siaradwyr newydd, er yr heriau y rhoddodd Covid o ran canllawiau ffilio ac argaeledd lleoliadau.

Roedd cyfresi fel Adra a Dan Do yr un mor boblogaidd ag erioed, ac yn cael gwerthfawrogiad mawr ymysg y rhai sy'n mynd ati i ddysgu, yn ogystal â fformatau sy'n dangos tirwedd Cymru fel Am Dro a Cynefin.

Llwyddodd y gyfresi iaith ar Daith unwaith eto yn 2021 i ddenu gwylwyr i'r sianel. Adeiladodd y gyfresi ddiweddaraf, a ddarledwyd yn Ebrill 2022, ar hynny gyda chynnwys Saesneg y gyfresi ar YouTube hefyd yn denu gwylwyr newydd.

Yn 2021-22, bu datblygu mawr ar y cynnwys ar-lein sydd yn eistedd yn benodol ar YouTube, gyda hyd at bum munud o gynnwys fideo newydd yn cael ei gynhyrchu yn wythnosol.

Mae'r cynnwys yn gyfuniad o glipiau o gyfresi S4C ynghyd â chynnwys gwreiddiol newydd wedi ei greu ar gyfer y lefelau ieithyddol gwahanol.

Mae'r fideos i gyd yn cynnwys is-deitlau sydd wedi eu symleiddio neu yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i'r hyn sydd ar y sgrîn. Mae pob fideo hefyd yn cynnwys geirfa ar y sgrîn er mwyn rhoi help gyda gair anarferol neu wahanol.

Cyflwynwyd trioglyng nghanol pob fideo ble mae'r lliw yn cyfateb i lefel y Cymraeg yn ôl cwricwlwm y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol (melyn = mynediad; gwyrdd = sylfaen; coch = canolradd) â'r iaith yn cael ei wirio gan ymgynghorydd iaith.

Aethpwyd ati hefyd i gysoni'r brand o ran edrychiad y fideos gyda lliwiau gwahanol yn dynodi cynnwys gwahanol. Yn ogystal, crëwyd playlists ar YouTube a gwneud yn siŵr bod modd cael hyd i'r fideos yn rhydd trwy'r gwasanaeth chwilio.

S4C yn gwranddo ar ein gwylwyr

Mae sicrhau trafodaeth a pherthynas reolaidd gyda'r gynulleidfa yn bwysig iawn i waith S4C.

Ceir trafodaeth drwy gydol y flwyddyn gyda'r gynulleidfa am raglenni S4C ar gyfryngau cymdeithasol a gyda Gwifren Gwylwyr, llinell gymorth S4C.

Mae tim Gwifren Gwylwyr S4C fel arfer yn gweithio yn swyddfa S4C yng Nghaernarfon bob dydd o'r flwyddyn. Mae'r holl sylwadau sy'n ein cyrraedd am gynnwys a gwasanaethau S4C yn cael eu cofnodi a'u cadw. Mae'r tim yn darparu crynodeb o'r sylwadau ar gyfer swyddogion ac aelodau'r Bwrdd.

Cafwyd 9,613 o gysylltiadau gydag S4C drwy gyfrwng y Wifren yn 2021-22. Roedd 4,438 o'r rhain yn canmol rhaglenni tra bod 1,220 yn gwynion neu'n feirniadaeth o ryw fath.

Yn arferol, mae Nosweithiau Gwylwyr yn chwarae rhan bwysig yng ngweithgareddau cyfathrebu S4C, ond oherwydd y pandemig ni chafwyd yr un yn ystod 2021-22. Rhaid felly oedd adnabod ffyrdd eraill i'r gynulleidfa fod yn rhan o arlwy S4C a mynegi barn am wasanaethau S4C.

Tra bu sesiynau Facebook Live yn boblogaidd yn ystod 2020-21, fe ddaeth yn amlwg fod digwyddiadau Facebook Live bellach yn pylu mewn poblogrwydd. Fe gynhaliwyd un yn ystod y cyfnod gyda'r Prif Weithredwr Owen Evans, y Cyfarwyddwr Cynnwys Amanda Rees, a'r Comisiynydd Drama Gwenllian Gravelle. Fe gafwyd 36 sylw ysgrifenedig, 32 ymateb, ac mae'r fideo wedi ei wyllo 4,800 o weithiau.

Mae gan S4C Banel Ymateb Cynulleidfa sy'n cynnwys 1,400 o unigolion, a ddewiswyd i adlewyrchu poblogaeth Cymru. Mae'r panelwyr yn rhoi eu barn i S4C am y gwasanaeth a sgoriau gwerthfawrogiad ar gyfer rhaglenni S4C.



Croesawu pawb i wyllo S4C - gwasanaethau cymorth i'n cynulleidfa

Mae sicrhau bod cynnwys S4C ar gael i'r gynulleidfa ehangaf posib yn bwysig iawn i S4C.

Mae gwasanaethau mynediad yn parhau i ddarparu modd bwysig i alluogi S4C i ehangu ei chynulleidfa a'i hapêl.

Mae is-deitlo yn Saesneg ac yn Gymraeg, ynghyd ag arwyddo, sain ddisgrifio a gwasanaethau disgrifiadol ail-sgrin yn darparu ystod o wasanaethau sy'n cyfoethogi darpariaeth S4C ac yn sicrhau fod cynnwys ar gael i rai sydd ag anghenion penodol yn ogystal ag i gymuned ehangach o siaradwyr a dysgwyr Gymraeg o bob lefel rhuglder a'r di-Gymraeg.

Darparwyd y gwasanaethau canlynol yn ystod y flwyddyn:

Isdeitlau Cymraeg

Mae'r isdeitlau hyn ar gael yn bennaf ar gyfer pobl b/Byddar a thrwm eu clyw sy'n siarad Gymraeg yn ogystal â phobl sy'n dysgu siarad Gymraeg. Darparwyd isdeitlau Cymraeg ar 25 awr o raglenni bob wythnos ar gyfartaledd. Mae isdeitlau Cymraeg a Saesneg hefyd ar gael ar wasanaeth S4C Clic ac isdeitlau Saesneg ar gael ar y BBC iPlayer.

Isdeitlau Saesneg

Bwriad y gwasanaeth hwn yw ehangu apêl y rhaglenni ar gyfer gwylwyr di-Gymraeg, pobl f/Fyddar a thrwm eu clyw. Trwy wasgu'r botwm "isdeitlau" ar y teclyn rheoli, gellir gweld isdeitlau ar gyfer pob math o raglenni, gan gynnwys rhaglenni byw. Caiff rhai rhaglenni eu darlledu gydag isdeitlau agored. Fel arfer, aiddarllediadau o raglenni poblogaidd yw'r rhain. Yn ystod y flwyddyn roedd isdeitlau Saesneg ar gael ar 77.09% o'r rhaglenni (targed Ofcom yw 53%).

Sain Ddisgrifio

Mae'r gwasanaeth Sain Ddisgrifio ar rai rhaglenni yn rhoi sylwebaeth, trwy ddewis, yn y Gymraeg i lenwi'r cyfnodau pan nad oes unrhyw ddeialog mewn rhaglenni. Mae'n cynnwys disgrifiad ychwanegol i gynorthwyo defnyddwyr dall neu rhannol ddall i ddilyn rhaglenni'n haws. Darparwyd y gwasanaeth hwn ar gyfer 14.10% o'r rhaglenni (targed Ofcom yw 10%).

Arwyddo rhaglenni

Cafodd rhai rhaglenni, fel arfer ar y penwythnos ac amser cinio yn ystod yr wythnos, eu harwyddo yn BSL (British Sign Language) ar gyfer gwylwyr b/Byddar a'r rhai sy'n defnyddio iaith BSL. Roedd y gwasanaeth ar gael ar 6.59% o raglenni (targed Ofcom yw 5%).

Llinell gymorth Gwifren Gwylwyr

Mae modd i'n gwylwyr gysylltu'n uniongyrchol gydag S4C drwy ffonio, e-bostio, ar gyfryngau cymdeithasol neu anfon llythyr at y Wifren Gwylwyr. Mae manylion cyswllt Gwifren Gwylwyr ar gael yng nghefn yr adroddiad hwn. Mae'r gwasanaeth dwyieithog ar gael o 9.00 tan 22.00 saith diwrnod yr wythnos.

Mesur Perfformiad S4C

Defnyddir ystod o fesuryddion er mwyn mesur ac asesu perfformiad gwasanaethau S4C.

Mae'r rhain yn cynnwys ffigurau gwyllo ar gyfer teledu a gwasanaethau ar-lein, mesuryddion ansoddol sy'n cyflwyno darlun ehangach o ddefnydd, gwerthfawrogiad, effaith a gwerth gwasanaethau S4C.



**Defnydd a
Chyrhaeddiad**



Gwerthfawrogiad



Effaith



Gwerth am arian

Ers i S4C ddarlledu gyntaf ym mis Tachwedd 1982, mae wedi tyfu o un sianel deledu linol ran-amser i wasanaeth llawn, aml-lwyfan, sy'n rhoi llais a llwyfan i'r iaith Gymraeg yn ei holl ogoniant.

Mae sicrhau fod gwasanaethau iaith Gymraeg S4C yn ymateb i ddisgwyliadau'r gynulleidfa, ac yn cael eu gwerthfawrogi a'u defnyddio'n rheolaidd gan yr ystod ehangaf o bobl yn greiddiol i waith S4C.

Mae gan Fwrdd S4C ddyletswydd i sicrhau fod gwasanaethau S4C yn ymateb i anghenion ein cynulleidfa. Mae'r Bwrdd yn asesu perfformiad gwasanaethau S4C yn gyson, a chyflwynir yma asesiad perfformiad S4C yn erbyn fframwaith mesuryddion perfformiad a Blaenoriaethau Strategol S4C ar gyfer y cyfnod i ddiwedd Mawrth 2022.

Rhoddir arweiniad i weithgareddau S4C gan bedair blaenoriaeth strategol sydd wedi eu datblygu er mwyn rhoi cyfeiriad i waith S4C a sicrhau fod holl wasanaethau S4C yn ymateb i anghenion y gynulleidfa:

1: Darparu gwasanaeth poblogaidd o safon uchel, ar amrywiaeth o lwyfannau cyfoes, gan sicrhau fod y cynnwys ar gael i'w dderbyn a'i ddefnyddio unrhyw amser, unrhyw le.

2: Dyfnhau ein hadnabyddiaeth o'r gynulleidfa, ei gofynion a'i barn am y gwasanaeth, a sicrhau bod hyn yn greiddiol i waith S4C.

3: Sicrhau perthynas effeithiol a chreadigol gyda chyflenwyr a phartneriaid eraill.

4: Parhau i sicrhau gwerth am arian a manteisio ar gyfleoedd masnachol.

Wrth asesu perfformiad gwasanaeth S4C, mae'n angenrheidiol ystyried ystod o ffactorau, gan gynnwys ffigyrau gwyltio ar deledu ac ar-lein, gwerthfawrogiad ac ymateb y gynulleidfa i'r cynnwys a rhaglenni, yr effaith ehangach y mae S4C a'r gwasanaeth yn llwyddo i'w gael, a'r gwerth a chefnogaeth y mae S4C yn gallu ei ddarparu i bartneriaid a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru.





Defnydd a Chyrhaeddiad

Defnydd a Chyrhaeddiad

Mesur ffigyrau gwyllo S4C

Mae mesur cynulleidfa S4C bellach yn cynnwys cyfiri gwylwyr ar lwyfannau teledu traddodiadol, yng Nghymru ac ar draws y DU, gwylwyr ar y prif lwyfannau ar-lein, S4C Clic a BBC iPlayer, ac yn ogystal rheini sy'n dewis gwyllo cynnwys S4C ar ystod eang o lwyfannau ar-lein, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol. Mae asesu'r gwyllo ar draws yr ystod eang o lwyfannau, ac ar ddyfeisiau yn hytrach na theledu yn unig, yn cynnig darlun mwy cynhwysfawr o ddefnydd o'n holl wasanaeth.

Er mwyn sicrhau darlun cynhwysfawr am holl wyllo S4C, mae'n bwysig ystyried data ar gyfer gwyllo teledu a gesglir gan BARB ynghyd ag ystadegau gwyllo S4C Clic a BBC iPlayer ac ar ein holl lwyfannau cymdeithasol.

Defnyddir 'cyrhaeddiad' gwasanaeth teledu fel y dull o fesur y gynulleidfa. Cyrhaeddiad yw'r term a ddefnyddir ar gyfer nodi faint o bobl unigol sy'n gwyllo gwasanaethau S4C ar deledu (a lle nodir hynny ar lwyfannau eraill) dros gyfnod penodol. Mae'r mesur cyrhaeddiad safonol yn gyfyngedig i fesur gwyllo ar deledu ac felly nid yw'r data cyrhaeddiad ar gyfer gwyllo teledu a nodir isod yn cynnwys defnydd ar-lein o gynnwys S4C ar lechen, gliniadur na ffôn.

Mae'r asesiad o wyllo ar deledu yn seiliedig ar fesur cyrhaeddiad wythnosol 3 munud safonol BARB, sef y mesur mwyaf addas ar gyfer gwasanaeth teledu S4C, fel sianel llinol gydag amserlen amrywiol yn ystod y flwyddyn, a sianel sy'n darlledu hysbysebion. Rydym yn cyhoeddi ac yn cadw llygad ar feini prawf cyrhaeddiad eraill, yn ogystal â chyfartaledd oriau gwyllo S4C ar deledu ac ar S4C Clic a BBC iPlayer.

Mae'r defnydd a wneir o gynnwys S4C ar lwyfannau digidol yn ystyriaeth bwysig, ac felly adroddir ar y defnydd hwn hefyd gan ddefnyddio mesuryddion safonol.

Effaith Covid

Roedd y flwyddyn adrodd 2020-21 yn un anarferol, gyda nifer o gyfnodau clo estynedig mewn ymateb i'r pandemig Covid-19. Roedd tueddiadau gwyllo felly'n wahanol yn ystod y cyfnod hwnnw.

Wrth adrodd ar defnydd a chyrhaeddiad gwasanaethau S4C yn ystod 2021-22, rydym yn darparu'r ffigyrau cyffelyb ar gyfer 2020-21 yn ogystal â 2019-20, er mwyn cynnig cymhariaeth yn erbyn y flwyddyn flaenorol, a'r flwyddyn cyn i Covid ddylanwadu ar y data. Mae hyn yn rhoi darlun mwy cynhwysfawr o'r tueddiadau gwyllo.



Ar deledu

9.4 miliwn

9.4 miliwn o bobl wylodd S4C drwy'r DU ar ryw adeg yn 2021-22 (2020-21: 11.3 miliwn; 2019-20: 11.5 miliwn)

602,000

602,000 o bobl wedi gwyllo S4C ar deledu bob wythnos drwy'r DU (2020-21: 725,000; 2019-20: 702,000)

300,000

300,000 o bobl yng Nghymru wedi gwyllo S4C ar deledu bob wythnos (2020-21: 314,000; 2019-20: 306,000)

17,400

17,400 oedd cynulleidfa S4C ar gyfartaledd yn yr oriau brig (2020-21: 20,200; 2019-20: 18,600)



Ar-lein

11.3 miliwn

11.3 miliwn o sesiynau gwyllo ar S4C Clic a BBC iPlayer (2020-21: 11.0 miliwn; 2019-20: 8.2 miliwn)

2.98 miliwn

2.98 miliwn o oriau gwyllo ar S4C Clic a BBC iPlayer (2020-21: 2.67 miliwn; 2019-20: 2.14 miliwn)

271,935

271,935 o gofrestrwyr S4C Clic erbyn diwedd 2021-22 (2020-21: 209,407; 2019-20: 106,985)

70%

70% o sesiynau S4C Clic wedi dod o Gymru, 29% o weddill y DU a 1% o dramor



Ar y Cyfryngau Cymdeithasol

209 miliwn

209 miliwn o argraffiadau ar ein cynnwys ar Facebook, Twitter, ac Instagram

12 miliwn

Dros 12 miliwn yn ymwneud ag S4C ar draws ein cyfrifon Facebook, Twitter, ac Instagram

366,300

366,300 o oriau gwyllo ar draws ein sianeli YouTube (2020-21: 322,800; 2019-20: 217,900)



Y gynulleidfa'n gwyllo cynnwys S4C ar y llwyfan o'u dewis

Mae S4C yn gweld tueddiadau gwyllo tebyg i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yn y DU, gyda nifer gynyddol yn gwyllo ar alw neu ar lwyfannau eraill, ar draul y gwasanaeth teledu llinol, traddodiadol.

Yn ystod 2021-22, fe wylodd 1.6 miliwn gynnwys S4C ar deledu yng Nghymru ar ryw bwynt, a 300,000 yng Nghymru wedi ein gweld rhyw ben yn wythnosol. Mae hyn yn ostyngiad dros y flwyddyn ddiwethaf o 4% yn y cyrhaeddiad wythnosol a 7% yn ein cyrhaeddiad blyneddol.

Yn sgil effaith y cyfnodau clo Covid ar ffigurau 2020-21, mae'n werth cymharu hefyd gyda'r ffigurau cyn y pandemig. O gymharu'r flwyddyn ddiwethaf gyda 2019-20, bu lleihad o 11% ar sail cyrhaeddiad blyneddol ond gostyngiad o ddim ond 2% yng nghyrrhaeddiad wythnosol ein cynnwys ar deledu yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol gyda'r cwmp o 12% yng nghyrrhaeddiad wythnosol y pump darlledwr gwasanaeth cyhoeddus arall ar gyfartaledd yng Nghymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Lleded y DU, gwylodd 9.4 miliwn gynnwys S4C ar deledu ar ryw adeg yn ystod 2021-22. Serch hynny, mae cyrhaeddiad wythnosol S4C wedi gostwng 14% ers 2019-20, a chyrhaeddiad blyneddol 18% dros yr un cyfnod.

Ar yr un pryd, mae'r defnydd o'n llwyfannau eraill yn parhau i gynyddu.

Mae'r defnydd o S4C Clic a BBC iPlayer yn parhau i dyfu o flwyddyn i flwyddyn. Yn gyffredinol, bu cynnydd o 12% yn yr oriau a wylwyd ar S4C Clic a BBC iPlayer yn ystod 2021-22, a chynnydd o 39% yn erbyn 2019-20. Ac ar YouTube, bu cynnydd sylweddol iawn o 68% yn nifer yr oriau a wylwyd ar draws sianeli amrywiol S4C ers 2019-20. Mae hyn oll yn amlygu'r angen i S4C fod ar gael ar nifer cynyddol o lwyfannau wrth i'r gynulleidfa ddisgwyl medru ein canfod ar draws yr holl gyfryngau traddodiadol, ar-alw a chymdeithasol.


Ffigurau gwyllo S4C ar deledu

Mae'r graffiau isod yn nodi cyrhaeddiad (ar deledu) gwasanaeth S4C ar sail wythnosol a blyneddol, yn ogystal â chynulleidfa S4C ar gyfartaledd yn yr oriau brig. Mae'r canrannau a ddyfynnwyd yn dangos y newid o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

● DU ● Cymru ● Tu allan i Gymru ● Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru
■ Cyfnodau Clo Covid


Cyrhaeddiad wythnosol (o leiaf 3 munud olynol)

(Ffynhonnell: BARB)



Cyrhaeddiad blyneddol (o leiaf 3 munud olynol)


(Ffynhonnell: BARB)



* Mae cyrhaeddiad 2020-21 wedi ei addasu o'r hyn ymddangosodd yn Adroddiad Blyneddol 2020-21 oherwydd cam-briodoli gwyllo arall i ddarllediadau dros nos S4C gan BARB. Daeth hyn i sylw S4C yn ystod hydref 2021.

Cynulleidfa ar gyfartaledd yn ystod yr oriau brig (7pm-10pm)

(Ffynhonnell: BARB)





Gwelir yn glir yn y rhestr isod pwysigrwydd cynnig 'profiadau byw', sy'n denu cynulleidfa ehangach i gynnwys S4C.

	Rhaglen	Genre	Dyddiad	Cyrhaeddiad
1	Sgorio Rhyngwladol: Cwpan y Byd (Cymru v Awstria)	Chwaraeon	24/03/2022	391,000
2	Sgorio Rhyngwladol: Cwpan y Byd: Grwpiau (Cymru v Gwlad Belg)	Chwaraeon	16/11/2021	277,000
3	Clwb Rygbi Rhyngwladol: Taith yr Haf (Ariannin v Cymru)	Chwaraeon	17/07/2021	216,000
4	Clwb Rygbi: Pencampwriaeth Unedig Rygbi (Leinster v Scarlets)	Chwaraeon	16/10/2021	188,000
5	Patrôl Pawennau	Plant	02/04/2021	173,000
6	Cwpan FA (Caerdydd v Preston North End)	Chwaraeon	09/01/2022	170,000
7	Clwb Rygbi: Cwpan Ewrop (Scarlets v Bryste)	Chwaraeon	22/01/2022	163,000
8	Sgorio Rhyngwladol: Gem Gyfeillgar (Ffrainc v Cymru)	Chwaraeon	02/06/2021	161,000
9	Yr Amgueddfa	Drama	04/07/2021	158,000
10	Rygbi: Cyfres y Cenedloedd (Uchafbwyntiau Cymru v Seland Newydd)	Chwaraeon	30/10/2021	148,000

Cyrhaeddiad DU ar sail 3 munud di-dor ar gyfer unrhyw ddangosiad o fewn 7 diwrnod i'r darllediad cyntaf. Rhestrir y rhaglen unigol uchaf yn unig o fewn cyfresi, gyda chwaraeon wedi eu gosod mewn cyfresi fesul cystadleuaeth.






Gwyllo S4C ar-lein

Gwelwyd cynnydd sylweddol o ran defnydd gwasanaethau ar-lein S4C ar draws y DU yn ystod 2021-22, gyda'r patrymau a oedd yn dod yn amlwg yn ystod 2020-21 yn parhau i ddatblygu wrth i S4C gynnig mwy o raglenni a chynnwys ar gyfryngau cymdeithasol megis YouTube - a dulliau newydd o gyflwyno'n cynnwys - megis dramâu fel boccs sets.

Oriau gwyllo ar S4C Clic a BBC iPlayer



(Ffynhonnell : S4C & BBC)


* Addaswyd y dull mesur yn ystod 2021 i eithrio rhai sesiynau gwyllo oedd yn amlwg yn rhy faith.

Yn cyfateb i'r hyn a wneir ar draws y diwydiant, mae oriau gwyllo S4C Clic a BBC iPlayer yn tybied fod 1.5 person yn gwyllo pob ffrwd ar deledu ac 1.0 person yn gwyllo pob ffrwd ar ddyfais arall (gliadiadur, llechen a ffôn clyfar).

Oriau gwyllo pob tudalen Facebook S4C



Oriau gwyllo pob sianel YouTube S4C




Gwasanaeth ac Ap Newyddion S4C

Lansiwyd Ap Newyddion S4C (NS4C) ar 06 Ebrill 2021. Mae'r defnydd o wasanaeth NS4C wedi tyfu'n sylweddol ers hynny.

Yn ystod 2021-22:

7,890	2.2 miliwn	160,000	1.5 miliwn
Cafodd Ap NS4C ei lawr-lwytho 7,890 gwaith	Bu 2.2m o 'page views' ar draws gwasanaethau NS4C:	Ymwelodd dros 160,000 â gwefan NS4C trwy ddolenni ar gyfryngau cymdeithasol:	Fe wnaeth dros 1.5m ymwneud â chynnwys NS4C ar Facebook a Twitter, ac fe gafwyd 19m o argraffiadau ar y cyfryngau cymdeithasol hynny
	1.5m ohonynt trwy'r Ap; a	145,000 trwy Facebook, a	
	0.7m ohonynt ar wefan NS4C	15,000 trwy Twitter	





Gwerthfawrogiad

Gwerthfawrogiad gwasanaethau S4C

Defnyddir mesur gwerthfawrogiad o raglenni S4C fel sail i fesur a gwerthuso ansawdd gwasanaeth S4C yn ei gyfanrwydd a genres penodol. Cyfeirir at y mesur hwn fel mesur "AI" (Appreciation Index) – sgôr allan o 100.

Mae trafodaethau am gynnwys S4C ar lwyfannau digidol hefyd yn fesur o werthfawrogiad y gynulleidfa. Mae'r mesur AI yn rhoi asesiad ansoddol o berfformiad rhaglenni ar y gwasanaeth teledu, ac yn cynorthwyo'r Bwrdd i asesu perfformiad gwasanaeth S4C yn ei gyfanrwydd ac o ran genres penodol.

Mae gwerthfawrogiad gwasanaeth S4C yn gyffredinol yn parhau i fod yn uchel iawn ymysg y gynulleidfa, ac yn enwedig ymysg gwylwyr sy'n siarad Cymraeg.


Rydym fodd bynnag yn cydnabod bod angen cynyddu ein hymdrechion i sicrhau bod S4C yn cynnig profiad unigryw i'r gynulleidfa nad oes modd iddynt ei gael yn unrhywle arall, ac fe fydd y Strategaeth newydd yn ceisio mynd i'r afael â hyn.

83

Gwerthfawrogiad gwasanaeth S4C ymysg gwylwyr sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru: 83 (2020-21: 82).

Y canlyniad cymharol ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yng Nghymru: 78 (2020-21: 78). (Ffynhonnell: TRP)


Canfu Arolwg Tracio Delwedd S4C fod gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg o'r farn fod:



2021/22 77%

2020/21 74%

Mae ansawdd rhaglenni Cymraeg yn gwella ar S4C



2021/22 45%

2020/21 51%

Mae S4C yn sianel sy'n rhoi profiad unigryw i mi na allaf ei gael yn unrhyw le arall

(Ffynhonnell: Arolwg Tracio Delwedd S4C - Gwylwyr sy'n siarad Cymraeg, Beaufort Research)





Sgoriau gwerthfawrogiad uchaf ar gyfer rhaglenni 2021-22

Mae'r rhestr isod yn nodi'r sgoriau gwerthfawrogiad gan siaradwyr Cymraeg i'r 10 cyfres neu rhaglen unigol uchaf a ddarlledwyd gyntaf yn ystod 2021-22 a hefyd cyfartaledd y genre perthnasol.

Mae'r rhestr yn cynnwys ystod eang o genres a rhaglenni sy'n dangos amrywiaeth y gwasanaeth a'r gwerthfawrogiad am y gwasanaeth a ddarperir.

Cyfres	AI	(+/-) Gwahaniaeth â'r Genre
Drych: Byw Heb Freichiau	91	+6
Cofio Mei Jones	91	+6
Cwmni Theatr Maldwyn yn 40	90	+5
Awr Fawr	90	+8
Stori Jimmy Murphy	89	+3
Laura McAllister: Gêm Gyfartal	89	+2
Dai Llanilar... O Sion a Siân i'r Sioe	89	+5
Cofio Dai Llanilar	89	+4
Drych: Jason Mohammad: Trelai, y Terfysg a Fi	89	+4
Zelensky: Arlywydd Mewn Rhyfel	89	+2

(Ffynhonnell / Source: TRP) (Yn seiliedig ar siaradwyr Cymraeg 16+, a gyda sampl o 25 neu'n fwy)





Gwerthfawrogiad

Tra bod y gynulleidfa yn parhau i deimlo bod S4C yn berthnasol i hunaniaeth Cymru a'i phobl, mae'r niferoedd sy'n teimlo bod S4C yn adlewyrchu bywyd modern yng Nghymru wedi lleihau yn ystod 2021-22. Serch hynny, mae'r sgôr gafodd S4C ar draws Cymru yn parhau'n uwch nag unrhyw ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus arall.

Rydym eisoes yn mynd ati i weithio gyda'r sector gynhyrchu i sicrhau bod cynnwys S4C yn parhau i adlewyrchu ein cymunedau yn eu holl amrywiaeth, ac yn dangos sut beth yw hi i fyw yng Nghymru.

Canfu Arolwg Tracio Delwedd S4C fod gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg o'r farn fod:



2021/22 85%



2020/21 79%

Mae S4C yn berthnasol i hunaniaeth Cymru a'i phobl

2021/22 68%

2020/21 75%

Mae S4C yn sianel sy'n adlewyrchu bywyd modern yng Nghymru



2021/22 62%

2020/21 74%

Mae S4C yn sianel sydd wedi fy addysgu mewn rhyw ffordd ynghylch Cymru a'i phobl

2021/22 70%

2020/21 79%

Mae S4C yn sianel sy'n dangos sut beth yw hi i fyw yng Nghymru

Byw Heb Freichiau


(Ffynhonnell: Arolwg Tracio Delwedd S4C - Gwylwyr sy'n siarad Cymraeg, Beaufort Research)



Mae S4C yn chwarae rhan bwysig o ran cefnogi a hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg.

Mae gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg yn datgan fod S4C yn cael effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymru ac ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg.


Canfu Arolwg Tracio Delwedd S4C fod gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg o'r farn fod:



2021/22 88%

2020/21 81%


Mae S4C yn bwysig ar gyfer yr iaith Gymraeg



2021/22 83%

2020/21 78%

Mae S4C yn gwneud i'r Gymraeg ymddangos yn fwy modern a pherthnasol



2021/22 87%

2020/21 83%

Mae S4C yn cefnogi'r Gymraeg trwy'i rhaglenni a'i chynnwys

(Ffynhonnell: Arolwg Tracio Delwedd S4C - Gwylwyr sy'n siarad Cymraeg, Beaufort Research)

Mae ymrwymiad cadarn S4C i ddarparu gwasanaethau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc – ar deledu, ar-lein ac mewn sioeau byw ledled Cymru yn parhau i gael ei werthfawrogi gan ein gwylwyr.

Canfu Arolwg Tracio Delwedd S4C fod gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg o'r farn fod:

Mae'n bwysig iawn fod gwasanaeth teledu Cymraeg ar gyfer plant ar S4C




2021/22



2020/21

(Ffynhonnell: Arolwg Tracio Delwedd S4C - Gwylwyr sy'n siarad Cymraeg, Beaufort Research)


Canfu Arolwg Tracio Delwedd S4C fod gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg o'r farn fod:



2021/22 75%

2020/21 71%

Mae S4C yn fy ngwneud yn fwy hyderus yn fy nefnydd o'r Gymraeg



2021/22 85%

2020/21 76%

Mae rhai rhaglenni Cymraeg ar S4C yn berthnasol i fi

(Ffynhonnell: Arolwg Tracio Delwedd S4C - Gwylwyr sy'n siarad Cymraeg, Beaufort Research)

Mae pobl sy'n dysgu Cymraeg, neu sydd â diddordeb mewn dysgu Cymraeg yn rhan bwysig o gynulleidfa S4C.



Gwerth am Arian

Gwerth am Arian

Blaenoriaethu gwariant ar raglenni a chynnwys - dosraniad gwariant S4C

Mae sicrhau Gwerth am Arian yn flaenoriaeth bwysig iawn i S4C.

Mae S4C yn anelu i sicrhau fod y canran uchaf posibl o incwm cyhoeddus S4C yn cael ei wario ar gynnwys sy'n gymharus o ran ansawdd gyda chynnwys rhaglenni rhwydwaith eraill y DU, tra'n sicrhau ar yr un pryd fod rhaglenni yn cael eu cynhyrchu yn y modd mwyaf effeithlon a bod cost gorbenion S4C yn parhau yn isel.

Gwerth am arian yw'r berthynas rhwng cost a pherfformiad S4C fel gwasanaeth ac fel sefydliad. Ar gyfer darlledwr cyhoeddus, mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth cynhwysfawr o safon uchel ar deledu a chyfryngau digidol sy'n cael ei ddefnyddio a'i werthfawrogi gan y gynulleidfa, gan wneud hynny mewn modd effeithlon o ran y defnydd o adnoddau ariannol.


Blaenoriaeth gyntaf S4C yw darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, ar deledu ac ar lwyfannau digidol perthnasol, sy'n cwrdd ag anghenion ei chynulleidfa. Mae hefyd yn bwysig i sicrhau fod y buddsoddiad yng ngwasanaethau S4C yn rhoi gwerth priodol am arian. Mae'n amcan strategol i sicrhau bod y ganran uchaf posibl o incwm cyhoeddus S4C yn cael ei wario ar raglenni a chynnwys.

Elfen arall o hyn yw sicrhau fod costau rhedeg sefydliad S4C yn parhau i fod yn ganran fechan o wariant S4C. Mae S4C wedi sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac ariannol dros y blynyddoedd diweddar gyda rhesymoli staffio, ystadau a thechnolegol. O ganlyniad, dim ond 3.2% o gyfanswm gwariant S4C yw gweinyddiaeth a gorbenion, gyda'r gweddill yn cefnogi creu a dosbarthu cynnwys.

Buddsoddir y rhan fwyaf o gyllid cyhoeddus S4C mewn rhaglenni a chynnwys.

Mae dyraniad gwariant Cronfa Gyhoeddus S4C yn ystod 2021-22 yn dangos fod mwyafrif gwariant S4C yn parhau i gael ei fuddsoddi'n uniongyrchol yn ei rhaglenni a'i chynnwys, sef buddsoddiad yn y ddarpariaeth ar gyfer y gynulleidfa a buddsoddiad yn y sector gynhyrchu yng Nghymru.

Costau'r gwasanaeth rhaglenni	78.2%
Costau'n ymwneud â darlledu a dosbarthiant	18.6%
Costau gweithredu a gweinyddu	3.2%



Ceir rhagor o wybodaeth am wariant S4C yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr yn y Datganiad Ariannol.



Bex



S4C yw un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mwyaf cost-ffeithlon yn y DU


Gwerth am Arian

Trwy weithio'n agos gyda chynhyrchwyr i leihau cost cynhyrchu pob awr o gynnwys, mae gan S4C record falch o gomisiynu rhaglenni cost-ffeithiol ac mae S4C wedi llwyddo i warchod nifer yr oriau a ddarlledwyd, yn ogystal ag ystod, amrywiaeth ac ansawdd y gwasanaeth. S4C yw un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mwyaf cost-ffeithlon yn y DU gyda chost yr awr yn sylweddol is na darlledwyr eraill, gan gomisiynu ar ffracsiwn (25-33% fel arfer) o'r cyfraddau genre tebyg a ddefnyddir gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill. Cadarnheir hyn gan astudiaeth 2021 Arad lle tynnodd cwmnïau cynhyrchu sylw at y gwerth da am arian a ddarperir gan gynyrchiadau S4C ac adrodd bod cyllidebau ar gyfer cynhyrchu allbynnau S4C yn sylweddol is nag ar gyfer darlledwyr eraill.

Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod cost gwneud rhaglenni yn cynyddu, gyda gwariant byd-eang ar rai genres, yn enwedig drama wedi'i sgriptio, yn codi i lefelau digynsail. Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar gyllidebau'r dyfodol wrth i ni gystadlu am dalent ar a thu ôl i'r sgrin. Mae tueddiadau diweddar yn y diwydiannau creadigol hefyd wedi cael effeithiau chwyddiant ar gostau cynhyrchu.

Unwaith eto yn ystod 2021-22, roedd angen gohirio darlledu rhai rhaglenni oherwydd Covid-19, tra bod peth cynnwys oedd yn wreiddiol wedi ei gynllunio ar gyfer 2020-21 wedi cael ei ddarlledu. Felly, mae'r cymysgedd o raglenni a ddarlledwyd yn ystod 2021-22 yn wahanol iawn i'r blynyddoedd cynt. Mae hyn yn ogystal â'r newid i statws TAW S4C wedi arwain at ostyngiad neu gynydd sylweddol mewn cost yr awr rhai genres, yn enwedig drama, celfyddydau, a chrefydd.

Cost yr awr - rhaglenni a gomisiynwyd gan S4C (ag eithrio cynnwys digidol)



Adroddiadau Gweithredol 2021-22



Partneriaeth S4C gyda'r BBC

Mae S4C a'r BBC wedi gweithio mewn partneriaeth ers sefydlu S4C yn 1982, ac ers 2013, mae mwyafrif cyllid cyhoeddus S4C wedi dod o ffi'r drwydded.

Mae'r bartneriaeth hon yn rhoi'r cyfle i rannu adnoddau ac arbenigedd i wella cyflenwi, gyrru effeithlonrwydd a gwerth am arian trwy gydweithredu, a chydweithio i sicrhau'r amlygrwydd mwyaf posibl a chydgrynhoi dylanwad mewn marchnad fyd-eang.

Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd S4C a'r BBC Gytundeb Partneriaeth, Cyllid ac Atebolrwydd newydd, a nododd ein hymrwymiad i weithio gyda'n gilydd i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith trwy gydol Siarter Frenhinol y BBC tan ddiwedd 2027.

Mae'r bartneriaeth gyfredol yn rhychwantu'r meysydd canlynol:

Cyflenwi rhaglenni

Ers 1982, mae BBC Cymru Wales wedi darparu nifer o gonglfeini gwasanaeth S4C, gan gynnwys Pobol y Cwm, y ddarpariaeth newyddion, peth ddarpariaeth chwaraeon a darllediadau cynhwysfawr o'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r ddarpariaeth yma, sy'n seiliedig ar ymrwymiad statudol, yn gofyn i'r BBC ddarparu lleiafswm o 10 awr yr wythnos o raglenni am ddim ar gyfer S4C (felly lleiafswm o 520 o oriau'r flwyddyn). Mae'r ystod o raglenni o fewn y ddarpariaeth hon sy'n cael ei chytuno rhwng S4C a'r BBC bob blwyddyn, yn rhan bwysig o amserlen S4C bob wythnos o'r flwyddyn. O dan y Cytundeb Partneriaeth rhwng y BBC ac S4C, gwerth ariannol ddarpariaeth y BBC yw £19.4m y flwyddyn.

Creadigol

Mae'r ddau ddarlledwr yn cydweithredu'n rheolaidd i ddarparu mwy o werth i gynulleidfaoedd Cymraeg. Yn ystod 2021-22, parhaodd S4C gyda'r bartneriaeth hon ar gyd-gynyrchiadau drama dwyieithog megis Craith / Hidden.

Technoleg a llwyfannau

Mae presenoldeb rhaglenni S4C ar y BBC iPlayer yn parhau i fod yn ddull pwysig iawn o gynnwys ein cynnwys i gynulleidfa eang. Mae'r iPlayer yn rhoi presenoldeb i S4C ar draws ystod fawr o ddyfeisiau na fyddent fel arall ar gael i S4C a chynnydd sylweddol o ran gwyllo ei chynnwys ar-lein.

Rydym hefyd yn falch bod S4C, drwy ein partneriaeth â'r BBC, wedi dod ar gael yn ddiweddar mewn Manyllder Uwch (HD) ar Freeview yng Nghymru. Ad-drefnodd y BBC ei chapasiti HD mewn cysylltiad ag ail-lansio BBC Three ar y teledu. Cytunodd i ddyrannu capasiti HD ar gyfer S4C yng Nghymru, gan gydnabod pwysigrwydd fideo o ansawdd HD i wylwyr S4C fel gwasanaeth Cymraeg.

Cytleoli gwasanaethau darlledu technegol

Ers mis Ionawr 2021, mae S4C wedi cyd-leoli ei gweithgareddau darlledu a thechnegol gyda BBC Cymru Wales yn Sgwâr Canolog, Caerdydd. Trwy gyfuno timau a gweithrediadau, disgwylir i hyn sicrhau effeithlonrwydd gweithredol i'r ddau ddarlledwr.

Y bartneriaeth ariannu ac atebolrwydd

Yn ystod y flwyddyn, darparodd S4C Adroddiadau Atebolrwydd Ariannol chwe-misol i bwyllgor Archwilio'r BBC i gadarnhau bod yr arian a dderbyniwyd o ffi'r drwydded wedi'i ddefnyddio yn unol â chylch gwaith statudol S4C.



◀
Stad

◀
BBC Cymru Wales, Sgwâr Canolog,
Caerdydd

Adroddiad Cynaliadwyedd

O flwyddyn adrodd 2021-22 ymlaen, mae'n ofynnol i S4C gynhyrchu Adroddiad Cynaliadwyedd blynyddol. Dyma'r adroddiad cyntaf o'i fath, a'n bwriad yn y dyfodol yw cynnwys cymhariaeth o berfformiad ar wahanol fesuryddion cynaliadwyedd o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol.

Nid yw S4C yn cynhyrchu ei chynnwys ei hun. Ers mis Medi 2021, rydym wedi ffurfio partneriaeth â chonsortium albert BAFTA, ac rydym yn gweithio gyda'n cyflenwyr i sicrhau bod cynnwys yn cael ei gynhyrchu'n gynaliadwy ac yn cael cyn lleied o effaith â phosibl ar yr amgylchedd.

Roedd S4C yn un o 12 o ddarlledwyr a ffrydiwyr ddaeth ynghyd yn ystod Tachwedd 2021 i ymrwmo i'r Addewid Cynnwys Hinsawdd, oedd wedi ei drefnu gan albert. Rydym wedi ymrwmo i ddefnyddio ein cynnwys i helpu cynulleidfaoedd i ddeall beth allai mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ei olygu iddynt hwy, yn ogystal ag ysbrydoli a llywio dewisiadau cynaliadwy.

O ran gweithrediadau corfforaethol S4C, mae adleoli ein pencadlys i Ganolfan S4C Yr Egin - a sicraodd dystysgrif Rhagorol BREEAM ar gyfer cynaliadwyedd - a chydleoli ein gweithrediadau technoleg darlledu gyda BBC Cymru Wales yn eu pencadlys yn y Sgwâr Canolog, wedi arwain at lai o ddefnydd o ynni ac allyriadau.

Mae'r data gyferbyn yn ymwneud ag allyriadau a defnydd S4C yn Yr Egin yn ystod cyfnod a oedd yn cynnwys cyfyngiadau cenedlaethol mewn ymateb i bandemig Covid-19, a oedd yn cynnwys gofyniad bod staff yn gweithio gartref lle'n bosib. Felly, rydym yn disgwyl y bydd y ffigurau cymharol ar gyfer 2022-23 yn uwch, gan adlewyrchu ailddechrau cynnal arferion busnes arferol.

Allyriadau nwyon tŷ gwydr			
		2021-22	Mesur
Cwmpas 1 - Allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol	Cyfanswm allyriadau gros Cyrhaeddiad 1	19	tCO2e
	Allyriadau o:		
	Nwy	19	tCO2e
	Olew	0	tCO2e
	Tanwydd (gan gynnwys LPG)	0	tCO2e
Cwmpas 2 - Allyriadau anuniongyrchol o ynni	Cyfanswm allyriadau gros Cyrhaeddiad 2	8	tCO2e
	Allyriadau o:	Trydan	8
			tCO2e
Cwmpas 3 - Allyriadau teithio swyddogol	Cyfanswm allyriadau gros Cyrhaeddiad 3	18	tCO2e
	Allyriadau o:	Teithio busnes domestig a rhyngwladol	18
			tCO2e

Defnydd o ynni			
		2021-22	Mesur
Cyfanswm Trydan		8,000	kWh
Trydan	Adnewyddadwy	7,000	kWh
	Dim modd ei adnewyddu	1,000	kWh
Nwy		19,000	kWh
LPG		0	kWh
Arall		0	kWh

Gwastraff			
		2021-22	Mesur
Cyfanswm y gwastraff a waredwyd		1.00	tunnell
Gwaredu gwastraff peryglus		0.00	tunnell
Gwaredu gwastraff nad yw'n beryglus	Tirlenwi	0.00	tunnell
	Ailgylchu	1.00	tunnell
	Gwastraff TGCh wedi'i ailgylchu, ei aildefnyddio a'i adfer (allanol)	0.00	tunnell
	Compostio	0.00	tunnell
	Llosgi gan adfer ynni	0.00	tunnell
	Llosgi heb adfer ynni	0.00	tunnell

Defnydd o Adnoddau Cyfyngedig			
		2021-22	Mesur
Y defnydd o ddŵr (Y stad swyddfeydd)	Cyflenwyd	52	m3
	Tynnwyd	0	m3
	Casglwyd	0	m3
Y defnydd o ddŵr (Y stad heblaw swyddfeydd)	Cyflenwyd	0	m3
	Tynnwyd	0	m3
	Casglwyd	0	m3
Defnydd papur - A4	Cyflenwyd	40	Pentyrrau o bapur
Defnydd papur - A3	Cyflenwyd	0	Pentyrrau o bapur

Cerbydau			
		2021-22	Mesur
Cyfanswm Cerbydau (Dan berchnogaeth, wedi'u llogi a dan brydles)		20	Nifer y cerbydau
% y cerbydau a gategoreiddiwyd fel Cerbydau Allyriadau Isef lawn (ULEV)		0	% o gerbydau

Ystâd S4C

Gydag effaith Covid-19 yn parhau, roedd hon yn flwyddyn anghyffredin arall gyda'r mwyafrif o'n staff yn gweithio gartref am ran helaeth o'r flwyddyn, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Roedd sicrhau y gallai darlledu barhau yn flaenoriaeth allweddol drwy gydol 2021-22. Wrth i gyfyngiadau Covid gael eu codi'n raddol, dechreuodd staff ddychwelyd i'n swyddfeydd, gyda mesurau Covid priodol ar waith yn unol â'n hasesiadau risg.

Wrth i ni ailagor ein swyddfeydd yn llawn yn dilyn Covid, rydym wedi mabwysiadu Polisi Gweithio Hybrid sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd i'n staff rannu eu hamser rhwng gweithio yn y swyddfa a gweithio o bell, yn amodol ar ddiwallu anghenion y busnes.

Bellach mae gan S4C bresenoldeb ar draws tri lleoliad.

Caerfyrddin

Mae pencadlys S4C yng Nghanolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin, o dan brydles tymor hir gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae tua 77 aelod o staff S4C wedi eu lleoli yn Yr Egin a chynhelir cyfarfodydd o'r Bwrdd Unedol a'i bwyllgorau yno fel arfer. Mae ein pencadlys hefyd yn gartref i ystod o gwmnïau sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol ac yn lleoliad ar gyfer gweithgareddau creadigol, gan gynnwys ffilmio rhai o raglenni S4C.

Canfu astudiaeth gan Ymchwil Arad yn 2021 fod adleoli S4C i'r Egin wedi arwain at ystod o effeithiau economaidd mesuradwy ar Sir Gaerfyrddin. Dywedodd Arad fod S4C wedi creu effaith economaidd o £18.2m yn economi Sir Gaerfyrddin yn 2019-20, gan gynnwys effaith uniongyrchol o £14.0m drwy wariant S4C ar nwyddau, gwasanaethau a chyflogau (gan gynnwys gweithwyr llawrydd) yn yr ardal.

Caerdydd

2021-22 oedd y flwyddyn lawn gyntaf o ddarlledu cynnwys S4C o Sgwâr Canolog, Caerdydd, o dan ein partneriaeth â BBC Cymru Wales yn dilyn cyd-leoli gwasanaethau darlledu technegol y ddau ddarlledwr. Ochr yn ochr â'r cytundeb gwasanaethau technegol, mae S4C wedi cytuno trwydded gyda'r BBC i feddiannu gofod swyddfa ac ystafell gyfarfod yn y Sgwâr Canolog. Mae tua 30 aelod o staff S4C wedi eu lleoli yno fel arfer.

Mae un o is-gwmnïau masnachol S4C (S4C PTG Cyf) bellach yn berchen ar hen bencadlys a safle darlledu S4C ym Mharc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd. Mae hwn yn cael ei osod fel swyddfeydd ac unedau i ystod o denantiaid, fel y disgrifir ymhellach yn yr adran ar weithgareddau masnachol S4C.

Caernarfon

Mae presenoldeb pwysig S4C yn y gogledd yn parhau, gyda swyddfa yn Noc Fictoria, Caernarfon, dan brydles tan 2028. Mae'r swyddfa yn gartref i 17 aelod o staff.

Gweithgareddau Masnachol S4C

Mae S4C Masnachol - adain fasnachol S4C (sydd ar wahân i arian cyhoeddus S4C) - yn gyfrifol am amrywiaeth o weithgareddau a buddsoddiadau masnachol sydd â'r nod o greu ffrwd incwm gynaliadwy ychwanegol ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus S4C.

Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys gwerthu hysbysebion a nawdd ar wasanaethau S4C (trwy weithio gyda Sky Media, asiant hysbysebu S4C), trwyddedu nwyddau ar gyfer brandiau fel Cyw a buddsoddi mewn portffolio buddsoddi cytbwys. Ar hyn o bryd, mae'r portffolio hwn yn cynnwys:

- buddsoddiadau ecwiti mewn cwmnïau sy'n gweithredu yn y sectorau cynnwys a digidol;
- buddsoddi yn ystâd Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, a gosod swyddfeydd ac unedau i amrywiaeth o denantiaid;
- cronfeydd buddsoddi a reolir gan reolwr cronfa allanol.

Mae gweithgareddau masnachol S4C yn cyfrannu oddeutu £1m y flwyddyn ar gyfartaledd i gronfa gwasanaeth cyhoeddus S4C. Er yn ganran fechan o holl incwm S4C, mae'n gyfraniad ariannol pwysig sy'n galluogi S4C i fuddsoddi mewn cynnwys a gwasanaethau na fyddai modd fel arall eu darparu. Mae'r arian sy'n cael ei ddal yng nghronfa fasnachol S4C yn arian sydd wedi cael ei gynhyrchu gan weithgareddau masnachol y S4Cyn y gorffennol.

Asedau net yr adain fasnachol ar 31 Mawrth 2022 oedd £20m (31 Mawrth 2021: £19.7m) a'r elw ar weithgareddau cyffredin cyn trethiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 oedd £1.05m (31 Mawrth 2021: £3.15m).

Argymhellodd yr Adolygiad Annibynnol o S4C (Creu S4C ar gyfer y dyfodol) a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 y dylai'r Llywodraeth ddiwygio'r gofynion cymeradwyo presennol er mwyn cynnig rhagor o ryddid i S4C fuddsoddi a chynhyrchu refeniw masnachol. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth y DU, gyda'r bwriad o ddiwygio'r fframwaith presennol yn y Mesur Cyfryngau sydd ar ddod.

Yn 2022-23, byddwn yn cynnal adolygiad o'n strategaeth fasnachol. Byddwn yn gwerthuso'r ffordd orau o ddefnyddio ein pwerau a'n hadnoddau masnachol i gefnogi dibenion craidd diwygiedig S4C, ac yn adnabod sut y gallwn greu gwerth ychwanegol o fewn y marchnadoedd presennol.

Bwrdd Masnachol S4C

Mae Bwrdd Masnachol S4C yn gyfrifol am oruchwylio gweithgareddau masnachol S4C. Mae'r rhain yn cynnwys gwerthiant hysbysebion a nawdd, buddsoddiadau masnachol a datblygu strategaeth fasnachol S4C ar gyfer y dyfodol.

Penodir aelodau'r Bwrdd Masnachol gan Fwrdd S4C.

Aelodau o Fwrdd S4C sy'n aelodau o'r Bwrdd Masnachol

Cynrychiolir Bwrdd S4C ar fwrdd Grŵp Masnachol S4C gan dri aelod anweithredol sy'n cael eu penodi'n fel cyfarwyddwyr anweithredol yr is-gwmnïau sy'n eiddo llwyr i S4C:

Anita George

Adele Gritten (o 01 Ebrill 2021)

Chris Jones (o 01 Ebrill 2021)

Cyfarwyddwyr Eraill

Mae'r swyddogion S4C canlynol hefyd wedi gweithredu fel cyfarwyddwyr masnachol i is-gwmnïau S4C yn ystod y flwyddyn:

Siân Doyle (o 09 Chwefror 2022)

Owen Evans (tan 31 Rhagfyr 2021)

Sharon Winogorski

Gwasanaethodd **David Sanders** a **Gwyn Roberts** fel cyfarwyddwyr anweithredol annibynnol yn ystod y flwyddyn.



Adolygiad Annibynnol o S4C

Ym mis Mawrth 2018 cyhoeddwyd Adolygiad Annibynnol o S4C – Creu S4C ar gyfer y dyfodol – a baratowyd ar gyfer yr Adran Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) gan Euryrn Ogwen Williams ynghyd ag ymateb Llywodraeth y DU iddo. Dyma benllanw proses o drafod dyfodol S4C, gan gynnwys ei chylch gorchwyl a'i strategaeth ar gyfer y dyfodol a nifer o faterion strwythurol.

Croesawodd S4C yr Adolygiad, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth i'r argymhellion. Ers hynny, mae S4C wedi bod wrthi'n gweithredu'r argymhellion ac mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r DCMS a phartneriaid allweddol eraill, a darperir y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd isod.

Yn ystod y cyfnewid hwn, mae S4C yn parhau'n ddifodol a chymhellu'r gweithredwr i'r holl bwyntiau a'r holl bwyntiau. Mae S4C yn parhau'n ddifodol a chymhellu'r gweithredwr i'r holl bwyntiau a'r holl bwyntiau. Mae S4C yn parhau'n ddifodol a chymhellu'r gweithredwr i'r holl bwyntiau a'r holl bwyntiau.

Argymhelliad	Cynnydd
1	Ar 28 Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y Papur Gwyn 'Up next - the government's vision for the broadcasting sector', a oedd yn nodi bwriad i ddeddfu i ddiweddarau cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C.
Dylai'r llywodraeth ddiweddarau cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C i gynnwys gwasanaethau digidol ac ar-lein, a chael gwared ar y cyfyngiadau darlledu daearyddol presennol. Bydd hyn yn caniatáu S4C i ehangu ei gornelion a chynnig cynnwys ar ystod eang o lwyfannau newydd drwy'r Deyrnas Unedig a thu hwnt.	Gobeithiwn y bydd digon o amser seneddol ar gael yn ystod sesiwn 2022-23 i ganiatáu i ddeddfwriaeth briodol gael ei chyflwyno.
2	Cymeradwyodd Bwrdd S4C £3m tuag at raglen ddigidol newydd ym mis Mehefin 2018. Mae'r rhaglen yn cwmpasu buddsoddi mewn cynnwys digidol newydd, buddsoddi mewn seilwaith digidol, a thîm digidol pwrpasol o fewn S4C i arwain y datblygiad digidol. Fe barhaodd Bwrdd Prosiect Digidol i gwrdd yn ystod 2021-22 i lywio'r rhaglen ac olrhain cynnydd.
Dylai S4C sefydlu hwb digidol mewnol i ddatblygu a gwella ei dylanwad digidol, yn ogystal â chreu sylfaen i glwstwr digidol yn y Gymraeg.	Gwnaed cynnydd pellach yn ystod 2021-22, gan gynnwys gwella S4C Clic. Ers mis Mehefin 2019, pan gyflwynwyd mewngofnodi gorfodol ar gyfer S4C Clic ar y mwyafrif o ddyfeisiau, rydym wedi cynyddu nifer ein defnyddwyr cofrestredig yn raddol. Erbyn Mawrth 2022 roeddem wedi cyrraedd dros 272,000 o ddefnyddwyr cofrestredig, cynnydd o 36% ar y flwyddyn flaenorol. Mae hyn bellach yn galluogi S4C i ddeall anghenion gwylwyr yn well, darparu gwasanaeth mwy cynhwysfawr a phwrpasol, a chyfathrebu gyda gwylwyr fel unigolion.
3	Mae S4C Clic yn rhoi profiad cyfoethocach i'r gywliwr gyda'n gallu i ddarparu is-deitlau yn y Gymraeg a'r Saesneg, dramâu unigryw a bocs sets Cymraeg, a 'chategoriâu' pwrpasol gyda chynnwys wedi ei guradu ar gyfer cynulleidfaoedd penodol fel dysgwyr Cymraeg a phlant a gwylwyr iau.
Dylai S4C sefydlu partneriaeth iaith gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i helpu i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.	Yn ogystal â thrawsnewid ein llwyfan S4C Clic ein hunain, rydym yn parhau i arloesi ar lwyfannau cyfryngau byd-eang er mwyn sicrhau bod cynnwys S4C ar gael drwy lwyfannau perthnasol wrth i dueddiadau newid. Gellir gwyllo cynnwys ar alw S4C, yn bennaf, ar S4C Clic a'r BBC iPlayer, â chynnwys dethol hefyd ar sianeli cyfryngau cymdeithasol. Mae ap S4C ar gael bellach ar nifer gynyddol o lwyfannau eraill, gan gynnwys iOS, Android, y we, Amazon Fire, ac Xbox, a rhai modelau o setiau teledu a bocsys digidol. Rydym hefyd yn adnewyddu'r llwyfannau presennol i fersiwn diweddaraf S4C Clic, ynghyd â lansio ar lwyfannau ychwanegol.
	Yn ystod 2021-22, fe barhaodd S4C i weithredu'r Strategaeth Partneriaeth a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mehefin 2018. Cefnogi dysgwyr, plant ac addysg yw prif themâu y partneriaethau hyn.
	Mae S4C a Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio i sicrhau bod gwybodaeth a chyfleoedd yn cael eu rhannu ac i gefnogi'r nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
	Ym mis Rhagfyr 2021, llofnododd S4C a Chymru Greadigol Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth a oedd yn nodi sut y bydd y ddau sefydliad yn gweithio mewn partneriaeth. Un o'n huchelgeisiau cyffredin fydd hyrwyddo'r Gymraeg a gwneud y defnydd gorau o gynnwys a chomisiynau S4C i gefnogi strategaeth Cymraeg 2050.
	Mae partneriaeth S4C gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar gynnwys ac arlwy S4C Clic i ddsysgwyr sy'n oedolion hefyd yn parhau. Mae S4C wedi bod wrthi'n datblygu ei pherthynas â Chyngor Llyfrau Cymru, ac mae'n parhau i weithio'n agos gyda Mudiad Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, Y Coleg Cymraeg, y Mentrau Iaith a'r Eisteddfod Genedlaethol.

4
Dylai S4C gael ei hariannu'n gyfan gwbl gan ffi'r drwydded o 2022/23 ymlaen, gyda'r holl benderfyniadau ariannu yn y dyfodol yn cael eu gwneud fel rhan o'r trafodaethau am setliad ariannu ffi drwydded y BBC.
5
Dylai'r llywodraeth ystyried diwygio'r gofynion cymeradwyo presennol i roi mwy o ryddid i S4C i fuddsoddi a chynhyrchu refeniw masnachol.
6
Dylid dîsodli Awdurdod S4C gyda Bwrdd Unedol newydd sy'n cynnwys cyfarwyddwyr gweithredol a chyfarwyddwyr anweithredol.
7
Dylai'r llywodraeth ystyried a yw trefniadau archwilio ariannol presennol S4C yn addas, gan gynnwys a fyddai'n briodol penodi'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn archwilydd allanol S4C.

Ar wahoddiad yr Ysgrifennydd Gwladol, cyflwynodd S4C gais cyllido i'r DCMS ym mis Mawrth 2021, i'w ystyried fel rhan o'r broses ddiweddaraf o bennu ffi'r drwydded.

Ar 17 Ionawr 2022, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol ei Phenderfyniad Terfynol a chadarnhaodd y byddai incwm grant S4C o ffi'r drwydded a'r DCMS yn cael ei gyfuno o 01 Ebrill 2022, gyda £7.5m y flwyddyn yn ychwanegol o ffi'r drwydded i gefnogi datblygiad digidol S4C. Bydd S4C yn derbyn cyfanswm o tua £88.85m o gyllid ffi'r drwydded ar 01 Ebrill 2022.

Disgwylir i'r swm hwn gynyddu'n flynyddol yn unol â'r raddfa chwyddiant CPI o 01 Ebrill 2024, tan ddiwedd cyfnod setliad ffi'r drwydded gyfredol (31 Mawrth 2028).

Mae S4C wedi datblygu a mabwysiadu strategaeth fasnachol a threfniadau llywodraethiant newydd, sydd wedi eu cynllunio er mwyn manteisio'n llawn ar gyfleoedd masnachol S4C, yn unol â'r arweiniad a roddwyd gan yr Adolygiad o S4C.

Mae trafodaethau adeiladol gyda'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi parhau yn ystod 2021-22 mewn perthynas â diweddarau cylch gwaith masnachol S4C. Yn y Papur Gwyn ar ddarlledu a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022, dywedodd y Llywodraeth y byddai'r Mesur Darlledu'n cynnig mwy o eglurder i S4C ar ei gallu i fuddsoddi a chynhyrchu refeniw masnachol.

Mae S4C wedi cyflwyno trefniadau dros-dro er mwyn gweithredu'r argymhellion llywodraethiant o fewn y darpariaethau statudol presennol. Yn hydref 2018, cymeradwyodd y Bwrdd Reolau Sefydlog newydd sy'n rhoi y Bwrdd Unedol cysgodol mewn lle, ac arhosodd y rhain mewn grym yn ystod 2021-22. Bydd y Bwrdd Unedol cysgodol yn parhau i weithredu nes y bydd deddfwriaeth er mwyn cadarnhau'r newidiadau arfaethedig ac addasu fframwaith llywodraethiant S4C yn ffurfiol mewn statud.

Mae'r Bwrdd Unedol cysgodol yn cynnwys aelodau anweithredol y Bwrdd a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ynghyd â'r Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredu a'r Prif Swyddog Cynnwys. Ym mis Chwefror 2021, croesawyd tri aelod anweithredol newydd i'r Bwrdd gyda'r pedwerydd yn ymuno o fis Ebrill 2021.

Ceir rhagor o wybodaeth yn yr Adroddiad Llywodraethiant, a Rheolau Sefydlog diwygiedig S4C ar wefan S4C.
Yn dilyn trafodaethau adeiladol, daeth S4C a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) i gytundeb, gan hwyluso'r Ysgrifennydd Gwladol i benodi'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol fel archwilwyr allanol S4C ar sail weinyddol, hyd nes bydd y ddeddfwriaeth berthnasol wedi'i diwygio.
Cytunwyd ar Lythyr Ymgysylltu rhwng yr NAO a S4C, tra ein bod yn aros am gyfle i gyflwyno'r ddeddfwriaeth ofynnol.



Adroddiad Llywodraethiant

Mae S4C yn gorff cyhoeddus annibynnol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau rhaglenni teledu a digidol yn yr iaith Gymraeg, yn bennaf ar gyfer y gynulleidfa yng Nghymru, ond hefyd ar gyfer cynulleidfa ehangach sy'n dymuno defnyddio gwasanaethau Cymraeg S4C.

Mae'r Adroddiad Llywodraethiant hwn yn nodi fframwaith llywodraethiant corfforaethol y Bwrdd ac yn egluro sut y mae'r Bwrdd yn cynnal ei fusnes, sut mae aelodau'r Bwrdd yn cael eu penodi, sut y mae'r Bwrdd yn asesu ei berfformiad ac effeithiolrwydd a sut y mae'n dirprwyo cyfrifoldebau i'r Tim Rheoli a'r Prif Weithredwr tra'n sicrhau atebolrwydd priodol.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi asesiad y Bwrdd o'r prif risgiau oedd yn wynebu busnes S4C yn ystod 2021-22.

Mae'r ddeddfwriaeth a sefydlodd S4C yn cyfeirio at un corff statudol a gwasanaeth teledu. Mae'r adroddiad hwn yn gyson gyda'r diffiniadau statudol. Cyfeirir at fwrdd cyfarwyddwyr S4C fel y Bwrdd ac at y gwasanaeth fel S4C.

Yn hydref 2018, cymeradwyodd y Bwrdd Reolau Sefydlog newydd er mwyn gweithredu'r Bwrdd Unedol cysgodol. Mae'r Bwrdd Unedol cysgodol yn cynnwys aelodau anweithredol y Bwrdd a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ynghyd â'r Prif Weithredwr a dau aelod gweithredol arall. Bydd y Bwrdd Unedol cysgodol yn parhau ar sail weinyddol hyd nes cyflwynir ddeddfwriaeth y gadarnhau'r newidiadau arfaethedig a diwygio fframwaith llywodraethiant statudol S4C.

Ceir rhagor o wybodaeth am strwythur a gwaith S4C ar wefan S4C www.s4c.cymru

Aelodau Bwrdd S4C

Penodir Aelodau Anweithredol Bwrdd S4C gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn dilyn ymgynghori gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru, a Llywodraeth Cymru. Hysbysebwr swyddi anweithredol ar y Bwrdd yn gyhoeddus, ac mae'r penodiadau'n cael eu gwneud yn dilyn trefn penodiadau cyhoeddus.

Penodir Aelodau Gweithredol y Bwrdd Unedol cysgodol gan Aelodau Anweithredol y Bwrdd, yn unol â darpariaethau Rheolau Sefydlog S4C.

Ar ddechrau Ebrill 2021, penodwyd Denise Lewis Poulton yn aelod anweithredol o'r Bwrdd.

Ffarweliwyd â Siân Lewis ym mis Gorffennaf 2021, a Hugh Hesketh Evans ym mis Tachwedd 2021, pan ddaeth eu tymhorau hwythau fel aelodau anweithredol i ben. Cychwynnwyd y broses i benodi eu holnyddion yn ystod haf 2021, ac rydym yn gobeithio y bydd y penodiadau newydd yn cael eu cymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn gynnar yn y flwyddyn adrodd 2022-23.

O ran yr aelodau gweithredol, fe adawodd Owen Evans swydd y Prif Weithredwr ddiwedd Rhagfyr 2021, ac fe benodwyd Siân Doyle i'w olynu o 01 Ionawr 2022 gan ymuno â'r Bwrdd fel aelod gweithredol.

Daeth cyfnod Amanda Rees ar y Bwrdd i ben wrth iddi adael swydd y Cyfarwyddwr Cynnwys ddiwedd Tachwedd 2021, ac fe groesawyd Geraint Evans fel aelod gweithredol o'r Bwrdd yn ei lle am weddill y flwyddyn adrodd wrth iddo wasanaethu fel Cyfarwyddwr Cynnwys dros dro.

Diddordebau a Chydnabyddiaeth Aelodau

Mae cofrestr sy'n datgan diddordebau'r aelodau ar gael ar wefan S4C, www.s4c.cymru.

Caiff gwybodaeth mewn perthynas â chydnabyddiaeth yr aelodau ei nodi yn Nodyn 6 y Datganiad Ariannol.

Gwrthdaro Buddiannau

Yn ystod y cyfnod nid oedd gan unrhyw aelodau anweithredol y Bwrdd fudd mewn cytundebau gydag S4C.

Aelodau Anweithredol Bwrdd S4C yn ystod 2021–22



Rhodri Williams – Cadeirydd

Tymor Aelodaeth: 02.07.18 - 31.03.24
(Cadeirydd 01.04.20 - 31.03.24)

Mae Rhodri yn aelod anweithredol o Fwrdd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr ac yn Gadeirydd ar Bwyllgor Cymru y Cyngor. Roedd yn gyfarwyddwr Ofcom yng Nghymru rhwng 2004 a 2018. Roedd yn gyd-sefydlydd cwmni teledu Agenda ym 1990 a chyn hynny yn aelod o dîm Y Byd ar Bedwar yn ITV. Mae ei rolau anweithredol blaenorol yn cynnwys Aelod a Chadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1997-2004) ac aelod o Fwrdd Ymwelwyr Carchar ei Mawrhydi, Caerdydd.



Guto Bebb

Tymor Aelodaeth: 01.02.2021-31.01.2025

Mae Guto'n Brif Weithredwr Gwasanaeth Yswiriant Undeb Amaethwyr Cymru ers 2020 ac yn Brif Weithredwr Grŵp Undeb Amaethwyr Cymru yn ei gyfanrwydd ers Chwefror 2021. Cyn hynny, fe fu'n Aelod Seneddol dros Aberconwy am ddegawd gan wasanaethu fel Gweinidog yn Swyddfa Cymru a'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

Yn enedigol o Sir y Fflint, mae Guto wedi byw yng Nghaernarfon (ac eithrio ambell gyfnod yn crwydro) ers deugain mlynedd. Cyn ei ethol i San Steffan fe fu'n rhedeg amrywiol fusnesau gan gynnwys ymgynghoriaeth datblygu economaidd a siop lyfrau. Am gyfnod, bu hefyd yn gydberchennog ar dŷ tafarn.



Anita George

(Aelod Anweithredol Arweiniol)
Tymor Aelodaeth: 02.07.18 - 01.07.2022

Mae Anita George yn gyfreithiwr efo profiad bwrdd a gweithredol eang yn y sectorau preifat, cyhoeddus ac elusennol.

Mae wedi gweithio fel cyfreithiwr mewnol ar draws sawl sector rheoledig yn y DU a Hong Kong, ac yn fwyaf diweddar fel ymgynghorydd annibynnol yn cynghori busnesau gwasanaethau ariannol ar lywodraethiant corfforol a newid sefydliadol.



Adele Gritten

Tymor Aelodaeth: 01.02.2021-31.01.2025

Cafodd Adele ei geni a'i magu yn Abertawe. Mae'n weithredwr profiadol ar lefel bwrdd ar ôl gweithio mewn rolau uwch reolwr ar gyfer amrywiaeth o ymgynghoriaethau cyfryngau, marchnata ac ymchwil, gan gynnwys YouGov, ers dros 20 mlynedd.

Ar hyn o bryd, mae'n ymwneud â gwaith datblygu economaidd i lywodraeth leol, gan gynnwys helpu busnesau i arallgyfeirio a bod yn rhan o adferiad pandemig yn Swydd Gaergrawnt, lle mae'n byw.

Yn arweinydd profiadol, uchel ei pharch ac un y gellir ymddiried ynnddi mewn cylchoedd ymchwil y cyfryngau, mae gan Adele MA mewn Gwyddor Gymdeithasol a Gwleidyddol o Brifysgol Caergrawnt.




Hugh Hesketh Evans

Tymor aelodaeth: 20.11.14 - 19.11.21

Bu Hugh yn Arweinydd ar Gyngor Sir Ddinbych rhwng mis Tachwedd 2007 a mis Mai 2022, ac yn gynghorydd Sir dros Llanfair Dyffryn Clwyd a Gwyddelwern ers mis Mehefin 2004.

Mae hefyd yn aelod o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU), ac yn Ymddiriedolwr a Thrysorydd Elusen Gyfunol Garth Groes. Yn 2012, fe gafodd OBE am wasanaethau i Lywodraeth Leol yn Rhestr Anrhydeddau'r Frenhines.



Siân Lewis

Tymor aelodaeth: 09.07.14 - 08.07.21

Mae Siân yn Brif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru ers Ionawr 2018, ac yn aelod o nifer o fyrddau a grwpiau partneriaeth cenedlaethol Cymru, gan gynnwys rhai Llywodraeth Cymru. Cyn hyn, roedd yn Brif Weithredwr ar Fenter Iaith Caerdydd a Bro Morgannwg.

Ymhlith ei llwyddiannau mwyaf tra yn y swydd oedd codi trosiant Menter Caerdydd o £36k - £750K, cynyddu gwasanaethau cymdeithasol drwy'r Gymraeg yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg a sefydlu Gŵyl Tafwyl.



Denise Lewis Poulton

Tymor Aelodaeth: 01.04.2021-31.03.2025

Mae Denise yn arbenigwr cyfathrebu strategol, brand a materion corfforaethol profiadol. Cafodd ei geni a'i magu yng Nghastell Newydd Emlyn a'i haddysg yn Ysgol Ramadeg Llandysul a King's College, Prifysgol Llundain. Treuliodd ei gyrfa gorfforaethol yn bennaf fel uwch gyfarwyddwr mewn cwmnïau telegyfathrebu rhyngwladol fel Bell Canada plc, Cable & Wireless Communications plc ac Orange plc.

Aeth ymlaen i sefydlu busnes ymgynghori yn cynghori nifer o sefydliadau diwylliannol, cyfryngau a sector cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Senedd Cymru, S4C a Chanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd. Mae hi wedi gwasanaethu fel Ymddiriedolwr a Chyfarwyddwr Anweithredol gyda sawl sefydliad diwylliannol cenedlaethol yn eu plith Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru, Gŵyl Lenyddol y Gelli a Chasgliad Wallace yn Llundain. Mae hi'n Gymrawd Oes er Anrhydedd i BAFTA.

Ochr yn ochr â rhedeg ei chwmni ymgynghori, mae Denise ar hyn o bryd yn astudio ar gyfer gradd Meistr mewn Arweinyddiaeth Ddiwylliannol yn yr Academi Frenhinol a Phrifysgol Maastricht.



Chris Jones

Tymor Aelodaeth: 01.02.2021-31.01.2025

Roedd Chris yn gyd-sylfaenydd Glas Cymru Cyf., wnaeth brynu Dŵr Cymru yn 2001 i greu'r unig gwmni cyfleustodau yn y DU nad yw'n eiddo i gyfranddalwyr. Ef oedd Prif Swyddog Ariannol Dŵr Cymru rhwng 2001 a 2013 ac yna'n Brif Weithredwr nes iddo adael y cwmni ym mis Mai 2020.

Ar hyn o bryd mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol o Xoserve Limited (darparwr gwasanaethau data canolog y farchnad nwy ym Mhrydain) ac mae'n gyn Gyfarwyddwr Anweithredol gyda Chymdeithas Adeiladu'r Principality. Mae'n aelod lleyg o Gyngor Prifysgol Caerdydd. Mae o wedi cael amrywiaeth o rolau fel ymddiriedolwr neu gynghorwr gyda sefydliadau trydydd sector, gan gynnwys Ymddiriedolaeth y Tywysog, y Sefydliad Materion Cymreig, Water UK a CBI Cymru.

Dysgodd Chris Gymraeg fel oedolyn. Dyfarnwyd CBE iddo yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines yn 2020.

Aelodau'r Tim Rheoli oedd hefyd yn Aelodau Gweithredol y Bwrdd Unedol cysgodol yn ystod 2021–22:



Owen Evans
Prif Weithredwr (hyd at 31.12.21)

Penodwyd Owen Evans yn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo S4C ym mis Hydref 2017. Fe'i addysgwyd yn Ysgol Penweddig, Aberystwyth cyn graddio mewn economeg o Brifysgol Abertawe. Cyn ymuno â S4C, roedd yn Ddirprwy Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, yn gyfrifol am Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus. Rhwng 2008 a 2010 bu'n gyfarwyddwr BITC Cymru ac am 10 mlynedd cyn hynny bu'n gweithio i BT, gan gynnwys gweithio fel aelod o dîm y DU yn datblygu strategaeth band eang BT. Bu'n aelod o Fwrdd yr Iaith Gymraeg rhwng 2005 a 2010.



Siân Doyle
Prif Weithredwr (o 01.01.22)

Cychwynnodd Siân Doyle yn swydd Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo S4C ym mis Ionawr 2022.

Cyn ymuno ag S4C, fe gafodd Siân brofiad helaeth yn y sectorau telegyfathrebu a manwerthu yn y DU, Canada a'r Unol Daleithiau. Mae'n gyn Reolwr Gyfarwyddwr y cwmni telathrebu TalkTalk, a chyn hynny roedd yn Gyfarwyddwr Manwerthu gydag EE. Bu hefyd yn Uwch Is-lywydd Manwerthu Comcast Cable yn Philadelphia.

Wedi'i haddysgu yn Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy graddiodd mewn Hanes a Gwleidyddiaeth o Brifysgol Caerdydd.



Elin Morris
Prif Swyddog Gweithredu

Mae Elin yn dod yn wreiddiol o Lanrhystud, Aberystwyth. Roedd yn gyfreithiwr yn Adran Gorfforaethol Geldards am dros 18 mlynedd.

Cafodd ei phenodi'n Gyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol S4C yn 2009, gan ddod yn Brif Swyddog Gweithredu yn 2018. Mae'n gyfrifol am y timoedd Cyfreithiol a Busnes, Adnoddau Dynol, Cyllid, Technegol a Masnachol.



Amanda Rees
Cyfarwyddwr Cynnwys (tan 30.11.2021)

Roedd Amanda yn cyfarwyddo, cynhyrchu ac uwch gynhyrchu ystod eang o raglenni ffeithiol i ddarlledwyr ar draws y byd cyn ffurfio ei chwmmi ei hun yn 2012. Cafodd ei rhaglen Finding Mum and Dad (i Channel 4) ei henwebu am wobrau Grierson a Broadcast yn 2015.

Fe gafodd Amanda ei phenodi'n Gyfarwyddwr Cynnwys S4C yn Hydref 2016. Ers Rhagfyr 2021, Amanda yw Cyfarwyddwr Llwyfannau S4C.




Geraint Evans
Cyfarwyddwr Cynnwys dros dro (o 01.12.2021)

Cyn ymuno â'r Tim Rheoli fel y Cyfarwyddwr Cynnwys dros dro, Geraint Evans oedd Comisiynydd Newyddion a Materion Cyfoes S4C.

Bu'n newyddiadurwr gydag ITV Cymru am 25 mlynedd cyn ymuno gydag S4C – yn ohebydd ar gyfres materion cyfoes Y Byd ar Bedwar, yna'n olygydd y gyfres ac yn Bennaeth Rhaglenni Cymraeg ITV.

Ers ymuno â S4C yn 2019, mae wedi ail-lansio y rhaglen drafod boblogaidd Pawb a'i Farn, ac mae wedi comisiynu nifer o ddogfennau materion cyfoes pwerus. Roedd hefyd yn gyfrifol am arwain darpariaeth Newyddion S4C i'r oes ddigidol drwy ddatblygu gwasanaeth newyddion digidol newydd i S4C.

Aelodau Eraill y Tim Rheoli (oedd mynychu cyfarfodydd o'r Bwrdd Unedol cysgodol yn aml)



Owen Derbyshire
Cyfarwyddwr Marchnata a Digidol

Cyn ymuno â Thim Rheoli S4C ym mis Mawrth 2021, Owen oedd sylfaenydd a Prif Weithredwr Grŵp Datblygu Cymru. Mae yn aelod o Gyngor Partneriaeth y Gymraeg, Bwrdd Technoleg Cymraeg Llywodraeth Cymru, ac yn ymddiriedolwr o'r elusen tai a digartrefedd Shelter Cymru.



Gwyn Williams
Cyfarwyddwr Cyfathrebu Corfforaethol

Dechreuodd Gwyn ei yrfa yn y cyfryngau gan weithio i Radio Cymru ym Mangor. Wedi hynny bu'n gweithio i Newyddion 7 a Hel Straeon cyn cychwyn ei gwmni cynhyrchu ei hun. Roedd yn un o sylfaenwyr Cwmni Da ac yna'n brif weithredwr cwmni adnoddau Barcud yng Nghaernarfon. Cyn cychwyn gyda S4C roedd yn Gyfarwyddwr Cyfathrebu gyda Chomisiynydd y Gymraeg



Sharon Winogorski
Prif Swyddog Cyllid

Mae Sharon yn gyfrifydd siartredig. Cyn ymuno â S4C yn 1998, gweithiodd Sharon i nifer o gwmnïau a sefydliadau. Fe'i phenodwyd hi i Dîm Rheoli S4C ym mis Hydref 2018. Mae'n gyfrifol am Adran Gyllid S4C sy'n cynnwys materion ariannol a chyllidebol ar gyfer endidau cyhoeddus a masnachol S4C. Mae Sharon yn siaradwr Cymraeg – ar ôl dysgu Cymraeg i safon uchel ers ymuno â S4C.

Presenoldeb Aelodau'r Bwrdd

Mae'r tabl hon yn nodi'r nifer o gyfarfodydd Bwrdd Unedol cysgodol a'i bwyllgorau fynychwyd gan yr aelodau.

Mae'r tabl isod yn nodi'r nifer o gyfarfodydd Bwrdd Unedol cysgodol a'i bwyllgorau fynychwyd gan yr aelodau.

01 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022					
	Bwrdd Unedol	Pwyllgor Archwilio, a Materion Cyffredinol	Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth	Pwyllgor Cynnwys	Pwyllgor Cyfathrebu
Nifer o gyfarfodydd dros y flwyddyn	8	4	0	4	3
Aelodau Bwrdd Unedol cysgodol S4C:					
Rhodri Williams	8/8	3/4	x	4/4	2/3
Sian Lewis	1/2	1/1	x	1/1	x
Hugh Hesketh Evans	3/4	1/2	x	x	x
Anita George	8/8	4/4	x	1/1	3/3
Chris Jones	8/8	4/4	x	3/3	x
Adele Gritten	7/8	1/1	x	3/3	3/3
Guto Bebb	8/8	4/4	x	x	2
Denise Lewis Poulton	8/8	1/1	x	2/3	3/3
Owen Evans	5/5	3/3	x	2/2	1/2
Siân Doyle	3/3	1/1	x	2/2	1/1
Elin Morris	8/8	4/4	x	x	x
Amanda Rees	3/4	x	x	2/2	x
Geraint Evans	4/4	x	x	2/2	x

Mae'r tabl hon yn nodi'r nifer o gyfarfodydd Bwrdd Unedol cysgodol a'i bwyllgorau fynychwyd gan yr aelodau.

Mynegir presenoldeb fel y nifer o gyfarfodydd a fynychwyd / y nifer o gyfarfodydd yr oedd disgwyl i'r aelod fynychu.

Mae'r tabl hon yn nodi'r nifer o gyfarfodydd Bwrdd Unedol cysgodol a'i bwyllgorau fynychwyd gan yr aelodau.

Mynegir presenoldeb fel y nifer o gyfarfodydd a fynychwyd / y nifer o gyfarfodydd yr oedd disgwyl i'r aelod fynychu.

Mae'r tabl hon yn nodi'r nifer o gyfarfodydd Bwrdd Unedol cysgodol a'i bwyllgorau fynychwyd gan yr aelodau.

Mynegir presenoldeb fel y nifer o gyfarfodydd a fynychwyd / y nifer o gyfarfodydd yr oedd disgwyl i'r aelod fynychu.

Mae'r tabl hon yn nodi'r nifer o gyfarfodydd Bwrdd Unedol cysgodol a'i bwyllgorau fynychwyd gan yr aelodau.

Mynegir presenoldeb fel y nifer o gyfarfodydd a fynychwyd / y nifer o gyfarfodydd yr oedd disgwyl i'r aelod fynychu.

Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol S4C

Mae S4C yn gorfforaeth statudol. Mae strwythur a dyletswyddau cyfansoddiadol S4C wedi'u nodi mewn statud yn Neddf Gyfathrebiadau 2003 a Deddfau Darlledu 1990 a 1996.

Mae'r tabl hon yn nodi'r nifer o gyfarfodydd Bwrdd Unedol cysgodol a'i bwyllgorau fynychwyd gan yr aelodau.

Argymhellodd yr Adolygiad o S4C a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 y dylai strwythur llywodraethu corfforaethol S4C fod yn seiliedig ar fwrdd unedol sy'n cynnwys aelodau gweithredol ac anweithredol, gyda rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, lle mae'r aelodau gweithredol a'r uwch-swyddogion yn rheoli, a'r aelodau anweithredol yn craffu ac yn cynghori. Yn hydref 2018 rhoddodd S4C drefniadau dros dro ar waith i hwyluso yr argymhellion llywodraethu o fewn y ddarpariaeth statudol gyfredol. Cadarnhaodd y Bwrdd Reolau Sefydlog newydd a rhoddwyd ar waith Bwrdd Unedol cysgodol fel yr argymhellwyd gan yr Adolygiad o S4C.

Mae'r tabl hon yn nodi'r nifer o gyfarfodydd Bwrdd Unedol cysgodol a'i bwyllgorau fynychwyd gan yr aelodau.

Bydd y darpariaethau dros dro hyn yn parhau nes cyflwynir deddfwriaeth i gadarnhau'r newidiadau arfaethedig a diwygio fframwaith llywodraethu S4C. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd S4C yn parhau i wneud hynny gan weithredu'n ffurfiol yn unol â'r darpariaethau statudol cyfredol. Mae'r Bwrdd Unedol cysgodol yn cynnwys yr Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ynghyd â'r Prif Weithredwr a dau aelod gweithredol arall a benodir gan yr Aelodau Anweithredol yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

Mae'r tabl hon yn nodi'r nifer o gyfarfodydd Bwrdd Unedol cysgodol a'i bwyllgorau fynychwyd gan yr aelodau.

Ceir rhagor o wybodaeth am y Bwrdd Unedol cysgodol yn ei Rheolau Sefydlog ar safle we S4C.

Mae'r tabl hon yn nodi'r nifer o gyfarfodydd Bwrdd Unedol cysgodol a'i bwyllgorau fynychwyd gan yr aelodau.

Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol
Mae gan y Bwrdd ddyletswydd penodol i gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol o weithgareddau S4C i Senedd San Steffan bob blwyddyn. Yn ogystal, mae'r Bwrdd wedi cytuno i gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol S4C gerbron Senedd Cymru.

Mae'r tabl hon yn nodi'r nifer o gyfarfodydd Bwrdd Unedol cysgodol a'i bwyllgorau fynychwyd gan yr aelodau.

Cydymffurfio gyda'r Cod Llywodraethiant Corfforaethol
Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i ddefnyddio'r egwyddorion uchaf o ran llywodraethiant corfforaethol sy'n gymesur â'i faint. Er nad yw'n gwmni rhestredig, mae wedi dewis cydymffurfio â darpariaethau Adran 1 Cod Llywodraethiant Corfforaethol y DU hyd y bônt yn gymwys i'r Bwrdd. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd wedi dilyn yr egwyddorion rheolaeth dda a gynhwysir yng Nghod Llywodraethiant Corfforaethol y DU.

Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Mae'r tabl hon yn nodi'r nifer o gyfarfodydd Bwrdd Unedol cysgodol a'i bwyllgorau fynychwyd gan yr aelodau.

Cyfrifoldebau'r Bwrdd

- darparu gwasanaethau teledu, digidol ac ar-lein S4C;
- sicrhau cydymffurfiaeth y gwasanaethau gyda'r gofynion rheoleiddio perthnasol, gan gynnwys Cod Darlledu Ofcom;
- cymryd ystyriaeth o farn y gynulleidfa am arlwy gwasanaeth S4C;

- cymeradwyo strategaeth, cyllideb flynyddol a chynlluniau ariannol tymor hir S4C;
- goruchwyllo, cymeradwyo a chraffu ar reolaeth briodol S4C;
- gweithredu fel corff cyhoeddus;
- gweithredu fel rheoleiddiwr ar nifer cyfyngedig o faterion penodol yn ymwneud a gwasanaethau ar-lein S4C;
- paratoi adroddiadau blynyddol a chyfrifon; a
- phenodi Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd.

Mae'r tabl hon yn nodi'r nifer o gyfarfodydd Bwrdd Unedol cysgodol a'i bwyllgorau fynychwyd gan yr aelodau.

Nid yw aelodau anweithredol y Bwrdd yn ymwneud ag unrhyw benderfyniadau dydd i ddydd. Yn benodol, nid yw aelodau anweithredol y Bwrdd yn ymwneud ag unrhyw benderfyniadau comisiynu neu benderfyniadau golygyddol. Mae'r arfer yma wedi bodoli ers 1982. Mae'n sicrhau fod y Bwrdd yn cael ei gadw hyd braich o benderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y swyddogion, yn arbennig felly, ynglŷn â chynnwys rhaglenni.

Mae'r tabl hon yn nodi'r nifer o gyfarfodydd Bwrdd Unedol cysgodol a'i bwyllgorau fynychwyd gan yr aelodau.

Ceir rhagor o wybodaeth am brosesau a chyfrifoldebau'r Bwrdd yn y Rheolau Sefydlog diwygiedig ar wefan s4c.cymru.

Y Bwrdd a'i Aelodau

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb i sicrhau bod swyddogaethau statudol S4C, mewn amgylchedd gwasanaeth cyhoeddus a masnachol, yn cael eu cyflawni'n unol â pholisïau'r Bwrdd, gofynion deddfau perthnasol, Cod Darlledu Ofcom, a'r Cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd gyda'r BBC.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd a hyd at wyth aelod anweithredol, a phenodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ar ôl ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru, a Llywodraeth Cymru. Mae ganddynt brofiad a gwybodaeth helaeth ac maent yn annibynnol o'r Tîm Rheoli, ac o unrhyw berthynas fusnes neu berthynas arall a allai ymyrryd ag arfer eu barn annibynnol. Mae'r strwythur hwn yn sicrhau na all y broses o wneud penderfyniadau gan yr aelodau gael ei dominyddu gan unigolyn neu grŵp bychan. Nodir y darpariaethau sy'n ymwneud â phenodi Aelodau Gweithredol y Bwrdd Unedol cysgodol yn Rheolau Sefydlog diwygiedig y Bwrdd.

Amrywiaeth

Mae amrywiaeth o fewn aelodaeth y Bwrdd Unedol yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses ddethol DCMS. Mae amrywiaeth o fewn y sefydliad yn allweddol i sicrhau bod gwasanaeth S4C yn adlewyrchu ei chynulleidfa a'u hanghenion.

Hyfforddiant a Rhaglen Sefydlu Aelodau'r Bwrdd
Mae rhaglen sefydlu bwrpasol yn cael ei ddarparu i bob aelod newydd o'r Bwrdd. Ynghyd â darparu gwybodaeth sylfaenol sy'n ymwneud â dyletswyddau cyfarwyddwyr, mae'r broses sefydlu yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithrediad busnes S4C, y sector cyfryngau a hefyd y prif risgiau ac ansicrwydd sy'n wynebu S4C.

Aelod Anweithredol Arweiniol
Ym mis Tachwedd 2018, penododd y Bwrdd Anita George yn Aelod Anweithredol Arweiniol. Crëwyd y rôl hon yn 2016 yn dilyn cyngor a roddwyd gan DCMS i'r cyrff a noddir ganddi.

Mae cyfrifoldebau'r Aelod Anweithredol Arweiniol yn cynnwys rhoi cyngor a chymorth i'r Cadeirydd; casglu adborth o aelodau'r Bwrdd ar berfformiad y Cadeirydd fel rhan o broses werthuso flynyddol DCMS o'r Cadeirydd; lle mae anawsterau neu densiwn yn bodoli yn y berthynas rhwng y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, bod yn gyfrifol am hwyluso'r gwaith o ddatrys y materion hyn a chydweithio â'r Cadeirydd ac aelodau eraill y Bwrdd i geisio datrys unrhyw ystyriaethau neu anghydfodau perthnasol sy'n effeithio ar waith y Bwrdd.

Effeithiolrwydd a Gwerthuso
Mae'r Bwrdd yn cynnal gwerthusiad rheolaidd o'i berfformiad ei hun a gwaith ei bwyllgorau a'r aelodau.

Cwblhawyd adolygiad sicrwydd allanol o lywodraethiant ac effeithiolrwydd y Bwrdd yn ystod 2020 gan TIAA (yr Archwilwyr Mewnol). Mae TIAA yn annibynnol o S4C ac ystyriodd yr adolygiad y trefniadau lefel uchel sydd mewn lle trwy drafodaethau gydag Aelodau'r Bwrdd a chymariaethau gyda chyfarwyddyd arfer gorau, er mwyn darganfod effeithiolrwydd y Bwrdd Unedol newydd. Gwnaed nifer o argymhellion gan TIAA, ac mae'r Bwrdd bellach wedi eu cwblhau i gyd yn ystod y flwyddyn adrodd hon.

Yn ystod 2021-22, yn unol ag arfer da, fe ymgwymerodd y Bwrdd a'i is-bwyllgorau â phroses o hunan-werthuso eu perfformiad ac fe ddiwygiwyd cylchoedd gorchwyl a threfniadau cyfarfodydd o 01 Ebrill 2022 ymlaen mewn ymateb i'r adborth a dderbyniwyd.

Cydymffurfiaeth Rheoleiddio

Trosglwyddwyd nifer sylweddol o gyfrifoldebau rheoliadol i Ofcom, y rheolydd cyfathrebu'r DU, gan Ddeddf Cyfathrebu 2003.

Mae gwasanaeth teledu S4C yn cael ei reoleiddio gan Ofcom. O dan y darpariaethau hyn mae'n ofynnol i S4C gydymffurfio ag ystod eang o ofynion rheoliadol a nodir mewn deddfwriaeth a hefyd gan Ofcom.

Mae dyletswydd statudol ar S4C i gydymffurfio gyda Chod Darlledu Ofcom a gofynion rheoleiddio eraill, ac mae gan Ofcom nifer o bwerau a chyfrifoldebau statudol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gwasanaethau S4C.

Fel rhan o'r broses flynyddol o adrodd i Ofcom, mae S4C yn talu Ffi Rheoleiddio i Ofcom ac yn darparu ystod eang o wybodaeth i Ofcom, gan gynnwys gwybodaeth ariannol, gwybodaeth feintiol am berfformiad y gwasanaeth a gwybodaeth am gydymffurfio gyda chwotâu perthnasol Ofcom.

Mae'r Bwrdd Unedol yn parhau â nifer cyfyngedig o gyfrifoldebau rheoleiddio sy'n ymwneud gyda gwasanaethau ar-lein S4C sydd y tu hwnt i ddarpariaethau Cod Darlledu Ofcom.

Ceisio barn y gynulleidfa

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb statudol i ganfod y farn gyhoeddus am y rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar S4C ynghyd ag effeithiau rhaglenni ar agwedd ac ymddygiad y gwylwyr ac yn ogystal y math o raglenni y byddai aelodau'r cyhoedd yn dymuno eu gweld ar S4C.

Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod darpariaethau priodol yn bodoli er mwyn galluogi gwylwyr i gwyno i S4C am raglenni'r gwasanaeth. Ceir gwybodaeth am sut i gwyno am raglenni S4C ar www.s4c.cymru, a cheir manylion cyswllt Gwifren Gwylwyr yng nghefn yr adroddiad hwn.

Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli

Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo nifer o swyddogaethau penodol i'r Prif Weithredwr a'i swyddogion (nodir y materion hyn yn Rheolau Sefydlog y Bwrdd, sydd i'w cael ar wefan S4C), ac mae'r Prif Weithredwr yn atebol i'r Bwrdd am weithredu'r swyddogaethau hyn.

Cyfrifoldeb y Prif Weithredwr, swyddogion a staff S4C ydi rheoli a chynnal S4C o ddydd i ddydd. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys darparu gwasanaethau teledu ac ar-lein S4C.

Strwythur Gwaith Bwrdd S4C

Mae'r Bwrdd yn cynllunio cynnal deg cyfarfod y flwyddyn, gan gynnwys dau sesiwn “cwrdd i ffwrdd” strategol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn dilyn rhaglen waith flynyddol sy'n cael ei chymeradwyo gan y Bwrdd.

Yn ogystal ag aelodau anweithredol a gweithredol y Bwrdd Unedol cysgodol, mae uwch swyddogion eraill o Dîm Rheoli S4C a'r Ysgrifennydd hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd ac yn cymryd rhan yn nhrefodaethau'r Bwrdd.

Mae Rheolau Sefydlog y Bwrdd yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â gweithrediad system y Bwrdd Unedol cysgodol, ac yn benodol, darpariaethau sy'n ymwneud â statws yr Aelodau Gweithredol, gofynion cworwm a hawliau pleidleisio aelodau y Bwrdd. Bydd y darpariaethau hyn yn parhau nes bod y darpariaethau statudol perthnasol sy'n ymwneud â fframwaith llywodraethu S4C yn cael eu diwygio.

Mae'r Tîm Rheoli yn darparu gwybodaeth briodol ac amserol ar gyfer aelodau'r Bwrdd ac mae rhyddid i'r aelodau ofyn am unrhyw wybodaeth bellach y credant sy'n angenrheidiol.

Gall pob aelod ofyn am gyngor gan yr Ysgrifennydd a gweithwyr proffesiynol annibynnol ar draul S4C.

Mae aelodau'r Bwrdd yn craffu perfformiad S4C mewn perthynas â chyflawni nodau ac amcanion a gytunwyd, maent yn monitro adrodd ar berfformiad, ac maent yn craffu cywirdeb gwybodaeth ariannol a sicrhau bod rheolaethau a systemau rheoli risg ariannol yn gadarn ac yn cael eu gweithredu'n briodol.

Yn amodol ar adolygiad cyfnodol gan y Bwrdd Unedol cysgodol o'r cyfrifoldebau a'r pwerau a ddirprwyr i'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli a chyfrifoldebau statudol trosgynnol y Bwrdd, mae'r cyfrifoldeb ar gyfer gweithredu polisiau a darparu gwasanaethau S4C, gan sicrhau eu bod yn gyson gyda chylch gorchwyl S4C a'r Strategaeth Cynnwys, wedi ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr a thrwyddynt i'r Tîm Rheoli.

Swyddog Cyfrifo S4C

Dynodir y Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifo ar gyfer S4C. Yn ystod 2021–22, roedd y Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol i DCMS mewn perthynas ag ariannu statudol S4C ac felly nhw oedd y person oedd yn gyfrifol am y defnydd priodol o arian a dalwyd i S4C gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Strwythur Pwyllgorau Bwrdd S4C

Mae gan y Bwrdd bedwar pwyllgor sy'n goruchwylio gwahanol agweddau o waith S4C, ac yn ogystal fwrdd cyfarwyddwyr ar gyfer cwmnïau masnachol S4C.

Mae'r pwyllgorau'n adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Bwrdd, gyda'r Bwrdd yn cymeradwyo argymhellion y pwyllgorau.

Pwyllgor Cyfathrebu

Mae'r Pwyllgor Cyfathrebu yn gyfrifol am oruchwylio datblygiad Strategaeth Marchnata a Chyfathrebu S4C, gan gynnwys y strategaeth brand ac is-frandiau. Mae'r pwyllgor hefyd gyda chyfrifoldeb dros fonitro ansawdd a pherfformiad prif ymgyrchoedd S4C, a sicrhau safonau uchel a chysondeb ar draws y gwasanaeth.

Aelodau'r Pwyllgor:

Denise Lewis Poulton (Cadeirydd)
Rhodri Williams
Guto Bebb
Anita George
Adele Gritten

Pwyllgor Cynnwys

Mae'r Pwyllgor Cynnwys yn gyfrifol am oruchwylio a monitro perfformiad cynnwys rhaglenni a gwasanaethau S4C. Mae'r pwyllgor yn trafod arlwy cynnwys S4C ac yn ceisio sicrhau bod arlwy'r gwasanaeth yn diwallu anghenion y gynulleidfa.

Aelodau'r Pwyllgor:

Rhodri Williams (Cadeirydd – o Tachwedd 2020)
Sian Lewis (hyd at Gorffennaf 2021)
Anita George (o fis Tachwedd 2020 hyd at Mai 2021)
Chris Jones (o fis Mai 2021)
Adele Gritten
Denise Lewis Poulton (o fis Ebrill 2021)

Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol

Cyfrifoldebau Archwilio a Rheoli Risg

Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am oruchwylio gwaith archwilio mewnol ac allanol S4C, yn ogystal â gofalaeth am fonitro rheoli risg o fewn S4C. Mae'r pwyllgor hefyd yn gyfrifol am graffu'r Datganiad Ariannol drafft ac adrodd arno i'r Bwrdd cyfan. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am faterion yn ymwneud â gwerth am arian.

Cyfrifoldebau Personél a Chydnabyddiaeth

Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am oruchwylio systemau personél S4C, gan gynnwys ystyried cyflogau a thelerau ac amodau gwaith eraill staff S4C, ystyried anghenion hyfforddi a datblygu staff, safonau ymddygiad a disgyblaeth, cyfleoedd cyfartal a monitro bod y systemau perthnasol yn gweithio'n effeithiol ac effeithlon o fewn S4C.

Ceir adroddiad ar wahân yn yr adran hon gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol, ar weithgareddau'r Pwyllgor yn ystod 2021–22.

Aelodau'r Pwyllgor:

Hugh Hesketh Evans (Cadeirydd – hyd at Tachwedd 2021)
Chris Jones (Cadeirydd – o Tachwedd 2021)
Anita George
Rhodri Williams
Guto Bebb

Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth

Mae'r Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth yn gyfrifol am oruchwylio systemau cwynion S4C a monitro eu bod nhw'n gweithio'n effeithlon. Mae'r pwyllgor hefyd yn ystyried materion cydymffurfiaeth rhaglenni S4C. Yn ogystal â hyn, mae gan y pwyllgor ddyletswyddau o fewn prosesau S4C ar gyfer ymateb i geisiadau am wybodaeth sy'n cael eu gwneud o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Aelodau'r Pwyllgor:

Guto Bebb, Cadeirydd (aelod o fis Mehefin 2021, a Chadeirydd o fis Gorffennaf 2021)
Sian Lewis, Cadeirydd (hyd at Gorffennaf 2021)
Hugh Hesketh Evans (hyd at Tachwedd 2021)
Adele Gritten

Materion eraill perthnasol i'w hadrodd mewn perthynas â'r flwyddyn 2021–22:

Sanctsiynau Ariannol Rwsia

Ar gais DCMS, mae S4C wedi cynnal adolygiad o'r effaith posib arni gan y sanctsiynau ariannol Rwsia a gyhoeddodd Llywodraeth y DU mewn ymateb i'r rhyfel yn yr Wcráin.

O ganlyniad, mae S4C wedi cynnal asesiad llawn o unrhyw amlygiad i sanctsiynau ariannol y DU (oedd mewn grym ar adeg drafftio'r adroddiad blynyddol hwn), yn unol â'r rhestr sanctsiynau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Nid yw S4C wedi adnabod unrhyw gysylltiadau uniongyrchol ag unigolion neu sefydliadau sy'n destun sanctsiynau ariannol. Mae S4C Digital Media Limited wedi adnabod amlygiad bychan posib drwy fuddsoddiad anuniongyrchol mewn cronfa ecwiti gyfun, ac mae wedi ymgysylltu â rheolwyr perthnasol y gronfa i drafod ymhellach.

Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol



Mae’r adroddiad hwn yn nodi’r cyfrifoldebau a ddirprwyir i’r pwyllgor gan y Bwrdd, ynghyd â chrynodeb o waith y pwyllgor yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022.

Mae'r adroddiad yn nodi'r cyfrifoldebau a ddirprwyir i'r pwyllgor gan y Bwrdd, ynghyd â chrynodeb o waith y pwyllgor yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022.

Mae’r adroddiad hefyd yn nodi sut y mae’r pwyllgor wedi cynorthwyo’r Bwrdd i adolygu amgylchedd rheoli mewnol S4C, gwaith y pwyllgor mewn perthynas ag adolygu effeithiolrwydd y'r archwilwyr mewnol ac allanol, ynghyd â goruchwylio datblygiad rhaglen gwerth am arian.

Mae gan aelodau'r pwyllgor rhyngddynt ystod eang o brofiad busnes, ariannol, llywodraethiant ac adnoddau dynol sy'n galluogi'r pwyllgor i gyflawni ei gylch gorchwyl mewn modd cadarn ac annibynnol.

Mae gan aelodau’r pwyllgor rhyngddynt ystod eang o brofiad busnes, ariannol, llywodraethiant ac adnoddau dynol sy’n galluogi’r pwyllgor i gyflawni ei gylch gorchwyl mewn modd cadarn ac annibynnol.

Aelodau’r Pwyllgor:

Hugh Hesketh Evans (Cadeirydd, hyd at fis Tachwedd 2021)

Chris Jones (Cadeirydd, o fis Tachwedd 2021)

Anita George

Rhodri Williams

Guto Bebb

Mae Prif Weithredwr S4C, y Prif Swyddog Gweithredu (gyda chyfrifoldeb am faterion personél), y Prif Swyddog Ariannol ac Ysgrifennydd y Bwrdd hefyd yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor.

Mae Prif Weithredwr S4C, y Prif Swyddog Gweithredu (gyda chyfrifoldeb am faterion personél), y Prif Swyddog Ariannol ac Ysgrifennydd y Bwrdd hefyd yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor.

Mae cynrychiolwyr o archwilwyr mewnol S4C (TIAA) a hefyd, lle y bo'n berthnasol, archwilwyr allanol S4C (yr NAO) hefyd yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor. Yn ogystal, mae'r pwyllgor yn cyfarfod yn breifat gyda'r archwilwyr mewnol ac allanol yn flynyddol.

Mae cynrychiolwyr o archwilwyr mewnol S4C (TIAA) a hefyd, lle y bo’n berthnasol, archwilwyr allanol S4C (yr NAO) hefyd yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor. Yn ogystal, mae’r pwyllgor yn cyfarfod yn breifat gyda’r archwilwyr mewnol ac allanol yn flynyddol.

Mae rhaglen waith flynyddol y Pwyllgor yn cynnwys:

Cylch Gorchwyl y Pwyllgor

Mae rhaglen waith flynyddol y Pwyllgor yn cynnwys:

Mae'r adroddiad yn nodi'r cyfrifoldebau a ddirprwyir i'r pwyllgor gan y Bwrdd, ynghyd â chrynodeb o waith y pwyllgor yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022.

Materion Archwilio a Rheoli Risg

- Adolygu ac argymell ar gyfer cymeradwyaeth y Datganiad Ariannol Blynyddol ar ôl trafodaeth gyda’r archwilwyr allanol;
- Adolygu cwmpas y swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol a chymeradwyo anghenion archwilio strategol S4C;
- Ystyried canfyddiadau’r archwilwyr mewnol, gan gynnwys mewn perthynas â systemau ariannol craidd a phrosesau adrodd;
- Adolygu cofrestr risg S4C, y broses o adnabod a chofnodi risgiau, a’r camau a gymerwyd gan y Tîm Rheoli i reoli a lliniaru risgiau a’u canlyniadau i S4C; a
- Monitro gweithgareddau gwerth am arian, a derbyn sicrwydd am y gwerth am arian a ddarperir gan weithgareddau S4C.

Materion Personél a Chydnabyddiaeth

- Goruchwylio systemau personél S4C a monitro eu heffeithiolrwydd;
- Cynghori’r Bwrdd ar uwch benodiadau, gan gynnwys telerau ac amodau; a
- Cynghori’r Bwrdd ar bob mater yn ymwneud â chydnabyddiaeth a thelerau staff.

Mae'r adroddiad yn nodi'r cyfrifoldebau a ddirprwyir i'r pwyllgor gan y Bwrdd, ynghyd â chrynodeb o waith y pwyllgor yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022.

Mae’r Pwyllgor yn gweithredu rhaglen strwythuredig o weithgareddau, gydag eitemau ar yr agenda sy’n cyd-fynd â dyddiadau pwysig y cylch adrodd ariannol blynyddol, themâu neu feysydd risg y mae’r Pwyllgor wedi eu hadnabod, ynghyd ag eitemau sefydlog y mae’n ofynnol i’r Pwyllgor eu hystyried yn rheolaidd o dan ei gylch gorchwyl. Cyflwynir cofnodion y pwyllgor yn ffurfiol i’r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod o’r pwyllgor.

Mae'r adroddiad yn nodi'r cyfrifoldebau a ddirprwyir i'r pwyllgor gan y Bwrdd, ynghyd â chrynodeb o waith y pwyllgor yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022.

Cyfarfu’r pwyllgor pedair gwaith yn ystod y flwyddyn.



Prif feysydd gwaith y Pwyllgor yn ystod 2021–22 oedd:

Mae'r adroddiad yn nodi'r cyfrifoldebau a ddirprwyir i'r pwyllgor gan y Bwrdd, ynghyd â chrynodeb o waith y pwyllgor yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022.

Materion Archwilio a Rheoli Risg

Rheolaethau mewnol: Adolygodd y pwyllgor effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol, gan ystyried canfyddiadau’r adroddiadau archwilio mewnol ac allanol.

Mae'r adroddiad yn nodi'r cyfrifoldebau a ddirprwyir i'r pwyllgor gan y Bwrdd, ynghyd â chrynodeb o waith y pwyllgor yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022.

Adroddiadau ariannol

Adolygodd y pwyllgor ddatganiadau ariannol y Bwrdd, ystyriodd adroddiadau gan y rheolwyr a’r archwilwyr allanol parthed cydymffurfiaeth gyda safonau cyfrifo a gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol, a chraffodd priodoldeb y sail ‘busnes gweithredol’ y paratoir y datganiadau ariannol arni.

Mae'r adroddiad yn nodi'r cyfrifoldebau a ddirprwyir i'r pwyllgor gan y Bwrdd, ynghyd â chrynodeb o waith y pwyllgor yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022.

Rheoli risg

Ystyriodd y pwyllgor brosesau ar gyfer rheoli risgiau ac ansicrwydd sylweddol o fewn S4C. Cyflwynwyd y fersiwn ddiweddaraf o gofrestr risg strategol y sefydliad i bob cyfarfod o’r pwyllgor, gydag aelodau’n craffu ar y prif risgiau sy’n wynebu S4C a’r camau lliniaru a gymerwyd. Yn ystod 2021–22, roedd y risgiau allweddol hynny’n cynnwys cydleoli gwasanaethau darlledu technegol gyda’r BBC, opsiynau ar gyfer cynnal y system rheoli darlledu fewnol BSM yn y dyfodol, yn ogystal ag ystyriaethau seibr-ddiogelwch ehangach.

Mae'r adroddiad yn nodi'r cyfrifoldebau a ddirprwyir i'r pwyllgor gan y Bwrdd, ynghyd â chrynodeb o waith y pwyllgor yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022.

Trefniadau archwilio mewnol

Yn ystod 2021–22, parhaodd y pwyllgor i oruchwylio gwaith archwilwyr mewnol S4C, TIAA, a rhoddwyd ystyriaeth i’w hadroddiadau, ymatebion gan reolwyr a chynlluniau gweithredu oedd yn ymateb i argymhellion perthnasol. Rhoddodd y Pwyllgor hefyd ystyriaeth i asesiad o anghenion archwilio S4C a chymeradwyodd gynllun gwaith blynyddol yr archwilwyr mewnol.

Mae'r adroddiad yn nodi'r cyfrifoldebau a ddirprwyir i'r pwyllgor gan y Bwrdd, ynghyd â chrynodeb o waith y pwyllgor yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022.

Cwblhawyd chwe archwiliad mewnol gan TIAA yn ystod 2021–22, mewn perthynas â: Cydymffurfiaeth Cynnwys; y tîm Brand a Chreadigol; Rheolaethau Ariannol Allweddol; Cynllunio Strategol; y Tîm Cyfreithiol; a’r adroddiad Dilynol Blynyddol.

Mae'r adroddiad yn nodi'r cyfrifoldebau a ddirprwyir i'r pwyllgor gan y Bwrdd, ynghyd â chrynodeb o waith y pwyllgor yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022.

Penodwyd TIAA yn wreiddiol fel archwilwyr mewnol S4C yn 2019, am gyfnod yn cwmpasu’r tair blynedd adrodd hyd at 2021–22. Yn dilyn proses dendro gystadleuol yn gynnar yn 2022, ailbenodwyd TIAA gan y Pwyllgor fel archwilwyr mewnol o 01 Ebrill 2022 ar gyfer cyfnod o dair (ac hyd at bum) mlynedd.

Perthynas gyda’r archwilwyr allanol

Roedd y Pwyllgor yn gyfrifol am oruchwylio’r berthynas gydag archwilwyr allanol S4C (y NAO), gan gynnwys cwmpas eu gwaith a’u dull gweithredu, eu ffioedd, eu perfformiad a’u hannibyniaeth (gan gynnwys y polisi ar waith nad yw’n waith archwilio).

Mae'r adroddiad yn nodi'r cyfrifoldebau a ddirprwyir i'r pwyllgor gan y Bwrdd, ynghyd â chrynodeb o waith y pwyllgor yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022.

Llywodraethiant corfforaethol

Mae’r pwyllgor yn parhau i oruchwylio effeithiolrwydd trefniadau a rheolaethau llywodraethiant corfforaethol S4C, gan gynnwys cyflawni’r argymhellion a wnaed yn archwiliad mewnol 2021 o strwythurau llywodraethu corfforaethol.

Mae'r adroddiad yn nodi'r cyfrifoldebau a ddirprwyir i'r pwyllgor gan y Bwrdd, ynghyd â chrynodeb o waith y pwyllgor yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022.

Parhad busnes

Rhoddodd y pwyllgor ystyriaeth unwaith eto i drefniadau parhad busnes S4C yn ystod 2021–22, gan enwedig yn sgil cydleoli a rhannu swyddogaethau darlledu technegol S4C a BBC Cymru yng Nghanolfan Ddarlledu newydd y BBC yn Sgwâr Canolog, Caerdydd.

Mae'r adroddiad yn nodi'r cyfrifoldebau a ddirprwyir i'r pwyllgor gan y Bwrdd, ynghyd â chrynodeb o waith y pwyllgor yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022.

Rhaglen gwerth am arian

Ystyriodd y pwyllgor adroddiad blynyddol ar asesu a chynnal gwerth am arian gwasanaethau S4C.

Mae'r adroddiad yn nodi'r cyfrifoldebau a ddirprwyir i'r pwyllgor gan y Bwrdd, ynghyd â chrynodeb o waith y pwyllgor yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022.

Materion Personél a Chydnabyddiaeth

Yn ystod y cyfnod rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i faterion yn cynnwys trefniadau gweithio staff mewn ymateb i’r pandemig Covid, darpariaeth hyfforddiant a datblygu staff, mentrau iechyd meddwl, a chanlyniadau a’r ymateb i’r Arolwg Staff blynyddol.

Mae'r adroddiad yn nodi'r cyfrifoldebau a ddirprwyir i'r pwyllgor gan y Bwrdd, ynghyd â chrynodeb o waith y pwyllgor yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022.

Cylch Gorchwyl y Pwyllgor

Adolygwyd cylch gorchwyl y Pwyllgor yn ystod chwarter olaf 2021-22, yng nghyd-destun adolygiad ehangach o strwythurau a chyfrifoldebau pwyllgorau’r Bwrdd Unedol.

Mae'r adroddiad yn nodi'r cyfrifoldebau a ddirprwyir i'r pwyllgor gan y Bwrdd, ynghyd â chrynodeb o waith y pwyllgor yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022.

O 01 Ebrill 2022, bydd y Pwyllgor presennol yn trosi i fod yn Bwyllgor Archwilio a Risg, gyda’r cyfrifoldeb dros faterion adnoddau dynol a chydnabyddiaeth yn trosglwyddo i Bwyllgor Pobl a Thaliadau newydd.

Mae'r adroddiad yn nodi'r cyfrifoldebau a ddirprwyir i'r pwyllgor gan y Bwrdd, ynghyd â chrynodeb o waith y pwyllgor yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022.

Fel rhan o’r adolygiad o strwythurau pwyllgorau’r Bwrdd Unedol yn ystod 2021-22, ystyriodd y Pwyllgor ei effeithiolrwydd ei hun a chytunodd ar rai newidiadau i’r modd y bydd yn ymdrin â’i fusnes fel Pwyllgor Archwilio a Risg – gan gynnwys cynnal sesiynau rheolaidd er mwyn manylu ar risgiau sefydliadau allweddol.

Swyddogaethau a Systemau Cyllid

Mae'r Paratoi'r Gyllideb yn gysylltu'r ffordd gyda'r ffordd.

Mae'r Paratoi'r Gyllideb yn gysylltu'r ffordd gyda'r ffordd.

Mae'r Paratoi'r Gyllideb yn gysylltu'r ffordd gyda'r ffordd.

Mae'r Paratoi'r Gyllideb yn gysylltu'r ffordd gyda'r ffordd.

Paratoi'r Gyllideb flynyddol a chynlluniau ariannol hir dymor Cymeradwyir cyllideb S4C ar gyfer pob blwyddyn ariannol (ac unrhyw ddiwygiadau dilynol iddi) gan y Bwrdd. Mae'r Bwrdd hefyd yn ystyried a chymeradwyo cynllun ariannol pum mlynedd sy'n gosod cyfeiriad hir dymor ac yn ogystal ceir cynllun ariannol amcanol pum mlynedd.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli yn gyfrifol am ystyried yn fanwl cyllidebau blynyddol drafft ar gyfer S4C, ynghyd â chynlluniau ariannol tymor hir ac i argymell cyllidebau a chynlluniau o'r fath i'r Bwrdd i'w hystyried a'u cymeradwyo.

Swyddogaethau Archwilio

Mae gan y Bwrdd ddyletswydd statudol i sicrhau trefniadau archwilio priodol ar gyfer holl agweddau o faterion ariannol S4C. Rhennir y swyddogaeth archwilio yn ddau gytundeb – ar gyfer materion Archwilio Allanol a materion Archwilio Mewnol.

Trefniadau Archwilio Allanol

Yn dilyn argymhelliad yr Adolygiad Annibynnol o S4C yn ymwneud â threfniadau archwilio S4C, daethpwyd i gytundeb ym mis Hydref 2019 rhwng S4C a'r NAO, gan hwyluso'r Ysgrifennydd Gwladol i benodi'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol fel archwilwyr allanol S4C, hyd nes bydd y ddeddfwriaeth berthnasol wedi'i diwygio. Cytunwyd ar Lythyr Ymgysylltu rhwng yr NAO a S4C.

Adroddiad yr Archwilwyr Allanol

Mae Adroddiad yr Archwilwyr Allanol i'r Bwrdd Unedol i'w weld oddi fewn i adran y datganiadau ariannol ar gyfer 2021–22.

Archwilio Mewnol

Yn dilyn proses dendro gyhoeddus, penodwyd TIAA fel Archwilwyr Mewnol S4C ym mis Medi 2019 am gyfnod o dair blynedd (tan ddiwedd y flwyddyn ariannol 2021–22). Ar 16 Chwefror 2022, penodwyd TIAA am gyfnod pellach yn dilyn proses dendro gyhoeddus. Byddant yn awr yn gwasanaethu fel Archwilwyr Mewnol S4C am gyfnod o dair blynedd yn cychwyn 01 Ebrill 2022, gyda'r posibilrwydd o ddau estyniad o flwyddyn fel bo'n briodol.

Mae'r Archwilwyr Mewnol yn gysylltu'r ffordd gyda'r ffordd.

Cynhaliwyd gwaith archwilio mewnol trwy gydol y flwyddyn i roi sicrwydd i'r pwyllgor ynglŷn â gweithrediad a dilysrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae'r Archwilwyr Mewnol yn mynd ati'n annibynnol i adolygu'r broses reoli a weithredir gan y rheolwyr ac yn adrodd i'r Swyddog Cyfrifo a'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol. Mae camau cywiro sydd wedi eu cynllunio yn cael eu monitro'n annibynnol gan y Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol ar gyfer eu cwblhau'n brydlon rhag ofn bod rheolaethau gwan neu amhriodol i'w cael, sydd felly'n creu elfen o risg i'r sefydliad.

Mae'r Rheoli Risg yn gysylltu'r ffordd gyda'r ffordd.

Mae'r Rheoli Risg yn gysylltu'r ffordd gyda'r ffordd.

Mae'r Rheoli Risg yn gysylltu'r ffordd gyda'r ffordd.

Mae'r Rheoli Risg yn gysylltu'r ffordd gyda'r ffordd.

Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol

Mae adnabod a rheoli risgiau yn greiddiol i waith y Bwrdd. Mae gan y Bwrdd a'r Tîm Rheoli gyfrifoldeb clir i adnabod risgiau sy'n wynebu S4C ac am roi gweithdrefnau yn eu lle er mwyn monitro a lliniaru risgiau o'r fath. Mae'r Bwrdd a'r Tîm Rheoli yn gweithredu fframwaith rheoli risg ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol a wynebir gan S4C. Mae'r fframwaith hwn wedi ei ddatblygu yn unol â chanllawiau arfer da perthnasol ar reolaethau mewnol a rheoli risg.

Mae'r Rheoli Risg yn gysylltu'r ffordd gyda'r ffordd.

Yn dilyn cyhoeddi arweiniad i gyfarwyddwyr ar reolaeth fewnol, Rheolaeth Fewnol; Arweiniad i Gyfarwyddwyr ar y Côd Cyfun (arweiniad Turnbull), mae'r Bwrdd yn cadarnhau bod proses barhaus i adnabod, gwerthuso a rheoli'r risgiau sylweddol a wynebir gan y grŵp wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn dan sylw a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiad Ariannol, a bod y broses hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd Unedol a'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol yn unol â'r canllawiau.

Mae'r Adroddiad hwn yn nodi'r prosesau perthnasol a roddwyd

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prosesau perthnasol a roddwyd ar waith i adnabod a rheoli risgiau a hefyd yn nodi'r risgiau strategol allweddol a nodwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol a'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Adroddiad hwn yn nodi'r prosesau perthnasol a roddwyd

Mae elfennau allweddol y system rheolaeth fewnol fel a ganlyn:

Mae'r Rheoli Risg yn gysylltu'r ffordd gyda'r ffordd.

Rheolaeth Ariannol

Mae S4C yn gweithredu system gynhwysfawr ar gyfer adrodd ar reolaeth sy'n cynnwys paratoi cyllidebau blynyddol ar gyfer pob canolfan cost. Caiff y cyllidebau hyn eu cymeradwyo gan y Bwrdd fel rhan o'r gyllideb gyffredinol am y flwyddyn. Adroddir yn fisol ar ganlyniadau'r canolfannau cost a chaiff y canlyniadau eu cymharu â'r gyllideb. Ymchwilir i amrywiadau sylweddol o'u cymharu â'r gyllideb fel y bo'n briodol. Mae rhagolygon ar gyfer ymrwymadau'n cael eu paratoi'n rheolaidd trwy gydol y flwyddyn.

Adroddiadau Ariannol

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu systemau rheolaeth fewnol a systemau rheoli risg sy'n ymwneud â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y grŵp a phroses y grŵp ar gyfer paratoi cyfrifon cyfun. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol yn gyfrifol am oruchwylio a monitro'r prosesau hyn, sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod y Bwrdd yn cydymffurfio â'r darpariaethau adrodd a rheoleiddio perthnasol.

Trefniadau Chwythu'r Chwiban

Mae gan S4C bolisi 'chwythu'r chwiban' (datgelu gwybodaeth) er mwyn hwyluso'r broses o gyfathrebu gwybodaeth gyfrinachol berthnasol neu unrhyw ddigwyddiad mewn modd cyfrinachol. Mae'r polisi ar gael ar fewnrwyd S4C. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol, ar ran y Bwrdd, yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer ymchwilio, mewn modd cymesur, i faterion a gyflwynwyd ac ar gyfer camau priodol yn dilyn unrhyw ymchwiliad.

Mae'r Monitro Rheolaethau a Risgiau'r Busnes

Mae'r Monitro Rheolaethau a Risgiau'r Busnes

Mae'r Monitro Rheolaethau a Risgiau'r Busnes

Mae'r Monitro Rheolaethau a Risgiau'r Busnes

Monitro Rheolaethau a Risgiau'r Busnes Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r dasg o adnabod a gwerthuso'r risgiau sylweddol sy'n berthnasol i'r busnes i'r Tîm Rheoli, ynghyd â chynllunio a gweithredu rheolaethau mewnol priodol. Asesir y risgiau hyn ar sail barhaus a gallant fod yn gysylltiedig ag amrywiaeth o ffynonellau mewnol neu allanol gan gynnwys toriadau mewn goruchwyliaeth, amhariad ar y systemau gwybodaeth, cystadleuaeth, trychinebau naturiol a gofynion rheoleiddio.

Mae'r Prif Weithredwr yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd Unedol

Mae'r Prif Weithredwr yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd Unedol a'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol am faterion rheoli risg, ac mae'r Pwyllgor yn ystyried y Gofrestr Risgiau Strategol yn gyfnodol. Mae'r Prif Weithredwr yn adrodd i'r Bwrdd ar ran y Tîm Rheoli ar newidiadau sylweddol yn y busnes a'r amgylchedd allanol sy'n effeithio'r risgiau sylweddol.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn darparu gwybodaeth ariannol i'r

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn darparu gwybodaeth ariannol i'r Bwrdd yn chwarterol, sy'n cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol a risg. Lle nodir meysydd ar gyfer gwelliant yn y system, mae'r Bwrdd yn ystyried yr argymhellion a wneir gan y Tîm Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn darparu gwybodaeth ariannol i'r

Asesu'r Prif Risgiau, Ansicrwydd a Chyfleoedd

Mae Cofrestr Risg Strategol S4C yn seiliedig ar asesiad o Flaenoriaethau Strategol S4C a'r risgiau all effeithio ar ddarparu'r blaenoriaethau hyn. Darparodd swyddogion adroddiadau rheolaidd yn ystod y flwyddyn ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol er mwyn iddynt allu monitro rheoli risg a gwelliannau i'r gofrestr risg. Yn ogystal, darparwyd adroddiadau a sicrwydd perthnasol gan yr archwilwyr mewnol er mwyn galluogi'r pwyllgor i asesu proffil risg S4C yn ystod y flwyddyn. Mae'r asesiad risg a nodir isod yn cynnwys crynodeb o'r prif risgiau ac ansicrwydd a adnabuwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol yn ystod y flwyddyn. Bwriad y rhain yw nodi ar lefel strategol risgiau posibl allai gael effaith sylweddol ar allu S4C i gyflawni ei rwymedigaethau statudol.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn darparu gwybodaeth ariannol i'r

Mae'r prif feysydd risg a nodwyd yn parhau'n debyg i'r rhai a nodwyd yn y flwyddyn flaenorol, a gellir eu categoreiddio fel rhai'n ymwneud â darparu ac ansawdd gwasanaeth S4C, materion strategol, a materion ariannol a llywodraethiant.

1

Y Gynulleidfa a Pherfformiad y Gwasanaeth

Prif ddyletswydd S4C yw darparu gwasanaeth teledu digidol iaith Gymraeg sy'n cynnwys ystod eang o raglenni amrywiol o ansawdd uchel. Er mwyn darparu gwasanaeth o'r fath, rhaid i'r Bwrdd sicrhau ei fod yn gwrando ar anghenion ei gynulleidfa, bod S4C yn ymateb yn briodol i'r anghenion hyn a bod y sector cynhyrchu annibynnol yn gallu darparu cynnwys o ansawdd uchel.

Mae'r Bwrdd yn arolygu ansawdd y gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn, gan ddefnyddio ystod eang o ffynonellau gwybodaeth annibynnol ac ymgynghori yn eang â'r gynulleidfa gan ddefnyddio nifer o wahanol ddulliau. Er nad oedd modd cynnal Nosweithiau Gwylwyr yn ystod 2021–22 yn sgil cyfyngiadau COVID-19, cynhaliwyd sesiwn Facebook Live yn ogystal â phaneli ymateb a grwpiau ffocws. Mae S4C yn ogystal, gan weithio'n agos gyda chynhyrchwyr annibynnol, wedi trafod sylwadau'r gynulleidfa a nodi ffyrdd o wella'r allbwn rhaglenni tra hefyd yn sicrhau gwerth am arian drwy'r cydweithio hyn.

Mae'r Bwrdd yn arolygu ansawdd y gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn

Mewn amgylchedd o lwyfannau cyfryngol sy'n datblygu'n gyflym, mae angen i S4C sicrhau ei bod yn gallu mynd i'r afael â phatrymau gwylïo a gofynion y gynulleidfa ar gyfer cynnwys ar draws gwahanol lwyfannau digidol cyfredol ac yn y dyfodol, gan gynnwys gwasanaethau ar-lein, Manylder Uwch a fformatau cynnwys eraill. Mae'r Bwrdd yn fodlon bod gan S4C y prosesau ar waith i fonitro a dadansoddi perfformiad S4C ar draws yr amrywiol wasanaethau y mae'n eu darparu. Fodd bynnag, mae cwrdd â disgwyliadau cynyddol gwylwyr gan gynnwys cost darparu mwy o ddewis a chynnwys o ansawdd ar gynifer o lwyfannau a dyfeisiau â phosibl yn gofyn am fuddsoddiad parhaus, a bydd angen iddo fod yn rhan o drafodaethau cyllidebol yn y dyfodol.

Mae gofyn i'r system gymhleth o seilwaith technegol sy'n ganolog i allu S4C i ddarparu ei gynnwys dros ystod gynyddol o lwyfannau i gynnal lefel uchel iawn o argaeledd gwasanaethau ac ansawdd ar sail 24/7. Mae cynlluniau parhad busnes o fewn S4C wedi eu cynllunio er mwyn sicrhau bod y systemau technegol hyn yn gadarn a bod trefniadau priodol a chymesur yn eu lle er mwyn dygymod gyda digwyddiadau technegol sylweddol. Ers Ionawr 2021, mae S4C wedi cyd-leoli gwasanaethau darlledu technegol gyda rhai BBC Cymru Wales yn Sgwâr Canolog, Caerdydd.

2

Strategol ac Ariannol

3

Yn ystod 2021–22 deilliodd cyllid y Bwrdd o dair ffynhonnell, sef cymorth grant gan yr Adran Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon; o ffi'r drwydded; ac incwm masnachol a gynhyrchwyd gan S4C. O fis Ebrill 2022 ymlaen, bydd arian cyhoeddus S4C yn cael ei ddarparu'n gyfan gwbl drwy ffi'r drwydded, gyda'r holl benderfyniadau ariannu yn y dyfodol yn cael eu gwneud fel rhan o setliad ariannu ffi'r drwydded.

Ym mis Ionawr 2022, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol at S4C i gadarnhau setliad ffi'r drwydded 2022 – ac wrth wneud hynny, cydnabuwyd statws ddiwylliannol a chymdeithasol unigryw S4C fel yr unig ddarlledwr Cymraeg yn y DU, sy'n chwarae rhan hanfodol yn nyfodol y Gymraeg ac uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Cadarnhawyd y bydd S4C, o 01 Ebrill 2022 ymlaen, yn gweld ei chyllid blaenorol o ffi'r drwydded (£74.5 miliwn y flwyddyn) ynghyd â'r incwm grant gan DCMS (£6.85 miliwn y flwyddyn) yn cael eu cyfuno. Dyfarnwyd £7.5 miliwn arall y flwyddyn o ffi'r drwydded i gefnogi datblygiad digidol S4C.

Bydd hyn yn rhoi cyfanswm o tua £88.85 miliwn o gyllid ffi'r drwydded i S4C o 01 Ebrill 2022, gyda'r swm hwn yn cynyddu'n flynyddol yn unol â graddfa chwyddiant y CPI o 01 Ebrill 2024 tan ddiwedd cyfnod y setliad (31 Mawrth 2028).

Roeddem hefyd yn falch bod y Canghellor wedi cyhoeddi ar y 9 Fawrth 2020 y bydd Llywodraeth y DU yn dod â threfniadau TAW S4C yn unol â darlledwyr ledled y DU fel y BBC, ac mae S4C wedi gallu adennill y TAW y mae'n ei thalu ar ei chostau o Ebrill 2021 ymlaen.

3

Strwythur a Llywodraethiant

Mae system a gweithdrefnau llywodraethiant corfforaethol y Bwrdd yn cael eu hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn ac yn addas.

Cwblhawyd adolygiad sicrwydd o lywodraethiant ac effeithiolrwydd y Bwrdd yn ystod 2020 gan TIAA (yr Archwilywr Mewnol). Ystyriodd yr adolygiad y trefniadau lefel uchel sydd mewn lle trwy drafodaethau gydag Aelodau'r Bwrdd a chymariaethau gyda chyfarwyddyd arfer gorau, er mwyn darganfod effeithiolrwydd y Bwrdd Unedol newydd. Mae'r Bwrdd wedi gweithredu mwyafrif yr argymhellion yn barod.

Mae'r Bwrdd yn arolygu ansawdd y gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn

Yn dilyn Adolygiad Annibynnol o S4C a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018, mae'r Bwrdd eisoes wedi gweithredu nifer o'r argymhellion yn ymwneud â strwythur a llywodraethu S4C. Mae hyn yn cynnwys apwyntio'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol fel archwilydd allanol S4C yn 2019, a thrafodaethau parhaus gyda'r DCMS ynghylch gwneud newidiadau yn neddfwriaeth sylfaenol i gyflawni argymhellion yr Adolygiad.

Mae Cytundeb Ariannu, Partneriaeth ac Atebolrwydd rhwng S4C a'r BBC wedi bod mewn lle ers mis Tachwedd 2017. Mae'r Bwrdd wedi rhoi prosesau adrodd ar gyfer cyflwyno sicrwydd ariannol i Fwrdd y BBC ar waith ac wedi cyflwyno adroddiadau i Bwyllgor Archwilio'r BBC. Gyda S4C yn cael ei hariannu'n llawn o'r ffi drwydded yn 2022, mae'r ddau barti wedi bod yn adolygu siâp y berthynas yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda'r nod o foderneiddio'r bartneriaeth, cydnabod y byd amlgyfrwng a symleiddio trefniadau lle bynnag y bo modd. Mae trafodaethau'n parhau a bydd angen i Fwrdd S4C a DCMS cymeradwyo unrhyw newidiadau arfaethedig.

Adroddiad Polisi Cyflogaeth S4C

Adroddiad Polisi Cyflogaeth S4C

Mae’r adroddiad hwn yn nodi materion yn cynnwys polisi cyflogaeth a chydabyddiaeth S4C ac adroddiad cyflog ar sail rhyw.

Adroddiad Polisi Cyflogaeth S4C

Cyfleoedd cyfartal

Mae S4C yn gyflogwr cyfle cyfartal. Nid yw’n goddef gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol, gweithwyr rhan-amser neu weithwyr llawn-amser, crefydd, daliadau gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, defnydd o iaith neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall ac mae’n ymroddedig i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol. Defnyddir egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored a gwneir penodiadau ar sail teilyngdod.

Mae S4C yn gweithredu system arfarnu sy’n pennu amcanion personol ar gyfer pob aelod o staff gan gynnwys y Tîm Rheoli. Mae’r amcanion hyn yn seiliedig ar amcanion corfforaethol blynyddol S4C a chaiff perfformiad mewn perthynas â’r amcanion hyn gan bob aelod o staff ei fonitro a’i werthuso fel rhan o system arfarnu staff S4C.

O dan y polisi cydnabyddiaeth a chytundebau cyflogaeth presennol nid yw S4C yn gweithredu unrhyw drefniadau cyflog neu gydnabyddiaeth sy’n gysylltiedig â pherfformiad ac nid oes unrhyw daliadau bonws neu elfennau cyflog dewisol yn cael eu talu i staff S4C.

Mae'r Bwrdd yn arolygu ansawdd y gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn

Cydnabyddiaeth Aelodau Gweithredol y Bwrdd

Pennir cydnabyddiaeth Aelodau Gweithredol y Bwrdd Unedol gan Aelodau Anweithredol y Bwrdd yn unol â'r darpariaethau statudol perthnasol a Rheolau Sefydlog y Bwrdd.

Adroddiad Polisi Cyflogaeth S4C

Adroddiad Polisi Cyflogaeth S4C

Mae’r adroddiad hwn yn nodi materion yn cynnwys polisi cyflogaeth a chydabyddiaeth S4C ac adroddiad cyflog ar sail rhyw.

Adroddiad Polisi Cyflogaeth S4C

Cydnabyddiaeth Aelodau Anweithredol y Bwrdd

Caiff cydnabyddiaeth a chyfnod penodiad y Cadeirydd ac aelodau anweithredol y Bwrdd eu pennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Nodir manylion tâl y Cadeirydd a’r Aelodau yn Nodyn 6 y Datganiad Ariannol.

Ni ddyfarnwyd unrhyw gynnydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystod y cyfnod i lefel cydnabyddiaeth aelodau anweithredol y Bwrdd na’r Cadeirydd.

Adroddiad Polisi Cyflogaeth S4C

Adroddiad Polisi Cyflogaeth S4C

Cydnabyddiaeth Aelodau Gweithredol y Bwrdd

Mae cyflogau’r Prif Weithredwr, yr Ysgrifennydd ac aelodau’r Tîm Rheoli yn cael eu pennu gan y Bwrdd. Caiff cyflogau aelodau eraill staff S4C eu pennu gan y Prif Weithredwr a’r Tîm Rheoli o fewn y gyllideb flynyddol a gymeradwywyd gan y Bwrdd.

Caiff pob codiad cyflog cyffredinol ar gyfer aelodau staff ei gadarnhau gan y Bwrdd ar argymhelliad y Prif Weithredwr a’r Tîm Rheoli. Cyflog canolrif yr holl staff ac eithrio’r Tîm Rheoli ar 31 Mawrth 2022 oedd £33,357 (ar 31 Mawrth 2021 - £33,901).

Perfformiad y Prif Weithredwr a’r Tîm Rheoli

Mae perfformiad y Prif Weithredwr yn cael ei asesu yn flynyddol gan y Bwrdd. Mae’r broses hon yn cael ei arwain gan y Cadeirydd.

Mae S4C yn gweithredu system o asesu perfformiad ac amcanion personol a chorfforaethol ar gyfer aelodau’r Tîm Rheoli. Caiff yr amcanion hyn eu cytuno rhwng y Prif Weithredwr ac aelodau unigol y Tîm Rheoli ar ddechrau’r flwyddyn a bydd eu perfformiad yn eu herbyn yn cael eu hasesu gan y Prif Weithredwr yn ystod ac yn dilyn diwedd y flwyddyn.

Cyflog canolrif y Tîm Rheoli ar 31 Mawrth 2022 oedd £95,567 (ar 31 Mawrth 2021 - £103,777). Roedd y cyfarwyddwr â’r cyflog uchaf yn derbyn 4.8 gwaith yn fwy na thâl canolrifol yr holl staff ac eithrio’r Tîm Rheoli (2020–21 - 4.7 gwaith).

Yn dilyn ymchwiliad i'r holl staff, roedd y cyflog uchaf yn derbyn 4.8 gwaith yn fwy na thâl canolrifol yr holl staff ac eithrio’r Tîm Rheoli (2020–21 - 4.7 gwaith).

Polisi Cydnabyddiaeth

Yn dilyn ymchwiliad i'r holl staff, roedd y cyflog uchaf yn derbyn 4.8 gwaith yn fwy na thâl canolrifol yr holl staff ac eithrio’r Tîm Rheoli (2020–21 - 4.7 gwaith).

Cymeradwyodd y Bwrdd setliad cyflog blynyddol o 1% gydag isafswm o £400 a ddyfarnwyd i staff yn ystod y flwyddyn.

Bwriad y cynnydd yw sicrhau cydbwysedd rhwng cydnabod cyfraniad pwysig staff i lwyddiant y gwasanaeth gyda’r angen i sicrhau fod costau staffio S4C yn parhau i gyfrif am ganran fechan o gyfanswm gwariant S4C ac yn darparu gwerth am arian o fewn setliad ariannol presennol S4C.

Mae lefel cydnabyddiaeth penodiadau newydd yn cael ei feincnodi gyda swyddi tebyg o fewn y farchnad er mwyn sicrhau y gall S4C ddenu unigolion sydd â chymwysterau addas.

Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a’r Tîm Rheoli

Nodir manylion cyflog y Prif Weithredwr a’r Tîm Rheoli yn Nodyn 6 y Datganiad Ariannol.

Ag eithrio’r Prif Weithredwr, mae aelodau’r Tîm Rheoli a gyflogwyd cyn Ionawr 2012 yn cael eu cyflogi ar gytundebau parhaol. Mae unrhyw benodiadau i’r Tîm Rheoli a’r Tîm Comisiynu ers mis Ionawr 2012 ar sail cytundebau tymor penodol, ar wahân i’r unigolion a gyflogwyd eisoes gan S4C cyn 2012 ar gytundebau parhaol oedd eisoes yn bodoli.

Yn dilyn ymchwiliad i'r holl staff, roedd y cyflog uchaf yn derbyn 4.8 gwaith yn fwy na thâl canolrifol yr holl staff ac eithrio’r Tîm Rheoli (2020–21 - 4.7 gwaith).

Yn dilyn ymchwiliad i'r holl staff, roedd y cyflog uchaf yn derbyn 4.8 gwaith yn fwy na thâl canolrifol yr holl staff ac eithrio’r Tîm Rheoli (2020–21 - 4.7 gwaith).

Cyfansoddiad gweithlu S4C

Yn dilyn ymchwiliad i'r holl staff, roedd y cyflog uchaf yn derbyn 4.8 gwaith yn fwy na thâl canolrifol yr holl staff ac eithrio’r Tîm Rheoli (2020–21 - 4.7 gwaith).

Ar 31 Mawrth 2022, roedd gweithlu S4C yn cynnwys 61% o ferched a 39% o ddynion (ar 31 Mawrth 2020 - 59% yn ferched a 41% yn ddynion).

Yn dilyn ymchwiliad i'r holl staff, roedd y cyflog uchaf yn derbyn 4.8 gwaith yn fwy na thâl canolrifol yr holl staff ac eithrio’r Tîm Rheoli (2020–21 - 4.7 gwaith).

Yn dilyn ymchwiliad i'r holl staff, roedd y cyflog uchaf yn derbyn 4.8 gwaith yn fwy na thâl canolrifol yr holl staff ac eithrio’r Tîm Rheoli (2020–21 - 4.7 gwaith).

Rheoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser a Neilltuir)

Yn unol â’r Rheoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser a Neilltuir) 2017, mae’r adroddiad hwn yn nodi faint o amser y mae cyflogeion S4C wedi ei dreulio ar faterion yn ymwneud gyda gwaith yr undeb.

Swyddogion undeb perthnasol
Yn ystod y flwyddyn, roedd un cyflogai yn gweithredu fel swyddog undeb perthnasol.

Canran yr amser a dreuliwyd ar waith undebol
Treuliodd y cyflogai perthnasol 3 awr dan gontract ar waith undebol.

Canran y gwariant cyflogau sy’n cael ei wario ar amser ar gyfer gwaith undebol
Roedd llai nag 1% o gyfanswm y bil cyflog yn cael ei wario ar amser ar gyfer gwaith undebol.

Adroddiad Cyflog ar Sail Rhyw

Daeth deddfwriaeth cyflog rhwng y rhywiau newydd i rym ym mis Ebrill 2017, gan ei gwneud yn ofynnol i bob cwmni yn y DU sydd â thros 250 o weithwyr gyhoeddi eu bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Er nad oes gan S4C fwy na 250 o weithwyr, rydym wedi penderfynu cyhoeddi data cyflog ar sail rhyw.

Yn dilyn ymchwiliad i'r holl staff, roedd y cyflog uchaf yn derbyn 4.8 gwaith yn fwy na thâl canolrifol yr holl staff ac eithrio’r Tîm Rheoli (2020–21 - 4.7 gwaith).

Mae bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn dangos y gwahaniaeth rhwng cyflog cyfartalog yr holl staff benywaidd a chyflog cyfartalog yr holl staff gwrywaidd, heb ystyried unrhyw wahaniaethau yn y gwaith y maent yn ei wneud. O ganlyniad, mae’n cael ei effeithio gan natur y gweithlu, gan gynnwys niferoedd mewn gwahanol fathau o swyddi ac ar lefelau gwahanol o fewn y sefydliad.

Nod S4C yw sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ar draws ein gweithlu, o ran statws, cydnabyddiaeth ariannol a natur y gwaith.

Ar draws y sefydliad cyfan, roedd y bwlch canolrif mewn cyflogau rhwng y rhywiau ar gyfartaledd yn 12.2% (2020/21 – 22.5%) a’r bwlch cyflog cyfartalog rhwng y rhywiau yn 22.0% (2020/21 – 30.6%).

Nodir isod ddata ar gyfer canran y staff gwrywaidd a benywaidd a’r bwlch cyflog o fewn sectorau a elwir yn chwarteli (sy’n fandiâu cyflog o’r un maint, o’r 25% o weithwyr ar y cyflog isaf i’r 25% ar y cyflog uchaf).

Yn ystod y flwyddyn cynyddodd nifer staff S4C gan arwain at newid nifer y staff ym mhob chwartel. Mae’r chwartel uchaf yn parhau i adlewyrchu cydbwysedd rhwng y rhywiau bron i 50:50. Er y bu gwelliant bach yn y chwartel uchaf, mae’r chwartel canol uchaf yn dangos newid yn y bwlch cyflog canolrifol tuag at fenywod.

Yn dilyn ymchwiliad i'r holl staff, roedd y cyflog uchaf yn derbyn 4.8 gwaith yn fwy na thâl canolrifol yr holl staff ac eithrio’r Tîm Rheoli (2020–21 - 4.7 gwaith).

Year	Cyfanswm		Chwartel uchaf		Canol uchaf		Canol is		Chwartel Isaf	
	Gwryw	Benyw	Gwryw	Benyw	Gwryw	Benyw	Gwryw	Benyw	Gwryw	Benyw
% staff 2021/22	41%	59%	47%	53%	63%	37%	23%	77%	30%	70%
% staff 2020/21	39%	61%	46%	54%	64%	36%	25%	75%	21%	79%

2021/22	£41,046	£32,000	£76,015	£71,112	£41,850	£44,361	£32,400	£30,518	£24,000	£23,948
Canolrif bwlch cyflog % 2021/22	22.0%		6.5%		-6.0%		10.0%		0.2%	
2020/21	£42,976	£29,840	£81,280	£69,088	£42,976	£41,961	£32,382	£29,159	£23,346	£23,230
Canolrif bwlch cyflog % 2020/21	30.6%		15.0%		2.4%		5.8%		0.5%	
2021/22	£47,606	£41,782	£76,641	£79,962	£43,061	£43,499	£31,871	£30,877	£24,274	£23,736
Cyfartaledd bwlch cyflog % 2021/22	12.2%		-4.3%		-1.0%		3.1%		2.2%	
2020/21	£50,358	£39,025	£82,609	£72,494	£43,352	£41,643	£31,531	£29,864	£23,464	£23,759
Cyfartaledd bwlch cyflog % 2020/21	22.5%		12.2%		3.9%		5.3%		-1.3%	

Mae’r chwartel canol isaf wedi gwella gan adlewyrchu rhaniad mwy cytbwys. Yn y ddau chwartel isaf, mae gennym anghydbwysedd yn y rhaniad rhwng y rhywiau, gyda mwy o swyddi’n cael eu gwneud gan fenywod. Fodd bynnag, mae’r chwartel isaf yn dangos bwlch cyflog canolrif cytbwys.

Er mwyn helpu i fynd i’r afael â’r anghydbwysedd rhwng y rhywiau, cynhaliodd S4C hyfforddiant Amrywiaeth a Chydraddoldeb i’w holl staff. Yn ogystal, mae Swyddog Amrywiaeth a Chynhwysiant S4C yn parhau i gefnogi’r sefydliad i hybu ymwybyddiaeth ac arfer gorau. Mae S4C yn cynnig gweithio hyblyg a hybrid ar ei holl swyddi gwag, yn ogystal â sicrhau bod y swyddi’n cael eu hysbysebu ar ystod eang o lwyfannau, gan gymryd camau penodol i gyrraedd pobl o gefndiroedd sy’n cael eu tangynrychioli yn y sector.

Mae gan S4C banel personél sy’n cyfarfod yn rheolaidd i drafod swyddi gwag, newidiadau i swyddi a chyflogau. Mae pob cyflog yn cael ei feincnodi’n allanol gyda diwydiannau tebyg.

Mae S4C yn parhau i gymryd camau priodol i leihau’r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ymhellach, gan gynnwys y mentrau a grybwyllir uchod, ochr yn ochr ag adolygiad rheolaidd o arfer gorau yn y diwydiant ac yn y bydd corfforaethol yn ehangach. Mae’r lefel is o drosiant ymhlith staff o fewn yr hyn sy’n sefydliad bach yn golygu y bydd effeithiau’r mentrau hyn yn cymryd amser ychwanegol i ddod i’r amlwg yn S4C.

Datganiad Ariannol 2021/22

Adroddiad S4C am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2022

Rhagair

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys Datganiad Ariannol S4C am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2022, ynghyd â nodiadau esboniadol.

Rhagair

Cyflwynir Datganiad Ariannol S4C am y flwyddyn a derfynodd ar 31 Mawrth 2022 yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a ryddhawyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i S4C ym mis Mawrth 2020.

Rhagair

Mae'r Bwrdd yn cyflwyno asesiad cytbwys o sefyllfa a rhagolygon S4C yn yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei chyflwyno yn ôl gofynion statudol.

Rhagair

Prif weithgareddau

Mae S4C yn gweithredu o dan Adrannau 203 hyd 207 (yn gynwysiedig) ac Atodlen 12 Deddf Cyfathrebiadau 2003. Mae Adran 204 yn darparu bod S4C yn gweithredu i ddarparu gwasanaethau rhaglenni teledu o safon uchel gyda'r bwriad iddynt fod ar gael yn gyfan gwbl neu yn bennaf i'r cyhoedd yng Nghymru. Wrth gyflawni'r swyddogaeth honno, rhaid i S4C barhau i ddarlledu'r gwasanaeth digidol a adnabyddir mewn deddfwriaeth fel S4C digidol.

Rhagair

Strwythur grŵp

Mae is-baragraffau (2) a (3) Paragraff 1 Atodlen 6 Deddf Darlledu 1990 (fel y'u diwygiwyd gan Adran 206 (6) Deddf Cyfathrebiadau 2003) yn caniatáu i S4C, i'r graddau ei bod yn ymddangos iddynt bod gwneud hynny'n atodol neu'n arweiniol i gyflawni eu swyddogaeth, i gymryd rhan mewn gweithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau masnachol, trwy gwmnïau S4C gan ddefnyddio cyllid masnachol yn unig. Yn ogystal, mae'r darpariaethau trawsnewidiol ym mharagraff 27 Atodlen 18 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn caniatáu i S4C barhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau masnachol, a oedd yn cael eu cyflawni yn syth cyn dechreuad Adran 206, naill ai eu hunain neu drwy un o gwmnïau S4C.

Rhagair

O fewn y Datganiad Ariannol cyfun hwn, cyfeirir at Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel S4C ac at gyfanswm y gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau masnachol fel Grŵp S4C. Cyfeirir at yr asedau nad ydynt yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel y Gronfa Gyffredinol.

Rhagair

Cyllid

Mae'r darpariaethau'n ymwneud â gofynion ariannol S4C wedi eu nodi yn Adran 31 Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Mae'r adran yn rhoi dyletswydd statudol ar yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau y telir swm i S4C y mae o'r farn ei fod yn ddigonol i dalu cost S4C bob blwyddyn ar gyfer (a) darparu gwasanaethau cyhoeddus S4C (o fewn ystyr Adran 207 Deddf Cyfathrebiadau 2003); a (b) threfnu i ddarlledu neu ddosbarthu'r gwasanaethau hynny. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyflawni'r ddyletswydd hon drwy wneud taliadau ei hun neu lunio cytundeb ag unigolyn arall i'r unigolyn hwnnw wneud hynny (neu'r ddau). Rhaid i'r cyfryw gyllid gael ei gadw yn y Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus a'i gymhwyso at ddibenion darparu gwasanaethau cyhoeddus S4C yn unig. Ni chaniateir unrhyw gymhorthdal o'r Gronfa Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer unrhyw un o is-gwmnïau S4C.

Rhagair

Yn ystod y flwyddyn, daeth cyllid S4C o ffi'r drwydded trwy'r BBC, a chymorth grant a ddarperir gan yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Mae S4C hefyd yn cynhyrchu refereniw drwy weithgareddau masnachol, gan gynnwys gwerthiant hysbysebion a nawdd rhaglenni.

Rhagair

Cafodd y darpariaethau sy'n ymwneud â chyfraniad ffi'r drwydded ar gyfer 2021/22, eu hamlinellu yng Nghytundeb Fframwaith y BBC gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016, sy'n cynnwys y darpariaethau ariannol gytunwyd arnynt rhwng y BBC, yr Ysgrifennydd Gwladol ac S4C o 2017/18 i 2021/22.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi nodi'r symiau y bydd y DCMS yn eu cyfrannu i S4C tan 2021/22 mewn Llythyr Setliad Cyllid ym mis Mawrth 2020.

Rhagair

Yn dilyn newid yn statws TAW S4C, talodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon grant ychwanegol o £15m i S4C yn ystod 2020/21. Ers 1 Ebrill 2021, mae S4C wedi cael ei chynnwys yn Adran 33 Deddf TAW 1994, sy'n caniatáu i S4C adennill TAW ar wariant nad yw'n ymwneud â busnes.

Incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Throsiant y Gronfa Gyffredinol

Roedd y cyfanswm a dderbyniwyd oddi wrth yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC yn ystod y cyfnod yn £81.351m (cyfnod i 31 Mawrth 2021 - £96.351m). Defnyddiwyd yr incwm hwn i gyllido costau comisiynu a phrynu rhaglenni Cymraeg, costau darlledu S4C, gwariant ar asedau sefydlog a gorbenion. Mae balans yr incwm hwn, ar ôl cost darlledu rhaglenni a chostau gweithredu a gweinyddu, felly yn cynrychioli'r prif fodd o gyllido asedau net S4C ac yn cael ei drin fel incwm gohiriedig yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus. Crëwyd trosiant y Gronfa Gyffredinol trwy werthu amser hysbysebu, hawliau mewn rhaglenni teledu, nawdd, marsiandïo, cyhoeddi a gweithgareddau buddsoddi. Yn y cyfnod a derfynodd 31 Mawrth 2022, roedd cyfanswm y trosiant hwn yn £1.986m (cyfnod i 31 Mawrth 2021 - £2.110m). Rhoddir manylion pellach yn nodyn 3 i'r Datganiad Ariannol.

Rhagair

Gwariant

Mae'r costau a roddwyd yn erbyn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr yn ystod y cyfnod yn cynnwys £82.842m (cyfnod i 31 Mawrth 2021 - £87.188m) ar gyfer costau'r gwasanaeth rhaglenni a chostau darlledu a dosbarthu, £0.878m ar gyfer costau uniongyrchol eraill (cyfnod i 31 Mawrth 2021 - £0.778m) a £2.882m (cyfnod i 31 Mawrth 2021 - £3.346m) ar gyfer costau gweithredu a gweinyddu. Roedd costau'r rhaglenni a ddarledwyd yn cynnwys £66.534m (cyfnod i 31 Mawrth 2021 - £69.083m) ar gyfer costau rhaglenni a gomisiynwyd neu a brynwyd gan gyflenwyr rhaglenni ac ailddarllediadau. Mae'r costau darlledu a dosbarthu yn codi mewn perthynas â llwyfannau digidol daearol a lloeren gan gynnwys gwasanaethau fideo ar alw a ddarperir gan contractwyr. Roedd y gweddill yn gostau uniongyrchol comisiynu a chyflwyno rhaglenni, costau gweithredol gwasanaethau mynediad S4C ynghyd â chostau darlledu perthnasol eraill y gwasanaeth rhaglenni megis costau marchnata a chostau ymchwil cynulleidfa.

Rhagair

Mae costau uniongyrchol eraill yn cynnwys blaendaliadau cyllido cydgynrychiadau i drydydd partion, rhaniad elw a oedd yn daladwy i drydydd partion mewn perthynas â gwerthu rhaglenni, comisiwn asiantaeth a chostau darlledu sy'n ymwneud â hysbysebion a chostau darlledu digidol yn ymwneud â gofod darlledu S4C2 Cyf. Ceir manylion pellach am gostau gweithredu a gweinyddu S4C yn nodyn 4 i'r Datganiad Ariannol.

Rhagair

Datganiad Ariannol 2021/22

Adroddiad S4C am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2022

Derbynnir incwm gan y BBC a'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon cyn i'r holl gostau gael eu codi ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr. Ar ddyddiad y Fantolen, trosglwyddir unrhyw incwm a dderbynnir ymlaen llaw i'r Gronfa Gwasanaethau Cyhoeddus. Trosglwyddwyd £2.786m o'r Gronfa Gwasanaethau Cyhoeddus ar 31 Mawrth 2022 (Ar 31 Mawrth 2021 - £7.372m i'r Gronfa Gwasanaethau Cyhoeddus).

Rhagair

Polisi talu

Mae'n bolisi gan S4C i gytuno ar amodau a thelerau addas ar gyfer ei thrafodion â chyflenwyr ac, yn amodol ar eu cydymffurfiad, gwneir taliadau yn unol â'r telerau hyn. Yn arferol yn ystod y flwyddyn, talwyd 92% (cyfnod i 31 Mawrth 2021 - 91%) o gyflenwyr cyn pen 30 diwrnod.

Oriau a ddarledwyd a chyfartaledd cost yr awr

Yn ystod y cyfnod darlledodd S4C gyfanswm o 6,506 awr o raglenni (cyfnod i 31 Mawrth 2021 - 6,516 awr), yn cynrychioli cyfartaledd o 124.4 awr yr wythnos (cyfnod i 31 Mawrth 2021 - 125.3 awr).

Cafodd yr oriau statudol a ddarparwyd gan y BBC, a oedd yn cynnwys elfen o ailddarledu, eu darparu i S4C o dan Adran 58 (1) o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y nodwyd yn Adran 29 o Ddeddf Darlledu 1996) ac fe'u hariannwyd gan y BBC o refeniw ffi'r drwydded. Yn ogystal, gwnaeth S4C daliadau o £0.7m ar gyfer Pobol y Cwm a bwletinau tywydd (dros y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2021 - £0.1m ar gyfer darparu bwletinau tywydd) sydd ddim yn cael eu darparu fel rhan o'r oriau statudol.

Yn ystod y cyfnod darlledodd S4C 1,278 awr (cyfnod i 31 Mawrth 2021 - 1,278 awr) o raglenni Cymraeg yn yr oriau brig rhwng 6.30 y.p. a 10.00 y.p. sy'n gyfartaledd yr wythnos o 24.6 awr (cyfnod i 31 Mawrth 2021 - 24.6 awr).

	2021/22		2020/21	
	Oriau	Cost yr awr £	Oriau	Cost yr awr £
Rhaglenni a gomisiynwyd				
Cynrychiadau annibynnol	1,428	43,863	1,428	46,123
BBC	52	13,015	20	5,443
	1,480	42,779	1,448	45,562
Rhaglenni a brynwyd	123	8,649	198	6,039
Aildarlediadau				
Cynrychiadau annibynnol	4,303	501	4,282	447
BBC	95	-	124	-
	6,001	11,087	6,052	11,415
BBC - Oriau Statudol	505	-	464	-
Cyfanswm	6,506		6,516	
Cyfartaledd yr wythnos	125.1		125.3	

Rhaglenni a ddarledwyd yn ôl categori

	2021/22		2020/21	
	Oriau	Cost yr awr £	Oriau	Cost yr awr £
Rhaglenni a gomisiynwyd				
Drama	80	193,514	59	201,517
Ffeithiol Cyffredinol	517	34,537	520	36,019
Materion Cyfoes a'r Tywydd	97	31,223	85	36,935
Cerdd Ysgafn / Adloniant	124	64,929	162	74,649
Plant	312	18,320	277	29,378
Cerddoriaeth a Chelfyddydau	28	57,500	12	70,118
Chwaraeon	296	35,106	292	32,447
Crefydd	26	45,355	41	40,669
Cyfanswm	1,480	42,779	1,448	45,562

Cynnwys ychanegol cyhoeddwyd (ac eithrio cyfryngau cymdeithasol)

Yn ychwanegol i'r cynnwys comisiynwyd uwchben, cyhoeddiwyd 73 awr o gynnwys digidol yn y flwyddyn am £1.699m (91 awr am £1.213m yn 2020/21).

	2021/22		2020/21	
	Oriau	Cost yr awr £	Oriau	Cost yr awr £
Rhaglenni a gomisiynwyd				
Drama	2	28,345	11	3,701
Ffeithiol Cyffredinol	7	17,326	14	7,777
Materion Cyfoes a'r Tywydd	5	12,232	2	63,228
Cerdd Ysgafn / Adloniant	7	26,272	7	20,936
Plant	29	22,496	50	14,478
Cerddoriaeth a Chelfyddydau	11	27,957	7	10,273
Chwaraeon	1	38,247	-	-
Crefydd	11	26,219	-	-
Cyfanswm	73	23,277	91	13,330

	2021/22	2020/21
	Oriau	Oriau
BBC		
Drama	71	47
Newyddion	219	216
Materion Cyfoes a Ffeithiol	33	13
Adloniant Ysgafn	-	16
Pobl Ifanc a Phlant	16	18
Cerddoriaeth a Chelfyddydau	24	6
Chwaraeon	142	148
Cyfanswm	505	464

Datganiad o Gyfrifoldebau

Paratoi Datganiadau Cyllidol

Yn y datganiadau ariannol hyn mae cyfarwyddwyr yn cyfeirio at Fwrdd S4C, Swyddog Cyfrifo S4C a chyfarwyddwyr is-gwmnïau masnachol S4C.

- (a) Mae'n ofyniad hanfodol o dan gyfraith cwmnïau'r Deyrnas Unedig i gyfarwyddwyr sicrhau bod eu datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol gan roi darlun gwir a theg o sefyllfa eu cwmni ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac o'r elw neu'r golled ar gyfer y cyfnod hwnnw.
- (b) At hynny, mae'n ofynnol i gyfarwyddwyr:
- fabwysiadu polisiâu cyfrifo addas a'u defnyddio'n gyson;
 - lunio arfarniadau a gwneud amcangyfrifon yn rhesymol ac yn ddoeth;
 - gydymffurfio â safonau cyfrifo sy'n gymwys; a
 - baratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes sy'n fyw oni bai ei bod yn anaddas i gymryd bod y cwmni'n mynd i barhau mewn busnes.
- (c) Mae cyfarwyddwyr hefyd yn gyfrifol am:
- sicrhau bod cofnodion cyfrifo digonol yn cael eu cadw i ddiogelu asedau'r cwmni; ac
 - i gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Cyn belled a bod y cyfarwyddwyr yn ymwybodol:

- Nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilywyr y grŵp yn ymwybodol ohoni; ac mae'r cyfarwyddwyr wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi eu cymryd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod yr archwilywyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.
- Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw a chywirdeb y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd wedi ei gynnwys ar wefan y cwmni. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu paratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Yn achos S4C, mae'r cyfrifoldeb am baratoi Datganiad Ariannol wedi ei roi ar S4C fel corff statudol o dan Ddeddf Darlledu 1990, Atodlen 6, paragraffau 12 a 13 (fel yr addaswyd).

Mae'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifo, ynghyd â'r Prif Swyddog Cyllid, yn gyfrifol am sicrhau bod y Datganiad Ariannol yn cael ei baratoi, ac am weithredu'r camau rheoli.

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau bod Datganiad Ariannol S4C yn cydymffurfio â'r holl ofynion priodol. Mae'r Bwrdd yn ystyried ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau ym mhob un o'r agweddau uchod.

Busnes Gweithredol

Mewn perthynas ag asesu hyfywedd y busnes, mae'r Bwrdd wedi asesu rhagolygon busnes S4C am y cyfnod hyd at fis Mawrth 2027. Mae'r cyfnod hwn yn berthnasol i fusnes S4C gan ei fod yn ymwneud â chyfnod setliad Ffi'r Drwydded hyd at 31 Mawrth 2027, gan gynnwys darpariaethau cymal 39 o Gytundeb Fframwaith y BBC (a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr 2016).

Mae'r Bwrdd wedi ystyried dyletswydd statudol yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau cyllid digonol i S4C er mwyn iddo allu darparu ei wasanaethau darlledu cyhoeddus a'r setliad cyllido ar gyfer y cyfnod 2022 i 2027.

Yn ei asesiad cyffredinol o hyfywedd busnes S4C, mae'r Bwrdd wedi:

- ystyried y ddyletswydd statudol i sicrhau cyllid digonol i S4C er mwyn iddo allu darparu ei wasanaethau darlledu cyhoeddus;
- cymeradwyo cyllideb grŵp S4C hyd at 31 Mawrth 2023 gan ystyried archwaeth risg y Bwrdd, strategaeth S4C, a'i gylch gwaith o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Roedd y gyllideb yn cynnwys refereniw a chost ynghyd â'i sefyllfa ariannol bresennol a'i adnoddau ariannol. Mae'r rhagolygon wedi cael eu paratoi gan ystyried Covid-19.
- ystyried trefniadau TAW S4C;
- adolygu amcanion strategol a strategaeth cynnwys S4C ar gyfer 2022/23. Yn dilyn cadarnhad o'r setliad cyllido ar gyfer y cyfnod 2022 - 2027, mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo strategaeth ar gyfer y cyfnod hwnnw;
- adolygu disgwyliadau'r gynulleidfa o wasanaethau S4C. Fe wnaeth y Bwrdd fonitro ansawdd a pherfformiad y wasanaeth drwy gydol y flwyddyn ac ymgynghori'n eang â'r gynulleidfa drwy amrywiaeth o ddulliau gwahanol. Er nad oedd Nosweithiau Gwylwyr yn bosibl oherwydd cyfyngiadau Covid-19, cynhaliwyd sesiynau Facebook Live yn ogystal â phaneli ymateb a grwpiau ffocws. Gan weithio'n agos gyda chynhyrchwyr annibynnol, mae S4C wedi trafod sylwadau cynulleidfaoedd ac wedi nodi ffyrdd o wella allbwn y rhaglenni ar yr un pryd â sicrhau gwerth am arian drwy'r cydweithio hwn. Mewn ymateb i'r pandemig Covid-19, parhaodd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cynnwys i gynnal sesiynau Facebook Live. Mae S4C wedi cynnal ymchwil gyda'i gynulleidfa yn 2021 drwy holiaduron ac amrywiaeth o grwpiau ffocws;
- ystyried y gofrestr risg strategol a phob un o'r prif risgiau ac ansicrwydd a nodir yn yr Adroddiad Llywodraethu uchod, gan gynnwys sut y cânt eu rheoli;
- ystyried cynllun Covid-19 S4C yn nodi sut y bydd yn ymateb i'r heriau a'r risgiau a ddaw yn sgil y pandemig a ffyrdd newydd o weithio ar ôl Covid-19;
- ystyried adroddiadau sy'n crynhoi gwaith sicrwydd busnes yn ystod y flwyddyn; ac
- adolygu'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad arferol y busnes sy'n cynnig y sylfaen i roi strategaeth hirdymor S4C ar waith.

Datganiad o Gyfrifoldebau

Er nad yw'r asesiad hwn yn ystyried yr holl risgiau y gallai S4C eu hwynebu, mae'r Bwrdd yn cadarnhau bod ei asesiad o'r risgiau strategol y mae S4C yn eu hwynebu yn gadarn.

Ar sail canlyniadau ei weithgareddau yn ymwneud â'r prif risgiau a hyfywedd a'r darpariaethau statudol yn ymwneud â chyllid digonol i S4C, mae gan y Bwrdd ddisgwyliad rhesymol y bydd yn gallu parhau i weithredu a bodloni ei rwymedigaethau, pan fyddant yn ddyledus. Am y rheswm hwn, mae'n parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r Datganiad Ariannol.

Annibyniaeth yr Archwilywyr Allanol

Mae'r Bwrdd yn cynnal perthynas briodol gydag archwilywyr allanol.

Archwilywyr Allanol

Mae Adroddiad yr Archwilydd allanol, y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, ar y Datganiad Ariannol i'w gael ar dudalennau 110 i 111.

Ar orchymyn y Bwrdd

Siân Doyle
Prif Weithredwr

18 Gorffennaf 2022

TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I FWRDD SIANEL PEDWAR CYMRU (S4C) YN CYDNABOD BOD DAU DŶ'R SENEDD HEFYD YN RHOI DIBYNIAETH AR ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON S4C

Barn am ddatganiadau ariannol

Yr wyf yn ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Grŵp S4C, sy'n cynnwys Awdurdod S4C a'i is-gwmnïau, am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 sy'n cynnwys yr wybodaeth ganlynel am S4C a'i Grŵp;

- Mantolen Gyfunol ac S4C ar 31 Mawrth 2022;
- Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr, Datganiad Llif Arian Cyfunol, Datganiadau Cyfunol ac S4C o Newidiadau mewn Ecwiti am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi datganiadau ariannol Grŵp S4C yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol S4C a'i Grŵp ar 31 Mawrth 2022, a'i golled ar ôl trethiant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd) a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd dan y Ddeddf honno.

Barn am roeoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd o bwys, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso at y dibenion y'u bwriadwyd ar eu cyfer gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail ar gyfer barn

Yr wyf wedi cwblhau fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs) (DU), cyfraith berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 Audit of Regularity and Financial Statements of Public Sector Entities in the United Kingdom. Ceir disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau dan y safonau hynny yn adran Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros Archwilio Datganiadau Ariannol fy tystysgrif.

Dan y safonau hynny, mae'n ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019 y Cyngor Adrodd Ariannol. Yr wyf wedi dewis cymhwyso'r safonau moesegol sy'n berthnasol i endidau a restrir hefyd. Yr wyf yn annibynnol ar S4C a'i Grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o ddatganiadau ariannol yn y DU. Yr wyf i a'm staff wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol a phriodol i roi sail ar gyfer fy marn.

Casgliadau yn ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, deuthum i'r casgliad bod defnydd S4C a'i Grŵp o'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu S4C a'i Grŵp i barhau fel busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o’r adeg yr awdurdodwyd cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â busnes hyfyw yn adrannau perthnasol yr tystysgrif hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r manylion eraill yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilio i arnynt. Y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn i ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy tystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd wedi hynny.

Yng nghyswllt fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu â'r wybodaeth a gefais yn yr archwiliad, neu'n ymddangos fel arall i fod yn gamddatganiad sylweddol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu'r hyn a ymddenys yn gamddatganiadau perthnasol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf yn dod i'r casgliad, ar sail fy ngwaith, bod yr wybodaeth arall yn gamddatganiad sylweddol, mae'n ofynnol i mi adrodd hynny.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- paratowyd yr Adroddiad Blynyddol yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o S4C a'i Grŵp a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y byddaf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- ni chafodd cofnodion cyfrifyddu digonol eu cadw neu ni dderbyniwyd ffurflenni blynyddol digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau na chafodd ymweliad gan fy staff; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;

Cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau, mae'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:

- paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- mae rheolaethau mewnol fel y pennir gan y cyfarwyddwyr yn angenrheidiol fel y gellir paratoi datganiad ariannol heb gamddatganiadau sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad.
- asesu gallu S4C a'i Grŵp i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod y cyfarwyddwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r endid neu roi'r gorau i weithrediadau, neu nad oes ganddo ddewis realistig ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â'r Weithred o Gytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol ac S4C dyddiedig 7 Mai 2019 yn unol â gofynion Deddf Darlledu 1990 a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs) (DU).

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a rhoi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu'n llwyr fod archwiliad a gynhaliwyd yn unol â safonau ISAs (DU) yn gallu canfod camddatganiad sylweddol bob amser. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn sylweddol os gellid disgwyl yn rhesymol y byddant, yn unigol neu gyda'i gilydd, yn dylanwadu ar benderfyniadau economaidd a wneir gan ddefnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys twyll

Yr wyf yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau sylweddol mewn perthynas â pheidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Mae'r graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, i'w gweld isod.

Nodi ac asesu risgiau posibl sy'n gysylltiedig â pheidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll
Wrth nodi ac asesu risgiau camddatganiadau sylweddol mewn perthynas â pheidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, ystyriwyd y canlynol:

- natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu S4C, dangosyddion perfformiad allweddol a chymhellion perfformiad.
- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol S4Ca'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael gafael ar ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau S4C a'i Grŵp sy'n gysylltiedig â:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw achosion gwirioneddol, tybiedig neu honedig o dwyll; a
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ag achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau S4C mewn perthynas â chydymffurfiaeth S4C â Deddf Darlledu 1990, Deddf Darlledu 1996 a'r Deddf Cyfathrebu 2003.
- trafod ymhlith y tim ymgysylltu gan gynnwys timau archwilio cydrannau sylweddol a chynnwys arbenigwyr mewnol ac allanol perthnasol, yn cynnwys arbenigwyr eiddo a phensiwn, o ran sut ac ym mhle y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli yn S4C a'i Grŵp o ran twyll a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod referniw, cofnodi cofnodion anarferol, a rhagfarn mewn amcangyfrifon rheoli. Yn yr un modd â'r holl archwiliadau o dan ISAs (DU), mae'n ofynnol hefyd i mi gyflawni gweithdrefnau penodol er mwyn ymateb i'r risg o reolaethau'n cael eu diystyru gan reolwyr.

Cefais ddealltwriaeth hefyd o fframwaith awdurdod S4C a'i Grŵp yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae S4C yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwytio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau sylweddol a datgeliadau yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau S4C a'i Grŵp. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Darlledu 1990, Deddf Darlledu 1996, Deddf Cyfathrebu 2003, Rheoli Arian Cyhoeddus, Cyfraith Cyflogaeth, Deddfwriaeth Trethiant a Deddfwriaeth Pensiynau

Ymateb archwilio i risg a nodwyd

O ganlyniad i gyflawni'r uchod, roedd y gweithdrefnau a weithredais i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu'r graddau y cydymffurfir â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen ac adolygu cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd ac adroddiadau archwilio mewnol;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll o ran rheolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Euthum ati hefyd i gyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tim ymgysylltu, gan gynnwys arbenigwyr mewnol ac allanol a thimau archwilio cydrannau sylweddol, a pharhau'n wyliadwrus o unrhyw arwyddion o dwyll neu achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/ auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Yn ogystal, mae'n ofynnol i mi gael gafael ar dystiolaeth sy'n ddigonol er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant a adroddir yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso i'r dibenion y cawsant eu bwriadu gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Yr wyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, ymhlith pethau eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau arwyddocaol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu canfod yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Cyfieithiad Cymraeg

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffur wreiddiol. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae S4C yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hyn.

Gareth Davies
18 Gorffennaf 2022
Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol
National Audit Office
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr

am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2022

Mae'r Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr, y Mantolenni, y Datganiadau o Newidiadau Mewn Ecwiti a'r Datganiad Llif Arian Cyfun yn dangos canlyniadau a pherfformiad S4C yn ogystal â'i grŵp masnachol o gwmnïau. O fewn y Datganiad Ariannol Cyfun hwn, cyfeirir at Gronfa'r Gwasanaethau Cyhoeddus fel S4C ac at gyfanswm y gwasanaeth cyhoeddus a'r gweithgareddau masnachol fel Grŵp S4C. Cyfeirir at yr asedau nad ydynt yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel y Gronfa Gyffredinol.

Yn dilyn newid yn statws TAW S4C, ers 1 Ebrill 2021 mae S4C wedi cael ei gynnwys yn Adran 33 Deddf TAW 1994, sy'n caniatáu i S4C adennill TAW ar wariant nad yw'n ymwneud â busnes. Mae'r newid hwn yn golygu nad yw ffigurau 2021/22 yn y cyfrifon yn cynnwys TAW a bod ffigurau 2020/21 yn cynnwys TAW.

	Nodyn	2021/22	2020/21
		£000	£000
Incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Throsiant y Gronfa Gyffredinol	3	83,526	98,581
Trosiant S4C		83,526	98,581
Costau'r gwasanaeth rhaglenni		(79,405)	(82,675)
Costau darlledu a dosbarthu		(3,437)	(4,513)
Costau uniongyrchol eraill		(878)	(778)
(Colled) / elw gros		(194)	10,615
Costau gweithredu a gweinyddu	4	(2,882)	(3,346)
(Colled) / elw gweithredol	3	(3,076)	7,269
Cynnydd ar fuddsoddiad	11	212	2,417
Enillion / (colled) ar eiddo buddsoddi		135	(333)
Incwm buddsoddiad		190	203
Llog net		3	16
(Colled) / elw ar weithgareddau cyffredin cyn trethiant		(2,536)	9,572
Trethiant ar (colled) / elw ar weithgareddau cyffredin	6	(40)	(13)
(Colled) / elw ar ôl trethiant		(2,576)	9,559
Symudiad yn elfen anadferadwy'r gwarged pensiwn	19	-	(200)
Enillion actiwaraid ar asedau a rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn	19	100	300
Elw cynhwysfawr arall		100	100
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn		(2,476)	9,659
Trosglwyddiad o / (i) Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus	13	2,786	(7,372)
Cadwyd yn y Gronfa Gyffredinol	13	310	2,287

Cymeradwywyd y Datganiad Ariannol gan y Bwrdd ar 18 Gorffennaf 2022.
Mae'r nodiadau ar dudalennau 117 i 135 yn ffurfio rhan o'r Datganiad Ariannol.

Mantolen Gyfun

ar 31 Mawrth 2022

	Nodyn	Ar 31/03/22		Ar 31/03/21	
		£000	£000	£000	£000
Asedau Sefydlog					
Asedau diriaethol	7	222		484	
Buddsoddiadau	8	552		552	
Eiddo buddsoddi	8	3,640		3,485	
			4,414		4,521
Asedau Cyfredol					
Stoc	9	14,671		11,453	
Dyledwyr - symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	10	2,639		1,552	
Dyledwyr - symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	10	6,890		7,746	
Buddsoddiadau	11	13,693		13,062	
Arian yn y banc ac mewn llaw		20,255		29,955	
			58,148		63,768
Rhwymedigaethau Cyfredol					
Credydwyr - symiau i'w talu o fewn blwyddyn	12	(14,712)		(16,934)	
Credydwyr - symiau i'w talu ar ôl mwy na blwyddyn	12	(4,561)		(5,590)	
Asedau Cyfredol Net			38,875		41,244
Cyfanswm Asedau llai Rhwymedigaethau Cyfredol			43,289		45,765
Cronfeydd					
Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus	13		23,292		26,078
Cronfa Gyffredinol	13		19,997		19,687
Cyfanswm Cronfeydd			43,289		45,765

Awdurdodwyd cyhoeddi'r Datganiad Ariannol i gydymffurfio ag FRS 102 para 32.09. gan y Bwrdd ar 18 Gorffennaf 2022.

Rhodri Williams Cadeirydd
Siân Doyle Prif Weithredwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 117 i 135 yn ffurfio rhan o'r Datganiad Ariannol.

Mantolen S4C

ar 31 Mawrth 2022

	Nodyn	Ar 31/03/22		Ar 31/03/21	
		£000	£000	£000	£000
Asedau Sefydlog					
Asedau diriaethol	7	222		484	
			222		484
Asedau Cyfredol					
Stoc	9	14,671		11,453	
Dyledwyr - symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	10	2,272		2,076	
Dyledwyr - symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	10	6,890		7,741	
Arian yn y banc ac mewn llaw		17,542		26,183	
			41,375		47,453
Rhwymedigaethau Cyfredol					
Credydwyr - symiau i'w talu o fewn blwyddyn	12	(13,744)		(16,269)	
Credydwyr - symiau i'w talu ar ôl mwy na blwyddyn	12	(4,561)		(5,590)	
Asedau Cyfredol Net			23,070		25,594
Cyfanswm Asedau llai Rhwymedigaethau Cyfredol			23,292		26,078
Cronfeydd					
Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus	13	23,292		26,078	
Cronfa Gyffredinol	13	-		-	
Cyfanswm Cronfeydd			23,292		26,078

Awdurdodwyd cyhoeddi'r Datganiad Ariannol i gydymffurfio ag FRS 102 para 32.09. gan y Bwrdd ar 18 Gorffennaf 2022.

Rhodri Williams Cadeirydd
Siân Doyle Prif Weithredwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 117 i 135 yn ffurfio rhan o'r Datganiad Ariannol.

Datganiad Cyfun o Newidiadau mewn Ecwiti ar 31 Mawrth 2022

Grŵp S4C	Enillion a gadwyd	Cyfanswm ecwiti
	£000	£000
Ar 1 Ebrill 2021	45,765	45,765
Colled am y flwyddyn	(2,576)	(2,576)
Elw cynhwysfawr arall am y flwyddyn	100	100
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	(2,476)	(2,476)
Ar 31 Mawrth 2022	43,289	43,289

Datganiad Cyfun o Newidiadau mewn Ecwiti ar 31 Mawrth 2021

Grŵp S4C	Enillion a gadwyd	Cyfanswm ecwiti
	£000	£000
Ar 1 Ebrill 2020	36,106	36,106
Elw am y flwyddyn	9,559	9,559
Elw cynhwysfawr arall am y flwyddyn	100	100
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	9,659	9,659
Ar 31 Mawrth 2021	45,765	45,765

Datganiad S4C o Newidiadau mewn Ecwiti ar 31 Mawrth 2022

S4C	Enillion a gadwyd	Cyfanswm ecwiti
	£000	£000
Ar 1 Ebrill 2021	26,078	26,078
Colled am y flwyddyn	(2,886)	(2,886)
Elw cynhwysfawr arall am y flwyddyn	100	100
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	(2,786)	(2,786)
Ar 31 Mawrth 2022	23,292	23,292

Datganiad S4C o Newidiadau mewn Ecwiti ar 31 Mawrth 2021

S4C	Enillion a gadwyd	Cyfanswm ecwiti
	£000	£000
Ar 1 Ebrill 2020	18,706	18,706
Elw am y flwyddyn	7,272	7,272
Elw cynhwysfawr arall am y flwyddyn	100	100
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	7,372	7,372
Ar 31 Mawrth 2021	26,078	26,078

Datganiad Llif Arian Cyfun

am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2022

Mae'r llif arian net o'r gweithgareddau gweithredu yn dangos yr arian a gynhyrchwyd gan weithgareddau craidd cyn buddsoddi ac ariannu.

	2021/22	2020/21
Llif Arian o weithgareddau gweithredu	£000	£000
(Colled) / elw am y flwyddyn arriannol	(2,536)	9,572
Llog net	(3)	(16)
Incwm buddsoddiad	(190)	(203)
(Cynnydd)/colled na wireddwyd mewn buddsoddiadau	(212)	(2,417)
Colledion/(enillion) heb eu wireddu ar eiddo buddsoddi	(135)	333
Dibrisiant ac amorteidddio	7	7
Elw o werthu asedau sefydlog	(44)	-
(Cynnydd) / Lleihad mewn stoc	(3,218)	1,798
Cynnydd mewn dyledwyr	(236)	(2,455)
(Lleihad) / cynnydd mewn credydwyr	(2,162)	6,208
Lleihad mewn buddsoddiadau	62	86
(Allanlif)/mewnllif net ariannol o weithgareddau gweithredol	(8,494)	13,175
Llif arian o weithgareddau ariannu		
Incwm buddsoddiadau	190	203
Llog a dderbyniwyd	3	16
Benthyciadau a adenillwyd	5	21
Benthyciadau ad-dalwyd/dderbyniwyd	(1,029)	(4,339)
Allanlif ariannol net o weithgareddau ariannu	(831)	(4,099)
Llif arian o weithgareddau buddsoddi		
Pryniant asedau sefydlog diriaethol	7	(82)
Prynu Buddsoddiadau	(500)	-
Gwerthu asedau sefydlog	128	-
Allanlif ariannol net o weithgareddau buddsoddi	(375)	(82)
(Lleihad) / cynnydd mewn arian	(9,700)	8,994
Cynnydd na wireddwyd mewn buddsoddiad	11	2,417
Costau rheoli	11	(73)
Arian parod a dynnwyd o'r gronfa fuddsoddi	11	-
Symudiadau o fewn cronfeydd net	(9,069)	11,338
Cronfeydd net ar 1 Ebrill 2021	18	31,679
Cronfeydd net ar 31 Mawrth 2022	18	43,017

Y benthyciad a ad-dalwyd o £1.029m (2020/21 - £4.339m) yw ad-daliad y blaendal cymorth grant derbyniwyd gan DCMS ar gyfer costau ymlaen llaw y cydleoiaid gyda BBC Cymru yn Sgwar Canolog Caerdydd a'r adleoiaid i Yr Egin yng Nghaerfyrddin.

Balans arian parod S4C wedi lleihau. Mae'r gostyngiad hwn yn cynnwys y trosglwyddiad o'r Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus, cynnydd mewn stoc (blaendaliadau yn ymwneud â chynnwys 2022/23), yr ad-daliad benthyciad a nodir uchod a gostyngiad mewn credydwyr.

Nodiadau i'r Cyfrifon

am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2022

1. Polisiâu Cyfrifo

Gwelir isod brif bolisiau cyfrifo S4C. O fewn y Datganiad Ariannol cyfun, cyfeirir at Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel S4C ac at gyfanswm y gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau masnachol fel Grŵp S4C. Cyfeirir at asedau Grŵp S4C nad ydynt yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel y Gronfa Gyffredinol. Cyflwyniad ac arian cyfred y datganiadau ariannol hyn yw sterling. Talgrynnir i'r £000 agosaf ac eithrio yn y datgeliad cyflogau a threuliau staff.

Mae'r Bwrdd yn ystyried bod S4C yn Endid Budd Cyhoeddus fel y'i diffiniwyd gan FRS 102. Endid Budd Cyhoeddus yw endid â'i brif amcan yw darparu nwyddau neu wasanaethau er buddiannau cyhoeddus, cymunedol neu gymdeithasol cyffredinol, a lle darperir unrhyw ecwiti gyda'r bwriad o gefnogi prif amcanion yr endid yn hytrach na gyda'r bwriad o gynhyrchu elw ariannol i ddarparwyr ecwiti, cyfranddalwyr neu aelodau.

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol fel y disgrifiwyd yn yr adran busnes gweithredol a hyfywedd ar dudalennau 108 i 109.

(a) Sail paratoi'r Datganiad Ariannol

Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y confensiwn costau hanesyddol yn unol â pharagraff 12 (1) Atodlen 6 Deddf Darlledu 1990 (fel yr addaswyd), y Cyfarwyddyd Cyfrifon a ryddhawyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, ac yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102, sef y Safon Adrodd Ariannol (FRS) sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.

Mae paratoi datganiadau ariannol yn unol â FRS 102 yn mynnu defnyddio amcangyfrifon cyfrifyddu critigol penodol. Mae hefyd yn mynnu bod rheolwyr yn arfer eu barn wrth gymhwyso polisiâu cyfrifyddu S4C (gweler nodyn 2).

Mae'r prif bolisiau cyfrifyddu canlynol wedi'u cymhwyso:

(b) Sail cyfuno

Mae'r Datganiad Ariannol cyfun yn ymgorffori rhai S4C a'i his-ymgymeriadau (gweler nodyn 8) a luniwyd hyd at 31 Mawrth 2022. Caiff elw neu gollodion ar drafodion grŵp eu dileu'n llawn. Pan gaiff is-gwmni ei brynu, caiff holl asedau a rhwymedigaethau'r is-gwmni sy'n bodoli ar ddyddiad ei brynu eu cofnodi yn ôl eu gwerthoedd teg gan adlewyrchu eu cyflwr ar y dyddiad hwnnw.

(c) Incwm

Cynhwysir incwm o'r BBC a'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan y'i derbynir.

Mae incwm arall, sydd yn cynnwys incwm o werthu amser hysbysebu, hawliau mewn rhaglenni teledu, nawdd, marsiandïaeth, cyhoeddi, a gweithgareddau buddsoddi yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan ddarperir y gwasanaethau cysylltiedig.

(ch) Costau rhaglenni

Caiff costau rhaglenni'r gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi'u comisiynu eu dileu'n llwyr ar y darllediad cyntaf neu pan ddaw yn glir na fydd darllediad.

(d) Stoc rhaglenni a stoc arall

Mae costau uniongyrchol a gyfyd wrth gomisiynu neu brynu rhaglenni i'r gwasanaeth cyhoeddus sydd heb eu darlledu yn ymddangos fel stoc, ar ôl darparu ar gyfer gwariant ar ddeunydd nad yw'n debygol o gael ei ddarlledu. Am gyfres o raglenni, mae'r dosraniad stoc rhwng rhaglenni a orffennwyd ond heb eu darlledu a rhaglenni ar ganol eu cynhyrchu wedi

ei seilio ar gyfanswm y gost hyd yn hyn ynghyd â chost gytundebol pob pennod a gwblhawyd.

Diffinnir cost uniongyrchol fel taliadau a wnaed neu sy'n ddyledus i gwmnïau cynhyrchu neu gyflenwyr rhaglenni.

(dd) Incwm a dderbyniwyd cyn y gwariant perthnasol

Oherwydd y polisiâu uchod, derbynir incwm o'r BBC a'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon cyn cynnwys yr holl gostau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Ar ddyddiad y Fantolen, trosglwyddir unrhyw incwm a dderbynnir ymlaen llaw i Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus. Pan mae costau perthynol yn codi, trosglwyddir symiau cyfatebol o incwm perthnasol o Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Mae'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr felly yn cynnwys trosglwyddiad net i Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus, neu oddi wrtho, yn adlewyrchu'r trosglwyddiadau hyn.

(e) Buddsoddiadau mewn cyd-fentrau

Mae buddsoddiadau mewn cyd-fentrau yn cael eu cydnabod yn y lle cyntaf yn y Mantolen Gyfun ar bris y trafodiad a'u haddasu ar ôl hynny i adlewyrchu cyfran y grŵp o'r gyfanswm incwm cynhwysfawr ac ecwiti'r gyd-fenter, llai unrhyw leihad yn eu gwerth.

(f) Dyledwyr

Mae dyledwyr tymor byr a hir dymor yn cael eu mesur ar bris y trafodiad, llai unrhyw leihad yn eu gwerth. Mae benthyciadau a dderbyniwyd yn cael eu mesur yn y lle cyntaf ar werth teg, heb gynnwys costau trafodion, a chânt eu mesur ar ôl hynny ar gost wedi'i hamorteidddio gan ddefnyddio'r dull llog gweithredol, llai unrhyw leihad mewn gwerth.

(ff) Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Mae arian parod yn arian mewn llaw a blaendaliadau a gadwyd gan sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gost ar rybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae symiau cyfwerth i arian parod yn fuddsoddiadau hynod o hylif sy'n aeddfedu mewn dim mwy na thri mis o'r dyddiad caffael a gellir eu trosi'n hwylus i symiau hysbys o arian parod gyda risg ansylweddol o newid mewn gwerth.

(g) Offerynnau ariannol

Yn bennaf bydd S4C yn ymrwmo i drafodion offerynnau ariannol sylfaenol sy'n arwain at gydnabod asedau a rhwymedigaethau ariannol fel masnach a chyfrifon eraill sy'n dderbyniadwy a thaladwy, benthyciadau gan fanciau a thrydydd partion eraill, benthyciadau i bartion cysylltiedig a buddsoddiadau mewn cyfranddaliadau cyffredin di-roddadwy.

Caiff offerynnau dyled (heblaw am y rheiny sy'n ad-daladwy neu'n dderbyniadwy yn gyfan gwbl o fewn un flwyddyn), gan gynnwys benthyciadau a chyfrifon eraill sy'n dderbyniadwy a thaladwy, eu mesur yn y lle cyntaf ar werth presennol llifoedd arian parod y dyfodol ac ar ôl hynny ar gost wedi'i hamorteidddio gan ddefnyddio'r dull llog gweithredol. Mae offerynnau dyled sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy o fewn un flwyddyn, yn nodweddiadol symiau masnach sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy, yn cael eu mesur, yn y lle cyntaf ac ar ôl hynny, ar swm na ddisgowntiwyd yr arian parod neu ystyriaeth arall, a ddisgwyllir ei dalu neu ei dderbyn. Fodd bynnag, os yw trefniadau offeryn tymor byr yn gyfystyr â thrafodiad ariannu, fel talu dyled masnach a ohiriwyd y tu hwnt i delerau busnes arferol neu ariannwyd ar gyfradd llog nad yw ar raddfa'r farchnad neu yn achos benthyciad tymor byr yn gyfan gwbl nad yw ar raddfa'r farchnad, mae'r ased neu rhwymedigaeth ariannol yn cael ei fesur, yn y lle cyntaf, ar werth presennol llifoedd arian parod y dyfodol wedi'u disgowntio ar raddfa llog y farchnad ar gyfer offeryn dyled tebyg ac ar ôl hynny ar gost wedi'i hamorteidddio.

3. Incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus a throsiant y Gronfa Gyffredinol

Derbynnir incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus er mwyn i S4C gyflawni ei chyfrifoldebau chwasanaeth cyhoeddus (o fewn ystyr Adran 207 Deddf Cyfathrebiadau 2003). Mae trosiant y Gronfa Gyffredinol yn cynrychioli'r incwm a grëwyd gan weithgareddau masnachol a gweithgareddau nad ydynt yn rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus fel y cantiateir o dan Adran 206 Deddf Cyfathrebiadau 2003 a'r darpariaethau trawsnewidiol ym mharagraff 27 Atodlen 18 Deddf Cyfathrebiadau 2003.

Pan dderbynnir yr incwm o ffi'r drwydded a'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon caiff ei gredydu i'r Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr. Mae'r incwm arall, sydd yn cynnwys incwm o werthu amser hysbysebu, hawliau mewn rhaglenni teledu, nawdd, marsiandio, cyhoeddi a gweithgareddau buddsoddi, yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr ar sail croniadau.

Yn dilyn newid yn statws TAW S4C, talodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon grant ychwanegol o £15m i S4C yn ystod 2020/21. Ers 1 Ebrill 2021, mae S4C wedi cael ei chynnwys yn Adran 33 Deddf TAW 1994, sy'n caniatáu i S4C adennill TAW ar wariant nad yw'n ymwneud â busnes.

	2021/22		2020/21	
	£000	£000	£000	£000
Incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus				
Incwm a dderbyniwyd oddi wrth ffi'r drwydded	74,500		74,500	
Incwm a dderbyniwyd oddi wrth DCMS	6,851		21,851	
Incwm arall	189		120	
		81,540		96,471
Trosiant y Gronfa Gyffredinol				
Gwerthiant rhaglenni a hysbysebu	1,324		1,483	
Cyhoeddi a marsiandio	81		63	
Eraill	581		564	
		1,986		2,110
Trosiant y grŵp		83,526		98,581

Ceir isod ddadansoddiad o drosiant y Gronfa Gyffredinol yn ôl marchnad ddaearyddol:

	2021/22		2020/21	
	£000	£000	£000	£000
Y Deyrnas Unedig	1,967		2,100	
Unol Daleithiau America	4		4	
Gweddill y Byd	15		6	
		1,986		2,110

(Colled) / elw gweithredol

Yr (colled) / elw gweithredol yw (diffyg) / gwaged y Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus a'r elw o'r gweithgareddau masnachol cyn unrhyw incwm buddsoddi, llog a threth.

Dangosir dadansoddiad o'r (colled) / elw gweithredol y Grŵp fesul gweithgarwch isod:

	2021/22		2020/21	
	£000	£000	£000	£000
Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus				
Gweithgareddau Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus	(3,590)		6,408	
		(3,590)		6,408
Cronfa Gyffredinol				
Gwerthiant rhaglenni a hysbysebu	624		783	
Cyhoeddi a marsiandio	81		47	
Gweithgareddau eraill	(191)		31	
		514		861
		(3,076)		7,269

Mae'r gweithgareddau eraill yn cynnwys darparu gwasanaethau rheoli i is-gwmnïau masnachol gan S4C Masnachol Cyf., darpariaeth o wasanaethau darlledu digidol gan S4C2 Cyf. a rhentu eiddo gan S4C PTG Cyf.

Asedau net

Asedau net Grŵp S4C yw cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau.

	2021/22		2020/21	
	£000	£000	£000	£000
Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus				
Gweithgareddau Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus	23,292		26,078	
		23,292		26,078
Cronfa Gyffredinol				
Gwerthiant rhaglenni a hysbysebu	272		202	
Cyhoeddi a marsiandio	16		9	
Gweinyddiaeth	135		135	
Gweithgareddau eraill	19,574		19,341	
		19,997		19,687
		43,289		45,765

4. (Colled) / elw gweithredol

Yr (colled) / elw gweithredol yw gwaged y Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus a'r elw o'r gweithgareddau masnachol cyn unrhyw incwm buddsoddi, llog a threth.

Yn dilyn newid yn statws TAW S4C, ers 1 Ebrill 2021 mae S4C wedi cael ei gynnwys yn Adran 33 Deddf TAW 1994, sy'n caniatáu i S4C adennill TAW ar wariant nad yw'n ymwneud â busnes. Mae'r newid hwn yn golygu nad yw ffigurau 2021/22 yn y cyfrifon yn cynnwys TAW a bod ffigurau 2020/21 yn cynnwys TAW.

	2021/22		2020/21	
	£000	£000	£000	£000
Nodir yr (colled) / elw gweithredol ar ôl:				
Cost y gwasanaeth rhaglenni				
Dibrisiant	109		189	
Costau staffio	4,909		4,370	
Teithio a chynhaliath	36		4	
Costau gweithredu a gweinyddu				
Costau staffio	1,770		1,749	
Dibrisiant	71		80	
Ffi'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol am archwilio cyfrifol blynyddol S4C	80		78	
Gwasanaethau heb fod yn ymwneud ag archwilio gydag archwilywyr eraill				
Gwasanaethau cydymffurfio â threthiant	9		15	
Gwasanaethau archwilio mewnol	7		5	
Yr holl wasanaethau sicrwydd nad ydynt yn perthyn i'r uchod	-		24	
Costau gweinyddu eraill:	739		1,239	
Taliadau prydles gweithredol				
Costau prydles gweithredu - Tir ac adeiladau	187		155	
Teithio a chynhaliath	19		1	
	2,882		3,346	
Mae'r dadansoddiad o gostau gweithredu a gweinyddu fel a ganlyn:				
		2021/22		2020/21
		£000		£000
Costau Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus		2,735		3,142
Costau'r Gronfa Gyffredinol		147		204
		2,882		3,346

Ni ddarparodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol unrhyw wasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio yn ystod y flwyddyn.

5. Aelodau a swyddogion cyflogedig

Mae cyfanswm cydnabyddiaeth swyddogion cyflogedig yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

	2021/22	2020/21
	£000	£000
Cyflogau gros	5,175	4,700
Cyfraniadau YG y cyflogwr	543	490
Cyfraniadau pensiwn	949	833
	6,667	6,023

Yn ystod y flwyddyn gwnaed tri thaliad o dan y cynllun diswyddo gwerth cyfanswm o £0.054m (2020/21 - 1 taliad gwerth cyfanswm o £0.006m). Mae cyfraniadau pensiwn yn cynnwys cyfraniadau'r cyflogwr. Nid oedd gan S4C unrhyw ymrwymiadau 'oddi ar y gyflogres' sy'n dod o dan y meini prawf a nodir yng nghanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi mewn perthynas â threfniadau treth uwch benodiadau cyhoeddus.

	2021/22		2020/21	
	Rhif Dynion	Rhif Menywod	Rhif Dynion	Rhif Menywod
Comisiynu	8	11	8	10
Darlledu a Dosbarthu	6	8	5	8
Cyfathrebu a digidol	21	25	17	20
Cyllid, Gweinyddiaeth ac Adnoddau Dynol	1	5	1	7
Materion Busnes	2	6	2	6
Corfforaethol a Pholisi Masnachol	8	10	9	9
	46	65	42	60
Prosiect Archif tymor penodol	1	-	1	1
	47	65	43	61

Cyfanswm teithio a chynhaleith a dalwyd i swyddogion cyflogedig yn ystod y cyfnod a derfynodd 31 Mawrth 2022 oedd £52,046 (cyfnod i 31 Mawrth 2021 - £4,843).

Cydnabyddiaeth yr aelodau

Dangosir taliadau i aelodau'r Bwrdd am y flwyddyn isod:

	2021/22	2020/21
	£000	£000
Cyfanswm y taliadau	97	82

Dangosir taliadau i aelodau'r Bwrdd am y flwyddyn isod:

	2021/22	2020/21
	£	£
Guto Bebb	9,650	1,608
Owen Derbyshire	-	8,068
Hugh Hesketh Evans	6,139	9,650
Anita George	9,650	9,650
Adele Gritten	9,650	1,608
Chris Jones	9,650	1,608
Siân Lewis	2,600	9,650
Denise Lewis Poulton	9,650	-
Rhodri Williams	40,000	40,000

Penodwyd Adele Gritten, Chris Jones a Guto Bebb ar 1 Chwefror 2021.

Ymddiswyddodd Owen Derbyshire ar 1 Chwefror 2021.

Ymddiswyddodd Hugh Hesketh Evans ar 19 Tachwedd 2021.

Ymddiswyddodd Siân Lewis ar 8 Gorffennaf 2021.

Penodwyd Denise Lewis Poulton ar 1 Ebrill 2021.

Yn ystod y cyfnod, hawliodd aelodau'r Bwrdd y treuliau canlynol wrth gyflawni eu dyletswyddau:

Treuliau aelodau'r Bwrdd	Teithio	Llety a Chynhaleith	Lletygarwch	2021/22 Cyfanswm	2020/21 Cyfanswm
	£	£	£	£	£
Guto Bebb	230	137	-	367	-
Hugh Hesketh Evans	-	-	-	-	8
Anita George	206	75	-	281	-
Adele Gritten	486	157	-	643	-
Chris Jones	193	157	-	350	-
Denise Lewis Poulton	300	62	-	362	-
Rhodri Williams	440	116	-	556	289
Total	1,855	704	-	2,559	297

Cydnabyddiaeth y Tîm Rheoli

Dangosir taliadau i aelodau'r Tîm Rheoli yn ystod y cyfnod isod:

	2021/22	2020/21
	Cyflog gros	Cyflog gros
	£000	£000
Owen Derbyshire	86	5
Siân Doyle	52	-
Geraint Evans	41	-
Owen Evans	141	163
Elin Morris	108	105
Amanda Rees	114	113
Gwyn Williams	84	83
Sharon Winogorski	86	85

Ymunodd Siân Doyle â'r Tîm Rheoli ar 6 Rhagfyr 2021

Ymunodd Geraint Evans â'r Tîm Rheoli ar 11 Hydref 2021

Gadawodd Owen Evans y Tîm Rheoli ar 31 Rhagfyr 2021

Yn ystod y cyfnod, hawliodd aelodau'r Tîm Rheoli y treuliau canlynol wrth gyflawni eu dyletswyddau:

Treuliau aelodau'r Tîm Rheoli	Teithio	Llety a Chynhaleith	Lletygarwch	2021/22 Cyfanswm	2020/21 Cyfanswm
	£	£	£	£	£
Owen Derbyshire	344	213	-	557	-
Siân Doyle	4,016	1,684	598	6,298	-
Geraint Evans	1,366	808	-	2,174	-
Owen Evans	1,136	762	169	2,067	556
Elin Morris	1,093	400	-	1,493	60
Amanda Rees	573	243	-	816	109
Gwyn Williams	1,660	379	53	2,092	224
Sharon Winogorski	98	128	-	226	-
Total	10,286	4,617	820	15,723	949

Cynllun cyfraniadau diffiniedig - cyfraniadau S4C

	2021/22	2020/21
	£000	£000
Owen Derbyshire	13	1
Siân Doyle	8	-
Geraint Evans	6	-
Owen Evans	33	40
Elin Morris	30	30
Amanda Rees	27	24
Gwyn Williams	13	13
Sharon Winogorski	14	13

Mae S4C yn gweithredu cynllun cyfraniadau diffiniedig er budd ei weithwyr. Mae S4C yn cynnig yr opsiwn i staff gyfnewid cyflog i'r cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Mae'r cyfraniadau pensiwn a restrir yn y tabl uchod yn cynnwys taliadau cyfnewid cyflog yr unigolyn i'r cynllun.

6. Trethiant

Paratowyd y Datganiad Ariannol ar y sail na chodir unrhyw drethiant ar symiau a dderbynia S4C oddi wrth yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC.

	2021/22	2020/21
	£000	£000
Treth gorfforaeth y Deyrnas Unedig ar 19% (2021 - 19%)	-	-
Treth gohiriedig	40	13
Tâl trethiant cyfredol am y cyfnod	40	13

	2021/22	2020/21
	£000	£000
Elw ar weithgareddau cyffredin cyn trethiant	(2,536)	9,572
Elw ar weithgareddau cyffredin wedi'i lluosio â'r gyfradd treth safonol yn y DU o 19% (2021 - 19%)	(482)	1,819
Effeithiau:		
Gwahaniaethau asedau diraethol	2	-
Costau na ellir eu tynnu at ddibenion treth	4	3
Ased treth gohiriedig heb ei ddarparu	1,780	40
Addasiadau i'r tâl trethiant am gyfnodau blaenorol	1	(5)
Incwm nad yw'n drethadwy at ddibenion treth	(47)	(462)
Trosglwyddo i'r Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus	529	(1,382)
Colledion cyfalaf a ddefnyddiwyd	-	13
Enillion cyfalaf	26	-
Gwahaniaeth yng nghyfradd treth gohiriedig	(1,346)	-
Gwahaniaethau amseru	(427)	-
Symudiad mewn gwerth teg	-	(13)
Tâl trethiant cyfredol am y cyfnod	40	13

7. Asedau sefydlog diriaethol

Grŵp S4C	Tir ac Adeiladau		
	Cyfanswm	Prydles	Offer a Chyfarpar
	£000	£000	£000
Cost			
Ar 1 Ebrill 2021	7,115	209	6,906
Ychwanegiadau	3	-	3
Gwerthiannau	(6,017)	-	(6,017)
Ar 31 Mawrth 2022	1,101	209	892
Dibrisiant			
Ar 1 Ebrill 2021	6,631	209	6,422
Cost am y flwyddyn	180	-	180
Gwerthiannau	(5,932)	-	(5,932)
Ar 31 Mawrth 2022	879	209	670
Gwerth llyfr net			
Ar 31 Mawrth 2022	222	-	222
Ar 31 Mawrth 2021	484	-	484

Tir ac adeiladau

Pafiliwn S4C ar faes y Sioe Amaethyddol Frenhinol yn Llanelwedd yw'r eiddo dan brydles fer.

8. Buddsoddiadau asedau sefydlog

Mae'r buddsoddiadau asedau sefydlog isod yn cael eu dal yn y grŵp masnachol o gwmnïau.

Mae cyfanswm buddsoddiadau asedau sefydlog yn cynnwys:

	Buddsoddiadau mewn endidau heb eu rhestru	Buddsoddiadau mewn cyd-fentrau	Cyfanswm
	£000	£000	£000
Cost neu brisiad			
Ar 1 Ebrill 2021	1,397	125	1,522
Ar 31 Mawrth 2022	1,397	125	1,522
Lleihad mewn gwerth			
Ar 1 Ebrill 2021	845	125	970
Ar 31 Mawrth 2022	845	125	970
Gwerth llyfr net			
Ar 31 Mawrth 2021	552	-	552
Ar 31 Mawrth 2022	552	-	552

Eiddo Buddsoddi

Grŵp S4C

	£000
Cost	
Ar 1 Ebrill 2021	3,485
Gwariant cyfalaf	20
Colled gwerth ar ailbriso	135
Ar 31 Mawrth 2022	3,640

Mae gwerth cario ymlaen y buddsoddiad a ddatgelwyd yn seiliedig ar brisiad gan brisiwr annibynnol sydd â chymhwyster proffesiynol RICS ac sydd â phrofiad diweddar o leoliad a dosbarth yr eiddo buddsoddi sy'n cael ei briso.

Cyflawnwyd y prisiad gan ddefnyddio'r dulliau cymharu a buddsoddi. Mae'r priswyr wedi gwneud asesiad ar sail coladu a dadansoddi trafodion buddsoddi a rhentol cymaradwy priodol, ynghyd â thystiolaeth o'r galw yng nghyffiniau'r eiddo gwrthrych. Gyda budd y cyfryw drafodion maent wedi cymhwyso'r rhain i'r eiddo wedyn, gan ystyried maint, lleoliad, telerau, cyfamod a ffactorau perthnasol eraill.

Fe wnaeth S4C Digital Media Limited ymrwymo i'r gyd-fenter ganlynol yn ystod 2015/16:

	Gwlad ymgorffori	Dosbarth y cyfrandaliad a ddaliwyd	Canran a ddaliwyd		Natur y busnes
			Gan y prif ymgymeriad	Gan yr Awdurdod	
Media Rocket Ltd	Cymru a Lloegr	Cyffredin	50%	50%	Cwmni buddsoddi
Symudiadau mewn buddsoddiadau cyd-fenter yn ystod y flwyddyn:					
Cost	£000				
Ar 1 Ebrill 2021	125				
Ar 31 Mawrth 2022	125				
Lleihad mewn gwerth					
Ar 1 Ebrill 2021	125				
Ar 31 Mawrth 2022	125				
Gwerth llyfr net					
Ar 31 Mawrth 2021	-				
Ar 31 Mawrth 2022	-				

Ar 31 Mawrth 2022, roedd Grŵp S4C yn dal 20% neu fwy o ecwiti'r canlynol:

	Gwlad ymgorffori	Dosbarth y cyfrandaliad a ddaliwyd	Canran a ddaliwyd		Natur y busnes
			Gan y prif ymgymeriad	Gan yr Grŵp S4C	
S4C Masnachol Cyf	Cymru a Lloegr	Cyffredin	100%	100%	Darparu gwasanaethau rheoli i is-gwmnïau masnachol
S4C Digital Media Ltd	Cymru a Lloegr	Cyffredin	-	100%	Cwmni buddsoddi
S4C Rhyngwladol Cyf	Cymru a Lloegr	Cyffredin	-	100%	Gwerthu gofod hysbysebu a rhaglenni
S4C2 Cyf	Cymru a Lloegr	Cyffredin	-	100%	Darledu digidol a darparu gwasanaethau darledu digidol
S4C PTG Cyf	Cymru a Lloegr	Cyffredin	-	100%	Eiddo Buddsoddi

Mae'r is-ymgymeriadau i gyd wedi eu cyfuno yn y Datganiad Ariannol. Maent i gyd yn is-ymgymeriadau yn rhinwedd cyfranddaliadau o 100%. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon hawl mynediad llawn i ddatganiadau ariannol holl is-ymgymeriadau Grŵp S4C sydd mewn bodolaeth nawr neu a grëir yn y dyfodol.

9. Stoc

Mae'r stoc rhaglenni heb eu darlledu a stoc arall fel a ganlyn:

	Grŵp S4C		S4C	
	Ar 31/03/22	Ar 31/03/21	Ar 31/03/22	Ar 31/03/21
	£000	£000	£000	£000
Rhaglenni ar ganol eu cynhyrchu	14,408	10,648	14,408	10,648
Rhaglenni a orffennwyd ond eto i'w darlledu	263	805	263	805
	14,671	11,453	14,671	11,453

10. Dyledwyr

Symiau dyledwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

	Grŵp S4C		S4C	
	Ar 31/03/22	Ar 31/03/21	Ar 31/03/22	Ar 31/03/21
	£000	£000	£000	£000
Dyledwyr masnachol	554	758	448	1,414
Benthyciadau i swyddogion	5	1	5	1
TAW	1,180	15	1,120	-
Blaendaliadau ac incwm cronedig	900	778	699	661
	2,639	1,552	2,272	2,076

Mae dyledwyr masnachol S4C yn cynnwys swm o £283,119 (2020/21 - £1,383,870) sy'n ddyledus gan grŵp cwmnïau masnachol S4C.

Mae'r benthyciadau i swyddogion o dan y Cynllun Beicio i'r Gwaith.

Symiau dyledwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

	Grŵp S4C		S4C	
	Ar 31/03/22	Ar 31/03/21	Ar 31/03/22	Ar 31/03/21
	£000	£000	£000	£000
Rhagdaliadau	6,890	7,741	6,890	7,741
Dyledwyr eraill	-	5	-	-
	6,890	7,746	6,890	7,741

Mae rhagdaliadau'n ymwneud â'r prosiect cydleoli a rhent a ragdalwyd ar gyfer pencadlys newydd S4C yn Yr Egin.

11. Buddsoddiadau asedau cyfredol

Cronfa fuddsoddi:

	Grŵp S4C	
	Ar 31/03/22	Ar 31/03/21
	£000	£000
Ar 1 Ebrill	13,062	10,718
Arian parod a dynnwyd	500	-
Newid yng ngwerth marchnadol y buddsoddiad	212	2,417
Costau rheoli	(81)	(73)
Ar 31 Mawrth	13,693	13,062

Mae buddsoddiadau asedau cyfredol hefyd yn cynnwys cyd-gynhyrchu a buddsoddiadau digidol gwerth £dim (2020/21 - £dim).

Mae'r gronfa fuddsoddi yn cynnwys portffolio o ecwitiau, bondiau, arian ac asedau eraill a reolir ar ran S4C Digital Media Ltd. gan Sarasin & Partners LLP. Mesurir y buddsoddiad ar werth teg drwy'r elw a cholled lle mae prisiad y gronfa ar 31 Mawrth 2022 trwy bris y farchnad a ddyfynnwyd mewn marchnad weithredol.

Caiff y gronfa fuddsoddi ei hamlygu i risg y farchnad yn unig a lliniarir hyn trwy ddefnyddio rheolwr y gronfa.

Mae'r gronfa fuddsoddi wedi'i dosbarthu fel ased cyfredol gan fod y gallu gan S4C i dynnu allan o'r gronfa a chau'r gronfa ar fyr rybudd.

12. Credydwyr

	Grŵp S4C		S4C	
	Ar 31/03/22	Ar 31/03/21	Ar 31/03/22	Ar 31/03/21
	£000	£000	£000	£000
Credydwyr masnachol	540	443	247	483
Credydwyr rhaglenni	488	507	488	507
Credydwyr eraill	210	1,016	157	945
Incwm rhagdaleddig ac incwm gohiriedig	159	228	-	-
Symiau cronedig	13,315	14,740	12,852	14,334
	14,712	16,934	13,744	16,269

Symiau credydwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

	Grŵp S4C		S4C	
	Ar 31/03/22	Ar 31/03/21	Ar 31/03/22	Ar 31/03/21
	£000	£000	£000	£000
Blaendal Cymorth Grant	4,561	5,590	4,561	5,590
	4,561	5,590	4,561	5,590

13. Cronfeydd

Cronfeydd wrth gefn Grŵp S4C a ddangosir isod yw'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer S4C, y Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus, a chronfeydd wrth gefn y cwmnïau masnachol, y Gronfa Gyffredinol. Mae'r cronfeydd wrth gefn eraill yn cynnwys dyledwyr, buddsoddiadau, arian parod llai credydwy. Caiff cronfeydd wrth gefn y Gronfa Gyffredinol eu defnyddio ar gyfer buddsoddiadau a phrosiectau i wella gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus S4C, wrth geisio adenillion masnachol hefyd. Caiff unrhyw adenillion masnachol eu talu fel difidendau i S4C i'w defnyddio yn ei wasanaethau cyhoeddus.

Cronfeydd Grŵp S4C

	Cronfa'r Gwasanaeth -----Cyhoeddus-----			Cronfa Gyffredinol	Cyfanswm
	Asedau Sefydlog	Stoc	Eraill		
	£000	£000	£000	£000	£000
Ar 1 Ebrill 2021	484	11,453	14,141	19,687	45,765
Trosglwyddiad y Gronfa Gyffredinol am y cyfnod	-	-	-	1,011	1,011
Trosglwyddiad Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus i'r cyfrif elw a cholled	(262)	3,218	(6,443)	-	(3,487)
Trosglwyddiad i Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus	-	-	701	(701)	-
Ar 31 Mawrth 2022	222	14,671	8,399	19,997	43,289

Cronfeydd S4C

Dangosir cronfeydd wrth gefn y Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus ar 31 Mawrth 2022 ar wahân isod:

	Cronfa'r Gwasanaeth -----Cyhoeddus-----			Cronfa Gyffredinol	Cyfanswm
	Asedau Sefydlog	Stoc	Eraill		
	£000	£000	£000	£000	£000
Ar 1 Ebrill 2021	484	11,453	14,141	-	26,078
Gweddill y Gronfa Gyffredinol am y cyfnod	-	-	-	701	701
Trosglwyddiad Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus i'r cyfrif elw a cholled	(262)	3,218	(6,443)	-	(3,487)
Trosglwyddiad i Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus	-	-	701	(701)	-
Ar 31 Mawrth 2022	222	14,671	8,399	-	23,292

Mae cyfanswm o £2.786m wedi'i drosglwyddo i'r Gronfa Gwasanaethau Cyhoeddus o'r cyfrif elw a cholled yn 2021/22 (2020/21 - £7.372m o'r Gronfa Gyffredinol). Mae hyn yn cynnwys y trosglwyddiad o £0.701m (2020/21 - £0.849m) o'r Gronfa Gyffredinol, y trosglwyddiad Gwasanaethau Cyhoeddus o £3.487m (2020/21 - £6.523m) a nodir uchod.

14. Ymrwymadau prydles gweithredol

Mae taliadau prydles lleiaf Grŵp S4C yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredu fel a ganlyn:

	Ar 31/03/22	Ar 31/03/21
Tir ac Adeiladau	£000	£000
Llai nag un flwyddyn	187	187
Hwyrach nag un flwyddyn, ddim yn hwyrach na phum mlynedd	735	746
Hwyrach na phum mlynedd	2,383	2,560
	3,305	3,493

Mae derbyniadau prydles lleiaf Grŵp S4C yn y dyfodol fel a ganlyn:

	Ar 31/03/22	At 31/03/21
Tir ac Adeiladau	£000	£000
Llai nag un flwyddyn	251	272
Hwyrach nag un flwyddyn, ddim yn hwyrach na phum mlynedd	684	711
Hwyrach na phum mlynedd	778	807
	1,713	1,790

15. Ymrwymadau cyfalafol

Nid oedd gan Grŵp S4C ac S4C unrhyw ymrwymadau cyfalafol ar 31 Mawrth 2022 nac ar 31 Mawrth 2021.

16. Ymrwymadau rhaglenni

Ar 31 Mawrth, yr oedd Grŵp S4C ac S4C wedi ymrwymo'n gytundebol i wario'r symiau a ganlyn ar raglenni:

	Ar 31/03/22	Ar 31/03/21
	£000	£000
Ymrwymadau rhaglenni	14,671	12,362

17. Offerynnau ariannol

	Grŵp S4C		S4C	
	Ar 31/03/22	Ar 31/03/21	Ar 31/03/22	Ar 31/03/21
Asedau ariannol	£000	£000	£000	£000
Asedau ariannol	35,686	43,790	19,115	27,598
Rhwymedigaethau ariannol	(14,658)	(16,919)	(13,744)	(16,268)
Rhwymedigaethau ariannol	(14,658)	(16,919)	(13,744)	(16,268)

Caiff cronfeydd buddsoddi asedau ariannol eu mesur ar werth teg drwy'r cyfrif elw a cholled ac arian parod, dyledwyr masnach, symiau sy'n ddyledus gan ymgymeriadau grŵp a dyledwyr eraill a fesurir ar gost wedi'i hamorteiddio llai diffyg.

Mae rhwymedigaethau ariannol yn cynnwys credydwyr masnach, symiau sy'n ddyledus i ymgymeriadau grŵp, croniadau ac incwm gohiriedig a fesurir ar gost wedi'i hamorteiddio.

18. Dadansoddiad o'r newidiadau mewn cronfeydd net

	Ar 01/04/21	Llifarian	Arian parod heb eu gwireddu	Ar 31/03/22
	£000	£000	£000	£000
Arian mewn llaw ac yn y banc	29,955	(9,700)	-	20,255
Adnoddau parod eraill	13,062	500	131	13,693
	43,017	(9,200)	131	33,948

19. Cynllun pensiwn

Cynllun cyfraniadau diffiniedig

Mae'r Grŵp S4C yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig er budd gweithwyr.

Mae cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio yn gynllun pensiwn lle mae'r Grŵp S4C yn talu cyfraniadau penodedig i mewn i endid ar wahân. Ar ôl talu'r cyfraniadau, nid yw S4C dan ragor o rwymedigaethau talu.

Pan fydd y cyfraniadau'n daladwy, fe'u cydnabyddir yn gost yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Mae'r symiau nas talwyd i'w gweld yn groniadau, ar ffurf rhwymedigaeth, yn y Fantolen.

Mae asedau'r cynllun yn cael eu gweinyddu gan ymddiriedolwyr mewn cronfeydd unigol sy'n annibynnol o rai S4C. Cafwyd tâl pensiwn o £948,990 ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022 (blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021 - £833,090).

Cynllun budd diffiniedig

Mae'r Grŵp S4C yn gweithredu cynllun budd diffiniedig, sydd yn rhan o Gynllun Pensiwn Staff Ofcom (CTA gynt). Ar 31 Mai 2011, caewyd y cynllun budd diffiniedig i groniad yn y dyfodol. Trosglwyddwyd yr holl aelodau gweithredol i'r cynllun cyfraniadau diffiniedig. Mae asedau'r cynllun yn cael eu gweinyddu gan ymddiriedolwyr mewn cronfa sy'n annibynnol o rai Grŵp S4C.

Mae cynllun buddion wedi'u diffinio wedi nodi'r buddion pensiwn y bydd y gweithiwr yn eu cael pan fydd yn ymddeol. Mae'r buddion pensiwn hyn yn ddiynnol ar sawl elfen fel rheol. Bydd yr elfennau hyn yn cynnwys oedran, hyd gwasanaeth, a chydabyddiaeth ariannol, ond nid dim ond y rhain o reidrwydd. Ystyr cynllun buddion wedi'u diffinio yw cynllun pensiwn nad yw'n gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio.

Defnyddir y dull rhagamcanu unedau i gyfrifo'r rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio. Mae Grŵp S4C yn talu am wasanaeth actiwariaid annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaeth bob blwyddyn. Pennir y gwerth presennol drwy ddisgowntio'r hyn a amcangyfrifwyd ynghylch taliadau'r dyfodol. Gwneir hyn drwy ddefnyddio'r arenillion yn y farchnad ar gyfer bondiau corfforaethol o safon y maent yn rhai sterling ac y mae eu cyfnod yn lled debyg i'r cyfnod amcangyfrif ar gyfer taliadau'r dyfodol ('y gyfradd ddisgowntio').

Mesurir gwerth teg asedau'r cynlluniau yn unol â hierarchaeth gwerth teg FRS 102 ac yn unol â pholisi'r cwmni ynghylch asedau tebyg sydd ganddo. Mae hyn yn cynnwys defnyddio technegau prisio priodol.

Dan incwm cynhwysfawr arall y credydir/debydir yr enillion a'r colledion actiwaraid a ddeillia o addasiadau ar sail profiad ac o newid tybiaethau actiwaraid. Mae'r symiau hyn ynghyd â'r adenillion ar asedau 'eiddo parod', ar ôl tynnu'r symiau a gynhwysir yn y llog net, yn cael eu datgelu dan 'Ailfesur y rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio (net)'.

Mae'r pensiwn net sydd dros ben yn cael ei gydnabod fel naill ai gall yr asedau gael eu hadennill gan y cynllun neu gall arwain at gyfraniadau is yn y dyfodol. Mewn achos pan nad yw'r amodau hyn yn bodoli nid yw'r cyfanswm net sydd dros ben yn cael ei gynnwys ar y Fantolen fel sydd ar 31 Mawrth 2022 a 31 Mawrth 2021.

Seilir costau a rhwymedigaethau'r cynllun ar brisiad actiwaraid. Cynhaliwyd y prisiad actiwaraid llawn diweddaraf ar 31 Mawrth 2018 gan actwari annibynnol cymwys.

Y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actwari oedd:

	Ar 31/03/22	Ar 31/03/21	Ar 31/03/20
Chwyddiant	3.7%	3.3%	2.6%
Cyfradd disgownt rhwymedigaethau'r cynllun	2.8%	2.0%	2.5%
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau cysylltiedig yn llawn a'r mynegai pris manwerthu	3.7%	3.3%	2.7%
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau sydd â mynegai pris cyfyng	3.5%	3.2%	2.6%

Ar sail y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer disgwyliadau einioes, disgwylir i bensynwr gyrywaidd sydd yn awr yn 60 fyw am 26.9 blwyddyn bellach (2020/21 - 26.9 blwyddyn). Darparir lwfans ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol parthed disgwyliadau einioes.

Mae'r swm sy'n gynwysedig yn y Fantolen yn tarddu o oblygiadau'r Grŵp S4C i'r cynllun fel â ganlyn:

	Ar 31/03/22 Gwerth £000	Ar 31/03/21 Gwerth £000	Ar 31/03/20 Gwerth £000
Bondiau Llywodraeth	800	700	700
Blwydd-daliadau yswiriedig	34,600	35,600	30,500
Arian	800	900	700

Ar ôl cwblhau pryniant ar gyfer y rhwymedigaethau anyswiriedig gweddilliol yn yr Adran S4C ym mis Mai 2019, delir y mwyafrif helaeth o asedau'r Adran mewn polisiâu blwydd-dal sy'n symud yn unol â rhwymedigaethau'r Adran. Mae gweddill asedau'r Adran wedi'u buddsoddi mewn arian parod a giltiau indecs-gysylltiedig i dalu am gostau rhedeg ac unrhyw dreuliau ychwanegol a allai godi o'r pryniant.

	Ar 31/03/22	Ar 31/03/21	Ar 31/03/20
Cyfanswm gwerth marchnadol yr asedau	£000	£000	£000
Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	36,200	37,200	31,900
Ased pensiwn net	(34,900)	(35,900)	(30,800)
Ased pensiwn heb ei gydnabod	1,300	1,300	1,100
Sefyllfa mantolen net	(1,300)	(1,300)	(1,100)
	-	-	-

Yn unol ag FRS 102, dangosir y cynllun ar y fantolen ar 31 Mawrth 2022 fel ased net o £dim (ar 31 Mawrth 2021 - £dim).

Mae'r symiau a gydnabuwyd yn y datganiad incwm fel â ganlyn:

	Ar 31/03/22	Ar 31/03/21
Cost gwasanaeth presennol	£000	£000
Enillion disgwylidiedig ar asedau'r cynllun pensiwn	(700)	(800)
Costau rhedeg	100	100
Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn	700	800
Cyfanswm costau gweithredol	100	100

Cynhwysir y symiau a godwyd neu a gredydwyd yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn yr incwm a thaliadau gweithredol ac o fewn llog taladwy.

Mae newidiadau i werth presennol oblygiadau'r budd diffiniedig fel â ganlyn:

	Ar 31/03/22	Ar 31/03/21
Oblygiadau agoriadol y budd diffiniedig	£000	£000
Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn	35,900	30,800
Buddion a dalwyd	700	800
Enillion actiwaraid ar rwymedigaethau	(1,000)	(1,200)
Oblygiadau terfynol y budd diffiniedig	(700)	5,500
	34,900	35,900

Mae newidiadau yng ngwerth marchnadol asedau'r cynllun fel â ganlyn:

	Ar 31/03/22	Ar 31/03/21
	£000	£000
Gwerth marchnadol asedau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod	37,200	31,900
Enillion disgwylidiedig asedau'r cynllun	700	800
Costau rhedeg	(100)	(100)
Buddion a dalwyd	(1,000)	(1,200)
(Colledion)/enillion actiwaraidd ar asedau	(600)	5,800
Gwerth marchnadol asedau'r cynllun ar ddiwedd y cyfnod	36,200	37,200

Prif gategorïau buddsoddiadau asedau'r cynllun, fel % o gyfanswm asedau'r cynllun:

	Ar 31/03/22	Ar 31/03/21
Bondiau Llywodraeth	2%	2%
Arian	2%	2%
Blwydd-daliadau yswiriedig	96%	96%

Gwir enillion asedau'r cynllun:

	2021/22	2020/21
	£000	£000
Enillion disgwylidiedig asedau'r cynllun	700	800
(Colled) / enillion actiwaraidd ar asedau	(600)	5,800
Gwir enillion/(colled) ar asedau'r cynllun	100	6,600

Enillion o £0.1m (blwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2021 - enillion o £0.3m) yw'r cyfanswm a gydnabuwyd yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr Arall ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2022.

Colledion o £10.467m (blwyddyn i 31 Mawrth 2021 colled - £10.667m) yw'r swm cronedig gydnabuwyd yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr Arall ar 31 Mawrth 2022.

Dadansoddiad hanesyddol o werthoedd asedau, rhwymedigaethau'r cynllun a gwarged cyffredinol:

	Ar 31/03/22	Ar 31/03/21	Ar 31/03/20	Ar 31/03/19	Ar 31/03/18
	£000	£000	£000	£000	£000
Gwerth marchnadol asedau'r cynllun	36,200	37,200	31,900	53,500	52,200
Rhwymedigaethau'r cynllun	(34,900)	(35,900)	(30,800)	(38,300)	(38,900)
Gweddill yn y cynllun	1,300	1,300	1,100	15,200	13,300

20. Rhwymedigaethau amodol – Grŵp S4C ac S4C

Ar 31 Mawrth 2022, nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol (ar 31 Mawrth 2021 - £dim).

21. Trafodion partion cysylltiol

Yr is-gwmnïau masnachol sy'n eiddo'n llwyr, cyd-fentrau, aelodau'r Bwrdd ac aelodau'r Tîm Rheoli yw partion cysylltiedig S4C.

Mae cydnabyddiaeth yr Bwrdd a'r Tîm Rheoli yn cael ei ddatgelu yn nodyn 5.

Ni wnaed unrhyw drafodion partion cysylltiol perthnasol gan aelodau y Bwrdd neu'r Tîm Rheoli yn ystod 2021/22.

Mae holl drafodion a balansau is-gwmnïau masnachol S4C wedi eu dileu yn y broses gyfuno. Mae S4C wedi manteisio ar yr eithriad o ddatgelu unrhyw drafodion gydag unrhyw gwmni grŵp arall o dan Safonau Adrodd Ariannol 102.

Sut i wylio S4C

Mae gwasanaeth S4C ar gael ar ystod eang o lwyfannau a dyfeisiau Teledu ac Arlein – yng Nghymru ac draws y DU.

Ar deledu yng Nghymru:

Freeview 4
Sky 104 (gan gynnwys HD)
Freesat 104 (gan gynnwys HD)
Virgin TV 104 (HD)

Yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon:

Sky 134 (gan gynnwys HD)
Freesat 120 (gan gynnwys HD)
Virgin TV 166 (HD)

Arlein ar draws y DU

S4C Clic S4C.Cymru/Clic
BBC iPlayer bbc.co.uk/tv/s4c

Cysylltu gydag S4C...

Mae S4C wastad yn falch i glywed barn ein gwylwyr.

Os ydych yn dymuno cyflwyno eich barn am ein rhaglenni neu os ydych eisiau gwybodaeth bellach, fe fyddem yn falch i glywed gennych.

Fe allwch gysylltu ag S4C yng Nghaerfyrddin neu Gaernarfon, dros y ffôn, drwy ebost, twitter, facebook neu drwy lythyr.

Gwefan

s4c.cymru

Ebost

s4c@s4c.cymru

Gwifren

0370 600 4141

Swyddfa Caerfyrddin

Canolfan S4C Yr Egin
Ffordd y Coleg
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 3EQ

Swyddfa Caernarfon

S4C Doc Fictoria
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1TH

Swyddfa Caerdydd

3 Sgwâr Canolog
Caerdydd
CF10 1FS

Mae croeso i chi gysylltu ag S4C yn y Gymraeg, ac os byddwch chi'n gwneud hynny byddwn yn ateb yn y Gymraeg ac ni fydd oedi oherwydd hynny.



S4C



S4C



S4Cymru



S4Cymru



S4C

Dylunwyd gan
girlandboystudio.co.uk

E02762333
978-1-5286-3506-6

